

## Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel	<b>Bethan Davies</b>
Dyddiad: Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2018	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00	0300 200 6372
	<a href="mailto:SeneddCyllid@cynulliad.cymru">SeneddCyllid@cynulliad.cymru</a>

---

**Ar 27 Mehefin 2018, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o ddechrau'r cyfarfod hwn.**

- 1 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018–19: Trafod yr adroddiad drafft**  
(09.00–09.15) (Tudalennau 1 – 21)  
Papur 1 – Adroddiad drafft
- 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**  
(09.15)
- 3 Papur(au) i'w nodi**  
(09.15) (Tudalennau 22 – 24)
- 4 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2017–18 a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2018–19: sesiwn dystiolaeth**  
(09.15–10.15) (Tudalennau 25 – 247)  
Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Alison Gerrard, Aelod o'r Bwrdd, Swyddfa Archwilio Cymru  
Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru  
Matthew Hockridge, Pennaeth Cynllunio ac Adrodd, Swyddfa Archwilio Cymru  
  
Papur 2 – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2017–18



Papur 3 – Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad Terfynol ar Ganfyddiadau'r Archwiliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

Papur 4 – Gwneud i Arian Cyhoeddus Gyfrif: Cynllun Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2018–19

## **5 Trafod cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: sesiwn dystiolaeth**

(10.15–10.45)

(Tudalennau 248 – 274)

Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Alison Gerrard, Aelod o'r Bwrdd, Swyddfa Archwilio Cymru

Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru Martin

Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, Swyddfa Archwilio Cymru

Papur 5 – Llythyr oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru at y Cadeirydd – Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – 21 Mehefin 2018

Papur 6 – Cynigion am Fil i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Papur 7 – Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft

## **6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(10.45)

## **7 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2017–18 a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2018–19: trafod y dystiolaeth**

(10.45–10.55)

## **8 Trafod cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: trafod y dystiolaeth**

(10.55–11.00)

## **9 Trafod penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru**

(11.00–11.10)

(Tudalennau 275 – 289)

Papur 8 – Penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru

**10 Dull ar gyfer Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019–20**

(11.10–11.20)

(Tudalennau 290 – 297)

Papur 9 – Dull ar gyfer Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019–20

**11 Trafod proses y gyllideb ar gyfer deddfwriaeth**

(11.20–11.50)

(Tudalennau 298 – 323)

Papur 10 – Proses y gyllideb ar gyfer deddfwriaeth

**12 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft**

(11.50–12.05)

(Tudalennau 324 – 336)

Papur 11 – Adroddiad drafft

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

## Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd

<http://senedd.tv/cy/4841>

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Mehefin

2018

Amser: 09.02 – 12.07

### Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Jane Hutt AC Nick Ramsay AC
Tystion:	Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru Sharon Bounds, Llywodraeth Cymru Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Tim Render, Llywodraeth Cymru Peter Ryland, WEFO Tony Clark, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc)



	Georgina Owen (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Gareth David Thomas (Ymchwilydd)
--	---

## **1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC a David Rees AC.

## **2 Papur(au) i'w nodi**

2.1 Cafodd y papur ei nodi.

## **3 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018–19: sesiwn dystiolaeth**

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid; Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheoli Ariannol; a Sharon Bounds, Pennaeth Rheoli Cyllidebau Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018–19.

## **4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 ac 8 ac ar gyfer dechrau'r cyfarfod ar 5 Gorffennaf 2018**

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## **5 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018–19: trafod y dystiolaeth**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## **6 Ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 7 (Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig)**

6.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig; Tim Render, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a

Materion Gwledig; a Tony Clark, Pennaeth Cyllid, Adnoddau Naturiol a Bwyd ar ei ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru.

## **7 Ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 8 (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid)**

7.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid; a Peter Ryland, Prif Swyddog Gweithredu, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar ei ymchwiliad i baratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru.

## **8 Ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: trafod y dystiolaeth**

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2017-18



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU





Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 wedi cael ei baratoi ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion fel y'i cyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos y canlynol yn ystod 2017-18:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu harfer yn gyson â'r [Cynllun Blynyddol](#) a baratowyd ar gyfer y flwyddyn o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwaith a gynlluniwyd; ac
- mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun ar gyfer 2017-18 wedi'u cyflawni i raddau helaeth.

Mae'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 wedi cael eu paratoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/ neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

## SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## 24 HEOL Y GADEIRLAN

## CAERDYDD

## CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500

E-bost [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

This document is also available in English.

# CIPOLWG AR Y FLWYDDYN

## EBRILL

Daethpwyd i'r casgliad bod diffygion mawr yn y ffordd y gwnaeth Llywodraeth Cymru reoli'r risgiau i arian trethdalwyr a oedd yn gysylltiedig â phrosiect Cylchffordd Cymru.

Lluniwyd taflen i aelodau pwyllgor archwilio'r GIG a oedd yn anelu at gefnogi'r gwaith o graffu ar y defnydd o gamau tendro unigol, a'i herio.



## MAI

Nodwyd bod gwelliannau parhaus yn amlwg o ran ansawdd ac amseroldeb cyfrifon cyrff llywodraeth ganolog, ond bod lle i rai cyrff wella ar eu hadroddiadau blynyddol.

Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru a Chynghorau greu darlun cyfredol a dibynadwy o gyflwr ac addasrwydd yr ystad addysg.



## MEHEFIN

Gwahoddwyd barn ar gynigion i symleiddio cyfundrefn ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru.

Nodwyd bod trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig cynghorau yng Nghymru yn effeithiol ar y cyfan, ond bod diffygion yng nghynlluniau rhai cynghorau i gyflawni'r arbedion pellach sy'n angenrheidiol.



## GORFFENNAF

Nodwyd bod y ffordd y gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gaffael a rheoli rhai contractau ymgynghori ym maes adnoddau dynol yn sylweddol is na'r safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl.

Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru gwblhau'r adolygiad o'i fformiwla gyllido ar gyfer byrddau iechyd yn fuan er mwyn sicrhau bod amrywiadau mewn lefelau cyllido yn adlewyrchu gwahaniaethau yn anghenion iechyd poblogaethau.



## AWST

Tanlinellwyd y ffaith bod cynnydd wedi bod yn araf wrth fynd i'r afael â rhai gwendidau allweddol yn y Rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n helpu pobl agored i niwed yng Nghymru i fyw mor annibynnol â phosibl.

Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol yn amlinellu bod pob un o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn debygol o gydymffurfio â'u dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus yn 2017-18.



## MEDI

Cynhaliwyd seminar yn canolbwyntio ar bwysigrwydd ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ac yn rhannu enghreifftiau o'r ffordd mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi gwneud hyn drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol ac arloesol.

Cyhoeddwyd adroddiad ar ein cynnydd yn 2016-17 tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth ein gweithlu a bylchau cyflog strwythurol.



## HYDREF

Amlygwyd rhai o'r ffyrdd arloesol y mae cynghorau wedi mynd ati i lywodraethu newidiadau mewn gwasanaethau, y gallai fod yn fuddiol i sefydliadau eraill eu hystyried yn ein barn ni.

Cynhaliwyd arolwg staff newydd er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o brofiad cyflogaion yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan ddefnyddio'r un holiadur craidd ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn 2017.



## RHAGFYR

Diweddarwyd ein hasesiad ar gyfer y Pwyllgor Cyllid o effeithiolrwydd paratodau ar gyfer datganoli cyllidol yng Nghymru, gan amlygu'r prif risgiau a heriau oedd yn weddill, yn enwedig y rhai yn gysylltiedig â chasglu treth yn ddigidol.

Lluniwyd rhestr wirio oedd yn anelu at gynorthwyo aelodau bwrdd y GIG i gael sicrwydd ynghylch y ffordd y rheolir adnoddau nyrsio ardal lleol.



## CHWEFROR

Gwahoddwyd safbwyntiau a sylwadau ar ddrafft diwygiedig o God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, sy'n rhagnodi'r ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith ac yn ymgorffori arfer proffesiynol gorau.

Nodwyd bod boddhad cymharol uchel defnyddwyr ag addasiadau tai yn celu system hynod gymhleth, adweithiol ac anghyfartal nad yw'n cynnwys pawb a ll fod ei hangen.



## TACHWEDD

Nodwyd nad yw cyrff cyhoeddus yn defnyddio fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gymaint â'r disgwyl, a bod llawer o'i aelodau yn anfodlon ar y gwasanaeth.

Hwyluswyd gweminar oedd yn anelu at godi ymwybyddiaeth o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar y galw am wasanaethau cyhoeddus, lle trafodwyd sut y gall cyflenwi integredig helpu i atal profiadau o'r fath.

## IONAWR 2018

Amlinellwyd y ffaith bod cyfran sylweddol o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn parhau i gael barn archwilio amodol y gellir ei hosgoi, a bod lle o hyd i ddatblygu a gwella'r ffordd maent yn llywodraethu ac yn rheoli arian cyhoeddus.

Daethpwyd i'r casgliad mai cymysg yw llwyddiant awdurdodau lleol wrth ymateb i'r problemau a achoswyd gan ddigartrefedd, ond mai ffocws cyfyngedig sydd ar atal achosion sylfaenol digartrefedd.

## MAWRTH

Cynhaliwyd seminar lle gwnaethom rannu enghreifftiau o'r ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty sy'n sicrhau canlyniadau gwell i unigolion.

Cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru benodiad Adrian Crompton fel Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru, a fydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Gorffennaf 2018.

# CYNNWYS A'R CANLLAW I DDARLLENWYR

## ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

Adolygiad o waith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2017-18, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniadau a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

<b>Trosolwg</b>	<b>9</b>
Crynodeb o bwy ydym ni, yr hyn a wnawn, y prif risgiau sy'n ein hwynebu a'n perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.	
Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd	9
Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud	12
Y prif broblemau a risgiau sy'n ein hwynebu	14
Dangosyddion perfformiad	16
<b>Dadansoddi perfformiad</b>	<b>20</b>
Asesiad o'r graddau y mae'r rhaglenni gwaith a'r blaenoriaethau tair blynedd a nodwyd yng Nghynllun Blyneddol 2017-18 wedi'u cyflawni.	
Prosiectau archwilio	21
Gwaith arfer da	23
Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol	25
Gweithgarwch ymgysylltu a chydweithio	27
Ein trefniadau llywodraethu ac arwain	30
Ein defnydd o adnoddau	32

## ADRODDIAD AR ATEBOLRWYDD

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth ag arfer llywodraethu corfforaethol da.

<b>Adroddiad ar drefniadau llywodraethu corfforaethol</b>	<b>46</b>
Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a'r ffordd y maent yn helpu i gyflawni ein nod a'n hamcanion.	
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	47
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol	50
Datganiad llywodraethu	52

## **Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff** **70**

Ein polisi ar gydnabyddiaeth, ynghyd â manylion cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Pwyllgor Rheoli, ein datgeliad cyflog teg ac adroddiad ar staffio.

Adroddiad ar Gydabyddiaeth 70

Adroddiad staff 82

## **Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd** **88**

Ein crynodeb o alldro adnoddau, trosolwg o dueddiadau yn ein gwariant hirdymor, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra a materion eraill.

Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig 89

Tueddiadau gwariant hirdymor 92

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 93

## **DATGANIADAU ARIANNOL**

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac esboniadol.

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 99

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol 100

Datganiad o Lifau Arian Parod 101

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 102

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 103

Rhestr termau 122

## **ATODIADAU**

Atodiad 1 – Rhaglenni gwaith a gyflwynwyd yn ystod 2017-18 125

Atodiad 2 – Cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd 133

# ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

**ADOLYGIAD O WAITH YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU YN 2017-18, GAN GYNNWYS  
DADANSODDIAD O'N CYFLAWNIADAU A'N PERFFORMIAD, A'N  
SEFYLLFA AR DDIWEDD Y FLWYDDYN**



Huw Vaughan Thomas  
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

7 Mehefin 2018

# TROSOLWG

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol



Roedd 2017-18 yn flwyddyn gynhyrchiol iawn i ni o ran cyflawni archwiliadau. Diolch i broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled staff Swyddfa Archwilio Cymru a chontractwyr, gwnaethom gyflawni'r rhaglen eang o waith archwilio a nodir yn ein Cynllun Blynyddol yn llwyddiannus i safon uchel.

Mae detholiad o astudiaethau achos wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad hwn er mwyn cynnig mwy o gipolwg ar rai o'r prosiectau rydym wedi bod ynghlwm wrthynt, a'r cyfraniad sylweddol y mae ein gwaith yn ei wneud o ran dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif a helpu i wella'r broses o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Hefyd, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â'n blaenoriaethau tymor hwy i drawsnewid y ffordd rydym yn cyflawni ein rhaglen archwilio. Mae hyn wedi cynnwys datblygu a threialu ein dull o gynnal archwiliadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, canolbwyntio mwy ar waith sy'n edrych ar drefniadau gweithio rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth eraill, ac atgyfnerthu'r ymgysylltiad â'n gwaith ymhlith pwyllgorau'r Cynulliad.

Yn ystod 2017-18, cyhoeddais hefyd fy mod i'n ymddeol. Mae wedi bod yn fraint o'r mwyaf, ers 2010, i wasanaethu fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chael y cyfle i oruchwylio'r gwaith o sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru ar ei newydd wedd a'i datblygiad cyflym.

Hoffwn ddiolch i'm holl gydweithwyr talentog, ymroddedig a phroffesiynol, a'n rhanddeiliaid cefnogol niferus, na fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni dim hebddynt. Hoffwn hefyd ddiolch i Isobel Garner ac aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru am eu cyngor a'u cymorth dros y pum mlynedd diwethaf.

Dymunaf yn dda i Adrian Crompton yn ei rôl fel yr Archwilydd Cyffredinol nesaf. Rwy'n siŵr, o dan ei arweinyddiaeth a chyda chymorth parhaus y Bwrdd, y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fynd o nerth i nerth.

**Huw Vaughan Thomas**  
Archwilydd Cyffredinol Cymru



## Datganiad gan y Cadeirydd



Bu 2017-18 yn Swyddfa Archwilio Cymru yn flwyddyn lle canolbwyntiwyd yn fawr ar fyfyrion ar ein hamgylchedd gweithredu newidiol a sicrhau ein bod mewn sefyllfa i fod yn addas at y dyfodol. Ynghyd â datblygu datganiad gweledigaeth cyffredinol i'r sefydliad, goruchwyliodd y Bwrdd nifer o fentrau corfforaethol allweddol.

Ym mis Hydref, gwnaethom gynnal arolwg staff newydd er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o brofiad cyflogaeth. Roedd canlyniadau'r arolwg yn galonogol iawn; roedd yr ymatebion a gafwyd gan ein staff i'r rhan fwyaf o gwestiynau a themâu'r arolwg yn fwy nodweddiadol o sefydliad 'perfformiad uchel' Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil

(ac mewn rhai achosion yn sylweddol well nag ef).

Lle gwnaeth canlyniadau'r arolwg awgrymu bod lle i wella, byddwn yn mynd ar drywydd y materion hyn yn 2018-19 drwy gyflawni ein Strategaeth Pobl. Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud ar ddatblygu'r Strategaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n canolbwyntio ar ymgorffori fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sy'n diffinio ein diwylliant sefydliadol.

Hefyd, yn dilyn dau ymgynghoriad cyhoeddus gwahanol, gwnaethom gyhoeddi cyfres ddiwygiedig o amcanion cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf, ac achos dros symleiddio'r gyfundrefn ffioedd sydd gennym.

Bu hon yn flwyddyn o newid i'r Bwrdd ei hun hefyd. Gwnaethom ffarwelio â Peter Price a David Corner, a oedd yn aelodau anweithredol. Hoffwn ddiolch i'r ddau ohonynt am eu cyfraniadau sylweddol a nodedig. Yna, gwnaethom groesawu eu hollynwyr, Alison Gerard a Bill Richardson, sy'n cynnig cyfoeth o brofiad a gwybodaeth.

Ac, wrth gwrs, yn sgil ei ymadawiad cyn bo hir, ar ran pob un ohonom yn Swyddfa Archwilio Cymru, hoffwn ddiolch o galon i Huw. Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae wedi cynnig awdurdod, ymroddiad ac arweinyddiaeth gadarn, gan atgyfnerthu rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn sylweddol a helpu i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei hystyried yn sefydliad dylanwadol, uchel ei barch. Dymunwn yn dda iddo.

Er gwaethaf yr agenda newid, bu'n flwyddyn gref arall o ran perfformiad y sefydliad. Cafodd risgiau strategol eu rheoli'n dda a gwnaethom gyflawni llawer o'r targedau heriol a bennwyd gennym ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol. Mae gennym sefydliad cryf i adeiladu arno a hoffwn dalu teyrnged i staff Swyddfa Archwilio Cymru am eu holl waith caled a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn.

**Isobel Garner**

Cadeirydd, ar ran Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

## Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo elfennau sylweddol o'r arian hwn i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi staff proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 270 o aelodau o staff ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru i ystyried yn annibynnol a yw arian cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei reoli'n ddoeth ac y rhoddir cyfrif amdano'n briodol.

### MAE'R GWAITH O ARCHWILIO'R SECTOR CYHOEDDUS YN CYNNWYS:

- ▶ ARDDEL BARN AR Y CYFRIFON
- ▶ YSTYRIED P'UN A YW ARIAN CYHOEDDUS YN CAEL EI DDEFNYDDIO AT DDIBENION CYMERADWY (RHEOLEIDD-DRA)
- ▶ YSTYRIED SUT MAE BUSNES CYHOEDDUS YN CAEL EI GYNNAL
- ▶ YSTYRIED P'UN A OES TREFNIADAU PRIODOL AR WAITH I SICRHAU GWERTH AM ARIAN

Gall swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol gael eu cyflawni, ar y cyd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, er mwyn ystyried gwariant cyhoeddus waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

Rydym yn nodi arfer da o holl waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ac yn ei ledaenu drwy ein [Cyfnewidfa Arfer Da](#) a chyfryngau eraill, gan gynnwys seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.


Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith.

Rydym yn cyflawni ein gwaith yn unol â [Chod Ymarfer Archwilio](#) yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod yn rhagnodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae'n nodi'r arfer proffesiynol gorau ym marn yr Archwilydd Cyffredinol.

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi [Cynllun Blynyddol](#) sy'n darparu mwy o wybodaeth am:

- a sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru;
- b ein gweledigaeth a'n gwerthoedd;
- c ein nod a'n hamcanion;
- ch ein hamgylchedd gweithredu;
- d ein blaenoriaethau strategol tair blynedd;
- dd ein rhaglenni gwaith arfaethedig dros y 12 mis nesaf: a
- e sut rydym yn mesur ac yn adrodd ar ein perfformiad.

## Ein gweledigaeth



## Y prif broblemau a risgiau sy'n ein hwynebu

Fel y nodir yn fanylach yn ein Cynllun Blynyddol presennol, yn ein barn ni, y ffactorau canlynol yw'r rhai a fydd yn cael y dylanwad mwyaf ar y ffordd y byddwn yn gwneud ein gwaith ac yn cyflawni ein nod a'n hamcanion dros y tair blynedd nesaf:

- a Rydym yn dal i fod mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol
- b Mae bellach yn ofynnol i drefniadau llywodraethu fod â chwmpas ehangach
- c Mae'r dirwedd wleidyddol a'r dirwedd bolisi yn parhau i ddatblygu
- ch Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol

Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu, mae deg blaenoriaeth strategol yn ategu ein Cynllun ar gyfer cyflwyno ein rhaglenni gwaith yn ystod 2018-19, ac ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2018 a 2021.

Mae'r Datganiad Llywodraethu yn cynnwys cyfrif o'n trefniadau rheoli risg yn 2017-18, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd sy'n ein hwynebu.

## Ein blaenoriaethau strategol

	Integreiddio dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein trefniadau ar gyfer rhoi ein rhaglenni gwaith archwilio ar waith.
	Archwilio darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus integredig yng Nghymru o safbwynt pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.
	Cryfhau'r graddau y mae pwyllgorau'r Cynulliad yn ymgysylltu â'n gwaith a chanfod ffyrdd o wella ein gwaith i gefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol.
	Gwella effaith gyfunol archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau allanol yng Nghymru drwy rannu cudd-wybodaeth ac adnoddau yn well.
	Ymgysylltu ag asiantaethau archwilio eraill yn y DU ac yn rhyngwladol er mwyn rhannu a goleuo arfer gorau a chudd-wybodaeth.
	Gwella darllenadwyedd a hygyrchedd ein cynnyrch archwilio er mwyn cynyddu eu cyrhaeddiad a'u heffaith hyd yr eithaf.
	Defnyddio egin-dechnoleg i wella'r modd yr ydym yn canfod, yn caffael ac yn dadansoddi data, a'r modd yr ydym yn cyflwyno ac yn darlunio ein canfyddiadau.
	Mabwysiadu dulliau gweithio newydd er mwyn darparu gwasanaeth archwilio effeithlon sy'n addas i'r dyfodol wrth i'n hamgylchedd gweithredu newid.
	Cyflwyno strategaeth pobl sy'n ymateb i ganlyniadau ein harolwg staff, yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac yn galluogi ein staff i ragori yn eu gwaith.
	Gwella'r modd yr ydym yn rheoli gwybodaeth a data, gan gynnwys ymateb yn effeithiol i'r broses o gyflwyno'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

## Dangosyddion perfformiad

Cafodd fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol, yn canolbwyntio ar saith thema a chwestiynau am ein gweithgareddau, ei gynnwys yn ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18](#). Gwnaethom hefyd ddatblygu cyfres o dargedau gan gyfeirio at lefelau perfformiad ar ddiwedd 2016-17 a meincnodau priodol.

Yn ystod 2017-18, gwnaethom ddefnyddio cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur ein perfformiad a'n risgiau ac adrodd a myfyrio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau chwarterol i'n Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau a thargedau. Gwnaethom graffu ar ein cyfres o dargedau a'u mireinio ymhellach yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn ddigon heriol ond bod modd eu cyflawni o fewn y terfynau amser penodedig.

Ar y cyfan, yn 2017-18, gwnaethom gyflawni ein targedau ar gyfer 22 allan o'r 35 o ddangosyddion perfformiad, ac roeddem yn agos at gyflawni ein targedau ar gyfer chwe dangosydd arall. Bydd gwaith gwella yn ystod 2018-19 yn canolbwyntio'n benodol ar wella ein perfformiad yn erbyn y saith dangosydd sy'n weddill. Hefyd, ar gyfer 2018-19 rydym wedi adolygu a diwygio ein fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol er mwyn bod yn fwy cyson â'n hamcanion cyffredinol.

## Effaith

I ba raddau y mae ein gwaith yn hysbysu pobl Cymru, yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo, ac yn cael ei werthfawrogi gan ein rhanddeiliaid?




**97%**

o'n **hargymhellion** wedi'u **derbyn yn llwyr** i'w gweithredu



**97%**

o'r rhanddeiliaid wedi cael mewnwelediad defnyddiol drwy ein gwaith



**97%**

o'r rhanddeiliaid yn tybio bod yr Archwilydd Cyffredinol yn **sylwebydd awdurdodol**



**£16m**

o **arbedion posibl** wedi'u pennu drwy ein gwaith



**73%**

o'r rhanddeiliaid yn credu bod ein gwaith wedi arwain at **wella gwasanaethau cyhoeddus**



Wedi cyflawni ein targed



Yn agos at gyflawni ein targed



Angen gwella



Angen gwella'n sylweddol

## Cyflawni

A ydym yn cyflawni ein harchwiliadau ar amser ac yn unol â safonau ansawdd a phroffesiynol gofynnol?



**99%**

o'r ceisiadau i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru wedi'u **prosesu cyn pen 24 awr**



**88%**

o'r cynhyrchion archwilio allweddol wedi'u **cyflawni'n brydlon**



**100%**

o'r archwiliadau wedi'u cyflawni yn unol â'r **safonau ansawdd**



**20**

o gynhyrchion **arfer da** wedi'u cyflawni



**19**

**adroddiad cenedlaethol** wedi'u cyhoeddi



## Arweinyddiaeth

A yw ein trefniadau llywodraethu ac arwain yn gweithredu'n effeithiol?



**100%**

o'r rhanddeiliaid yn dweud bod ganddynt **hyder yn ein gwaith**



**81%**

o'r staff yn cytuno bod eu **perfformiad yn cael ei werthuso'n deg**<sup>1</sup>



**76%**

o'r staff yn teimlo bod y bobl yn eu tîm yn cael eu hannog i feddwl am ffyrdd **newydd a gwell o wneud pethau**



**91%**

o'r staff yn teimlo bod eraill yn **ymdiried** ynddynt i gyflawni eu swyddi'n **effeithiol**



**82%**

Proportion o'r staff yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ddiben y sefydliad (yet to be measured)



Wedi cyflawni ein targed



Yn agos at gyflawni ein targed



Angen gwella



Angen gwella'n sylweddol

<sup>1</sup> O gymharu â 65% ar gyfartaledd ar gyfer y sefydliadau hynny a gymerodd ran yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2017. Atebodd 13% arall o'n staff 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno'.



## Ariannol

Pa mor dda rydym yn rheoli ein cyllid a'n hasedau?



**£3,317**

yw'r **gost ystad**  
fesul aelod staff  
cyfwerth ag amser llawn



**88%**

o **gyflenwyr wedi'u**  
**talw o fewn 10 diwrnod**  
i dderbyn anfoneb



**£1.4m**

o arbedion cost ac  
effeithlonrwydd wedi'u  
pennu drwy'r busnes



Bydd  
lefel y gwarged ar  
ddiwedd y flwyddyn o

fewn **0.0%** i'r gyllideb



**£0.1m**

o **hen ddyledion**  
dros 60 diwrnod



## Cymdeithasol

Pa mor dda rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydraddoldeb, lles a dysgu?



**71%**

o'r staff yn teimlo eu bod  
yn gallu **manteisio ar**  
**gyfleoedd dysgu priodol**



**85%**

o'r staff yn teimlo  
eu bod yn cael eu  
**trin yn deg yn y gwaith**



**80%**

o'r staff yn teimlo  
bod modd iddynt daro  
**cydbwysedd da rhwng eu**  
**bywyd gwaith a'u bywyd preifat**



**7.6 days**, o

**ddyddiau gwaith**  
cyfartalog wedi'u colli  
oherwydd **salwch** fesul aelod  
staff



**0**

gŵyn ynghylch ein  
darpariaeth **Gymraeg** wedi  
dod i law ac wedi'i chadarnhau<sup>2</sup>



Wedi cyflawni ein targed



Yn agos at gyflawni ein targed



Angen gwella




Angen gwella'n sylweddol

<sup>2</sup> Cafwyd un gŵyn am ein darpariaeth Gymraeg yn ystod 2017-18, sy'n cael ei hystyried ar hyn o bryd.




## Amgylcheddol

Pa mor dda rydym yn rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd?



## Cyfathrebu

Pa mor dda rydym yn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac yn ennyn diddordeb ynddo?



● Wedi cyflawni ein targed ● Yn agos at gyflawni ein targed ● Angen gwella ● Angen gwella'n sylweddol


# DADANSODDI PERFFORMIAD

Yn yr adran hon, rydym yn asesu i ba raddau y mae'r rhaglenni gwaith a'r blaenoriaethau tair blynedd a nodwyd yn ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18](#) wedi'u cyflawni, gan gynnwys drwy ddefnyddio enghreifftiau o astudiaethau achos.

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r canlynol:

- **Atodiad 1**, sy'n rhoi mwy o fanylion am raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol a gyflawnwyd yn 2017-18, ac sy'n cynnwys adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth; ac
- **Atodiad 2**, sy'n rhoi mwy o wybodaeth am y cynnydd rydym wedi'i wneud tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd.

Yn unol â'n Cynllun, rhennir ein dadansoddiad yn chwe adran sy'n cyd-fynd â'n hamcanion. Mae'r pedair adran gyntaf yn ymwneud â rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r ddwy adran arall yn ymwneud â rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.



Yn 2017-18, gwnaethom lwyddo i gyflawni popeth yn y rhaglen waith a osodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn. Rydym ar y trywydd cywir hefyd i gyflawni pob un o'n blaenoriaethau tair blynedd (ac, mewn rhai achosion, rydym eisoes wedi cwblhau'r gwaith angenrheidiol arnynt).

## Prosiectau archwilio

Mae rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau unedol, byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstablaid, cronfeydd pensiwn llywodraeth leol a chynghorau tref a chymuned.

Mae'r rhaglen o waith archwilio yn cynnwys archwilio cyfrifon, archwiliadau perfformiad lleol, ardystio hawliadau a ffurflenni grant, archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, a pharatoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio mewn perthynas â nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/ neu lywodraeth leol. Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhelir mewn ymateb i faterion sydd o bryder i'r cyhoedd a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn ystod 2017-18, cafodd ein holl brosiectau archwilio eu cwblhau neu eu datblygu yn unol â'n Cynllun.

Mae ansawdd ein gwaith yn hollbwysig i ni a'n rhanddeiliaid. Mae'r [Cod Ymarfer Archwilio](#), a adolygir bob blwyddyn, yn rhagnodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae wedi'i ddylunio i ategu Safonau Archwilio Rhyngwladol ac ymgorffori arfer proffesiynol gorau.

Mae ein Datganiad Tryloywder yn rhoi mwy o fanylion am sut mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyrraedd safonau uchel yn y ffordd y mae'n gweithio ac o ran ansawdd ei gwaith.

Ym marn ein Pwyllgor Rheoli mae'r fframwaith ansawdd hwn yn gweithredu'n effeithiol, ac mae'r trefniadau yn parhau i ddatblygu.

CYHOEDDWDYD DROS  
**800**  
O FARNAU ARCHWILIO AR  
GYFRIFON CYRFF  
CYHOEDDUS

ARDYSTIWDYD 20 O  
GYNLLUNIAU GRANT  
SY'N WERTH BRON  
**£3**  
**BILIWN**

CYHOEDDWDYD  
**19**  
O ADRODDIADAU  
CENEDLAETHOL

CYMERADWYWDYD  
TUA  
**£1 BILIWN**  
O DALIADAU ALLAN  
O GRONFA GYFUNOL  
CYMRU BOB MIS

## Astudiaeth achos: Casglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth

Pan dderbynnir gwasanaethau gan gynghorau, ni fydd modd i ddefnyddwyr ddewis darparwr yn aml. Felly, wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau, mae'n bwysig bod cynghorau yn deall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth y maent yn ceisio diwallu eu hanghenion. Yn ein gwaith archwilio, rhown bwyslais arbennig ar bwysigrwydd deall safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth wrth ystyried effeithiolrwydd trefniadau cyflenwi gwasanaethau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymdrechu'n galed i gasglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth sy'n berthnasol i nifer o feysydd o'n gwaith archwilio ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, ynghyd â defnyddio ystod eang o ddulliau i wneud hynny. Ymhlith y rhain roedd arolygon drws i ddrws o denantiaid tai cymdeithasol, arolygon wrth i ddefnyddwyr adael llyfrgelloedd a gorffen defnyddio canolfannau cyswllt, arolygon dros y ffôn o bobl a gafodd addasiadau i'w cartrefi, a nifer o weithdai penodol gyda grwpiau defnyddwyr gwasanaeth.

Tra dilynodd pob prosiect drywydd cymharol debyg, cafodd y ffocws a'r dull penodol ei deilwra rhwng cynghorau er mwyn gweddu i amgylchiadau lleol yn y ffordd orau bosibl.

Mae ein gwaith o gasglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth wedi cael effaith sylweddol. Gwnaethom hysbysu adrannau cynghorau am ein canfyddiadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo, a wnaeth arwain at sawl cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym cyn i ni gyhoeddi ein canfyddiadau yn ffurfiol.

Cydnabyddwn fod ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y sawl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, yn gofyn am gryn gynllunio manwl a defnyddio sgiliau a gwybodaeth arbenigol. Rydym yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd a'n profiadau o gyflawni'r prosiectau hyn yn 2017-18 i wella ein dulliau archwilio, ac rydym wedi ymrwmo i barhau i geisio barn defnyddwyr gwasanaeth fel rhan annatod o'n gwaith archwilio yn y dyfodol.



## Gwaith arfer da

Un o ddwy brif ran ein gwaith arfer da yw darparu [adnoddau ar-lein](#) sy'n galluogi'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr gwasanaeth, llunwyr polisïau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gael gafael ar wybodaeth ychwanegol. Mae'r rhan arall o'n gweithgarwch yn cynnwys hwyluso sgysiau lle y caiff gwersi a ddysgwyd o lwyddiannau a methiannau cymaradwy eu rhannu wyneb yn wyneb.

Yn ystod 2017-18, mae ein holl waith arfer da wedi cael ei gwblhau neu mae wedi datblygu yn unol â'n Cynllun.

WEDI CYNNAL

**18**

O SEMINARAU A  
GWEMINARAU  
DYSGU AR Y CYD

**1,178**

O BOBL WEDI  
MYNYCHU EIN  
SEMINARAU A'N  
GWEMINARAU

**98%**

O'R RHAI A  
FYNYCHODD Y  
RHAIN O'R FARN BOD  
EIN SEMINARAU A'N  
GWEMINARAU YN  
DDEFNYDDIOL NEU'N  
DDEFNYDDIOL IAWN

**88%**

O RANDDEILIAID O'R  
FARN BOD EIN  
GWAITH ARFER DA  
WEDI BOD O FUDD I  
WASANAETHAU  
CYHOEDDUS



**The Good Practice Exchange**  
**Y Gyfnewidfa Arfer Da**

## Astudiaeth achos: Gwneud mwy o ddefnydd o weminarau a phodlediadau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom lwyddo i wneud mwy o ddefnydd o weminarau a chyflwyno'r defnydd o bodlediadau fel dulliau ychwanegol ac effeithiol o hwyluso'r broses o rannu dysgu a syniadau sy'n dod i'r amlwg ynghylch arfer da rhwng darparwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Cawsom adborth yn flaenorol gan amrywiaeth o randdeiliaid a'r sawl a ddaeth i'n seminarau yn argymhell ein bod yn gwneud mwy o ddefnydd o'r fformat gweminar er mwyn cyrraedd ystod ehangach o bobl, yn enwedig lle mae pynciau o ddiddordeb cyffredinol i sefydliad a phartneriaethau, ac er mwyn lleihau'r amser teithio a'r amser a dreulir allan o'r swyddfa i'r sawl sy'n cymryd rhan.

Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd trafodaethau parhaus gyda'n rhanddeiliaid er mwyn helpu i bennu pa bynciau a meysydd dysgu a fyddai'n fwyaf addas ar gyfer gweminar. Er mwyn sicrhau eu bod mor hygyrch a hwylus â phosibl, gwnaethom ymdrech arbennig i sicrhau bod ein gweminarau yn cael eu hamseru i gyd-fynd â'r adegau hynny pan fydd sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gael i staff gan lawer o gyrff sector cyhoeddus. Yn dilyn y digwyddiad a gafodd ei ffrydio'n fyw, darparwyd y drafodaeth wedi'i recordio i'w gwyllo ar [YouTube](#), gan roi'r cyfle i'r rhai a oedd yno ddysgu ohono pryd a ble roeddent yn dewis. Enghraifft dda o'r ffordd y gwnaeth hyn weithio'n ymarferol oedd ein gweminar [Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod](#), lle gwnaeth tua 250 o bobl wrando a chyfrannu yn ystod y digwyddiad a gafodd ei ffrydio'n fyw, ond lle cafodd y cynnwys ei weld 350 o weithiau eraill – y gweminar cyfan weithiau ond yn aml rannau penodol yn ymwneud â phynciau penodol.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom wedyn ymestyn y cysyniad hwn drwy dreialu'r gwaith o baratoi podlediadau byr a all gael eu lawrlwytho i ffonau deallus neu ddyfeisiau symudol. Mae pob [Podlediad](#) yn cynnwys sgwrs fanylach gan arbenigwr, yn seiliedig ar ei brofiadau personol o'r maes dan sylw.

**“ROEDD Y FFORDD Y CAFODD Y PANEL EI DREFNU YN CHWA O AWYR IACH O GYMHARU Â'R CYFLWYNIADAU POWERPOINT DIFLAS A GEIR MEWN LLAWER O WEMINARAU — AC ROEDD Y SIARADWYR GWADD A DDEWISWYD WEDI LLWYDDO I ENNYN DIDDORDEB”**

DYFYNIAD GAN UNIGOLYN A GYMERODD RAN YNG NGWEMINAR PROFIAU ANDWYOL MEWN PLENTYNDOD

## Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

Mae ein gwaith yn chwarae rôl allweddol yn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth iddo ystyried materion sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Lle bo'n gymwys, gall ein gwaith hefyd lywio gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol y mae eu cylch gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig . Ym 2017-18, gwnaethom gyflwyno 16 o adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym hefyd yn mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio'r prif gyrff a archwiliwn er mwyn darparu briffiadau rheolaidd ac adrodd ar ein gwaith archwilio, a byddwn yn darparu rhagor o gyngor a chymorth i bwyllgorau archwilio a chraffu.

Rydym hefyd yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan aelodau o'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl am y ffordd y caiff arian ac asedau cyhoeddus eu gwarchod, ac mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer gwneud datgeliadau chwythu'r chwiban.

GWNAETH  
ALLBYNNAU EIN  
GWAITH GEFNOGI

**29**

**GYFARFODYDD Y  
PWYLLGOR  
CYFRIFON  
CYHOEDDUS**

CAFWYD

**77**

O DDARNAU O  
OHEBIAETH YN  
CODI PRYDERON  
POSIBL AM  
WARIANT  
CYHOEDDUS

**DIM UN**

**ACHOS LLE NA  
RODDWYD YMATEB I  
BRYDERON A  
GODWYD YNGHYLCH  
GWARIANT  
CYHOEDDUS O FEWN  
30 DIWRNOD**

GWNAETH

**31**

O UNIGOLION  
GYSYLLTU Â NI GAN  
DDYNODI EU BOD  
AM WNEUD  
**DATGELIAD  
CHWYTHU'R  
CHWIBAN**

3 Er enghraifft, nodwyd canfyddiadau ein harchwiliad o'r ffordd mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â digartrefedd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ond roeddent hefyd yn berthnasol i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i dlodi yng Nghymru.



## Astudiaeth achos: Paratoi ar gyfer datganoli cyllidol

Ar 1 Ebrill 2018, cafodd Awdurdod Refeniw newydd Cymru ei lansio'n llwyddiannus i gasglu'r trethi cyntaf yng Nghymru mewn bron 800 mlynedd – carreg filltir sylweddol yn y daith ddatganoli.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ein staff archwilio ariannol a pherfformiad wedi bod yn cydweithio'n agos er mwyn archwilio rhaglen datganoli cyllidol Llywodraeth Cymru.

Ein nod fu helpu Trysorlys Cymru ac Awdurdod Refeniw Cymru i 'gael pethau'n iawn y tro cyntaf' – yn hytrach na dod i mewn wedyn yn y rôl archwilio fwy 'traddodiadol' lle archwilir yr hyn a allai fel arall (o bosibl) fod wedi mynd o chwith.

Darparodd yr Archwilydd Cyffredinol uwch aelod o'i dîm o'r cychwyn i fynychu cyfarfodydd Bwrdd Rhaglen Weithredu Llywodraeth Cymru fel 'arsylwr' – gan ddarparu her adeiladol amser real a rhannu enghreifftiau o ddysgu arfer da o adroddiadau archwilio blaenorol ond, yn hollbwysig, heb beryglu annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi dau adroddiad, ym mis [Tachwedd 2016](#) ac ym mis [Rhagfyr 2017](#), yn asesu parodrwydd datblygol Llywodraeth Cymru i gael pwerau cyllidol. Mae'r ddau adroddiad hyn, ac ymatebion adeiladol Llywodraeth Cymru iddynt, wedi helpu Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol i wneud gwaith craffu amserol ac effeithiol ar y rhaglen nodedig hon.

Wrth edrych ymlaen at weithredu Cyfradd Treth Incwm Cymru ym mis Ebrill 2019, rydym yn bwriadu parhau â'r dull archwilio hwn sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, fel enghraifft ymarferol o'n gwerthoedd<sup>4</sup> ar waith.



4 Fel y nodwyd yn ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018-19](#), dros y 12 mis diwethaf rydym wedi datblygu set o werthoedd sy'n diffinio ein diwylliant sefydliadol a'n credoau craidd.

## Gweithgarwch ymgysylltu a chydweithio

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi parhau i weithredu ar eu hymrwymiad i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses o ddatblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, sicrhau ei fod mor berthnasol â phosibl ac estyn ei gyrhaeddiad a'i effaith.

Yn unol â'n Cynllun, rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith, ac wedi gwneud ychydig o waith archwilio a gomisiynwyd.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu gwneud trefniadau gyda mathau penodol o gyrff er mwyn i'r swyddfa neu'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau i'r cyrff hynny, neu arfer eu swyddogaethau. Ond, rydym yn ymwybodol y dylai'r holl weithgareddau hynny fod yn hunangyllidol ac na ddylent amharu ar ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

O bryd i'w gilydd, mae'n bleser gennym gynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol mewn perthynas â'n gwaith. Yn 2017-18, gwnaethom gyflwyno papurau'n rheolaidd mewn digwyddiadau EURORA<sup>5</sup>, a chawsom ein gwahodd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Gweriniaeth Kosovo i rannu ein profiad a'n dysgu wrth archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol, ac wrth hwyluso cyfnewid arfer da.

AELOD GWEITHGAR O

**12**

GWEITHGOR  
ALLANOL  
ALLWEDDOL A  
SYLWEDYDD AR  
WYTH GRŴP  
ALLWEDDOL ARALL

WEDI ARCHWILIO

**£250  
MILIWN**

O ARIAN EWROPEAIDD  
A DDEFNYDDIR I  
GEFNOGI FFERMWYR  
AC AMAETHYDDIAETH  
YNG NGHYMRU

**56%**

O RANDEILIAID O'R  
FARN EIN BOD YN  
GWEITHIO'N DDA  
GYDA CHYRFF  
ADOLYGU ALLANOL  
ERAILL<sup>6</sup>

WEDI HWYLUSO  
GWAITH I GANFOD  
AC ATAL TWYLL A  
GWALLAU GWERTH  
MWY NA

**£5.4  
MILIWN**

5 Prosiect cydweithredol ymysg sefydliadau archwilio sector cyhoeddus ledled Ewrop

6 Nododd 40% arall o randdeiliaid a ymatebodd i'n harplwg 'Ddim yn gwybod'

## Astudiaeth achos: Datblygu ein methodoleg ar gyfer cynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhydd hyn ffocws newydd i'n gwaith ac roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn awyddus i ni gydweithio â'n rhanddeiliaid yn 2017-18 er mwyn datblygu dull archwilio ystyrlon a chymesur sy'n ychwanegu gwerth. Gwirfoddolodd naw corff cyhoeddus i gymryd rhan mewn rhaglen beilot yn ystod y flwyddyn.

Yn gynnar yn y flwyddyn, gwnaethom gynnwys dros 100 o randdeiliaid mewnol ac allanol mewn sesiynau datblygu methodoleg cychwynnol er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth o ddyletswydd newydd yr Archwilydd Cyffredinol a thrafod syniadau ar gyfer dull archwilio. Yna gwnaethom weithio'n agos gyda'r cyrff peilot er mwyn datblygu methodoleg drwy ystyried sut y gallem asesu ffyrdd o weithio, pa ymddygiadau y dylem fod yn edrych amdanynt, ac ym mha ffyrdd. Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod ynghlwm wrth y broses gyfan, yn sgil cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Mae pob prosiect peilot wedi bod yn ffynhonnell ddysgu gyfoethog i ni, ac mae hefyd wedi darparu adborth gwerthfawr i'r cyrff ar fodloni gofynion y ddeddfwriaeth. Mae archwilwyr a chyrff peilot bellach yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwerthuso'r dulliau gweithredu a byddant yn parhau i fod yn rhan o'r gwaith o'u mireinio.

## Astudiaeth achos: Helpu'r GIG i wella ei ddull o wneud arbedion ariannol

Mae cyrff y GIG yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, ac mae angen iddynt lunio cynlluniau gwella costau bob blwyddyn er mwyn helpu i fantoli'r gyllideb. Roedd ein gwaith asesu strwythuredig ar gyfer y GIG yn 2017 yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddull sefydliadau'r GIG o gynllunio a chyflawni arbedion ariannol.

Amlygodd y gwaith hwn beth amrywiad sylweddol mewn ymarfer ledled Cymru, ac yn gyffredinol angen i sicrhau rhai gwelliannau sylfaenol i'r gwaith o ddatblygu, cyflawni a monitro cynlluniau arbedion. Mae cyrff y GIG wedi derbyn ein holl argymhellion ar gyfer atgyfnerthu trefniadau presennol. Rydym wedi dwyn ynghyd y prif negeseuon cenedlaethol a'u cyflwyno i Fwrdd Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella GIG Cymru. Byddwn hefyd yn rhannu'r canfyddiadau â grwpiau allweddol eraill yng Nghymru, fel Cyfarwyddwyr Cyllid a Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio.

Mae'r ymgysylltu ychwanegol hwn ar lefel Cymru gyfan wedi cynnig cipolwg ar arferion presennol, ynghyd â dadansoddiad o "sut beth yw da", a nodi ble y gall camau system ehangach helpu i sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen.



## Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn rhagnodi'r fframwaith ar gyfer ein trefniadau llywodraethu, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â chyfansoddiad a swyddogaethau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, a'r gydberthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae ein Bwrdd yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau aelodau anweithredol, aelodau gweithredol ac aelodau etholedig sy'n gyflogeion er mwyn cynnig dealltwriaeth a phrofiad sy'n helpu i lunio ein cyfeiriad strategol. Mae ein trefniadau llywodraethu yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni ddatblygu a gwneud cynnydd pellach fel busnes.

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru strwythur uwch reoli hefyd, a luniwyd i gynnig llinellau adrodd ac atebolrwydd clir, a galluogi'r Archwilydd Cyffredinol drwy ei waith i hysbysu'r cyhoedd a dylanwadu ar y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Mewn arolwg o randdeiliaid allweddol a gynhaliwyd ar ddechrau 2018, roedd 86% o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad oedd yn cael ei redeg yn dda.

Mae ein Datganiad Llywodraethu yn rhoi amlinelliad o strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiadau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg ar gyfer y flwyddyn, a disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebwyd yn 2017-18. Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn ystod 2017-18 yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd y Bwrdd, ymhlith materion eraill, yr [Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon](#) ar gyfer 2016-17, [Amcangyfrif](#) o incwm a threuliau ar gyfer 2018-19, [Adroddiad Interim](#) ar gynnydd yn erbyn Cynllun Blynyddol 2017-18, [Cynllun Ffioedd](#) ar gyfer 2018-19 a [Chynllun Blynyddol](#) ar gyfer 2018-19 sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau strategol. Cafodd y dogfennau hyn eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a chraffodd ei Bwyllgor Cyllid arnynt.

Ar 25 Ionawr 2018, am yr ail flwyddyn yn olynol, cyrhaeddodd Swyddfa Archwilio Cymru restr fer y rownd derfynol yn y categori Cyflawniad ym maes Atebolrwydd ac Adroddiadau Ariannol yng [Ngwobrau Arloesedd Cyllid Cyhoeddus 2018](#), sy'n amlygu ac yn gwobrwyo cyflawniadau ym maes cyllid cyhoeddus a llywodraethu.



## Ein defnydd o adnoddau

Rydym wedi gweithio'n galed i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy<sup>7</sup> yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes, ac yn y ffordd rydym yn neilltuo adnoddau ar gyfer gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, ers nifer o flynyddoedd. Yn yr adran hon, rhown sylwadau lefel uchel ar sut rydym wedi rheoli ein defnydd o adnoddau yn 2017-18.

Er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u rhestru fel cyrff cyhoeddus at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym, serch hynny, yn ceisio cyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni'r saith nod llesiant yng Nghymru:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Yn ogystal, yn yr adran hon, rydym wedi dangos (drwy ddefnyddio eiconau perthnasol) yr achosion hynny lle roedd ein perfformiad yn 2017-18 wedi cyfrannu at un neu fwy o 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig<sup>8</sup>.



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



The Wales Audit Office supports the Sustainable Development Goals

<sup>7</sup> Diffinnir hyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'

<sup>8</sup> Yn unol â [Public sector annual reports: sustainability reporting guidance 2017-18](#) gan Drysorlys EM

## Gwaith rheoli ariannol ac arbedion effeithlonrwydd

Erys rheolaeth ariannol gadarn a chosteffeithlonrwydd yn flaenoriaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn 2017-18, roedd ein gwariant gros tua £687,000 (3.1%) yn is na'r flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu arbedion a wnaed drwy ein hagenda effeithlonrwydd barhaus. Dangosodd ein haldro ar ddiwedd y flwyddyn danwariant o £71,000 yn erbyn yr [Amcangyfrif](#) a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn.

Bu modd i ni ddefnyddio arbedion o £500,000 yn ystod y flwyddyn a wnaed ar gostau staffio a chostau eraill i ariannu cynllun ymadael gwirfoddol fel rhan o'n gwaith parhaus o gynllunio'r gweithlu. Bydd hyn yn cyflawni arbedion blynyddol o £194,000 yn y dyfodol, gan gael effaith gadarnhaol ar ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Mae'r arbedion cyffredinol a nodwyd ar gyfer 2017-18 tua £1.4 miliwn, gan gynnwys arbedion o gynlluniau ymadael gwirfoddol blaenorol, ynghyd ag arbedion a nodwyd o adolygu ein dulliau archwilio a'n prosiectau trawsnewid. Disgwylw'n i ganlyniad ein gwaith ar y defnydd o ddadansoddiadau data, ynghyd â phrosiect yn archwilio ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol, barhau i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwerth am arian wrth gyflawni archwiliadau cyhoeddus yng Nghymru.

Gwnaethom fuddsoddi £313,000 o arian cyfalaf mewn pum maes yn 2017-18, a fydd yn sicrhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd dros y blynyddoedd nesaf:

- £129,000 ar gyfer gliniaduron hybrid newydd a fydd yn galluogi ein staff i weithio'n fwy effeithlon ac yn ein helpu i ddefnyddio llai o bapur;
- £89,000 i brynu a gweithredu system gyllid integredig newydd, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i ni gyflwyno adroddiadau ariannol mwy amserol a gwell, ac yn ei gwneud yn haws i staff gydymffurfio â'n gweithdrefnau caffael;
- £42,000 i ddatblygu'r defnydd o Skype ar gyfer Busnes er mwyn ei gwneud yn haws i staff fynychu cyfarfodydd drwy fideogynadledda a chymryd galwadau a chyfarfodydd oddi ar y safle;
- £41,000 ar gyfer system rheoli gwybodaeth archwilio perfformiad well, a fydd yn ein galluogi i reoli ein gwaith archwilio perfformiad yn well yn y dyfodol;
- £12,000 ar gyfer meddalwedd newydd er mwyn galluogi staff i archebu ystafelloedd cyfarfod yn fwy effeithiol.



## Dysgu a datblygu

Fel corff archwilio proffesiynol a darparwr hyfforddiant achrededig â thri chorff cyfrifyddu proffesiynol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i raglen dreigl o recriwtio hyfforddeion. Drwy ein hymgyrchoedd recriwtio blynyddol anelwn at ddenu ymgeiswyr o'r safon orau bosibl.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18, llwyddodd 35 o hyfforddeion i symud ymlaen i gamau nesaf eu hastudiaethau ac roedd 97% ohonynt wedi llwyddo i basio arholiadau Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) y tro cyntaf.

Yn 2017-18, gwnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru ar y Fenter Datblygu Sgiliau Cyllid, sy'n ceisio gwneud cyllid cyhoeddus yn ddewis gyrfa mwy deniadol i raddedigion a chodi safonau ym maes rheolaeth ariannol yn y wlad. O dan y fenter hon, mae sefydliadau partner, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, yn cynnig secondiadau i hyfforddeion cyllid dreulio amser mewn cyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus. Yn 2017-18, cwblhaodd wyth o hyfforddeion Swyddfa Archwilio Cymru leoliadau mewn cyrff a oedd yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y DVLA, y BBC, Coleg Caerdydd a'r Fro, a nifer o awdurdodau lleol. Gwnaethom hefyd hwyluso secondiad unigolyn o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n fwy cyffredinol mewn cyfleoedd dysgu a datblygu i helpu ein staff i gyflawni eu gwaith. Yn 2017-18, treuliwyd 9.3 diwrnod fesul cyflogai ar amrywiaeth o weithgareddau dysgu a datblygu, ar gyfartaledd. Cafodd rhywfaint o'r hyfforddiant ei gynllunio a'i ddarparu'n fewnol, a lle y bo'n briodol ac yn gosteffeithiol, gwnaethom gomisiynu cymorth allanol i roi hyfforddiant yn unol â'n gofynion penodol.

Mae ffurflen werthuso electronig yn ein galluogi i gofnodi canlyniadau'n gyflym ac yna fesur llwyddiant ac effaith y cyrsiau hyfforddiant. Teimlai 99% o staff fod y cyrsiau a fynychwyd ganddynt yn 2017-18 yn effeithiol o ran eu helpu i gyflawni eu hamcanion.



## Ymgysylltu â staff a phrofiad cyflogeion

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a dulliau i roi gwybodaeth ddefnyddiol i gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru, er mwyn eu hannog i ymwneud â pherfformiad y sefydliad, ac i ymgynghori â chyflogeion fel bod modd ystyried eu safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar eu buddiannau.

Ymhlith y rhain roedd:

- cyhoeddi blogiau rheolaidd gan aelodau o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli, a sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli ar gael yn hawdd ar ein mewnwrwyd;
- annog staff i rannu gwybodaeth ac arfer da drwy rwydwaith cyfryngau cymdeithasol mewnol;
- trefnu cyfarfodydd 'fforwm partneriaeth' gyda chynrychiolwyr undebau llafur, a chynnwys cynrychiolwyr o'r fath yn y gwaith o baratoi neu ddiwygio polisiau penodol a mentrau datblygu sefydliadol, lle bo'n berthnasol; a
- chynnal 'anghynhadledd' staff cyfan a gafodd groeso gwresog ym mis Chwefror 2018.

Ym mis Hydref 2017, gwnaethom gynnal arolwg staff newydd er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o brofiad cyflogeion yn Swyddfa Archwilio Cymru a nodi'r meysydd yr oedd angen eu gwella. Gwnaethom ddefnyddio'r un holiadur arolwg craidd â'r un a ddefnyddiwyd yn [Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil](#) ar gyfer 2017.

Roedd yr arolwg yn cwmpasu amrywiaeth o themâu, o arweinyddiaeth a diwylliant y sefydliad i'r ffordd mae timau unigol yn gweithredu.


Ar y cyfan, roedd canlyniadau'r arolwg yn galonogol iawn. Yn arbennig, roedd yn dawelwch meddwl nodi bod cydweithwyr ar draws Swyddfa Archwilio Cymru yn teimlo'n gadarnhaol iawn am y cydberthnasau o fewn eu timau ac yn teimlo cysylltiad cryf â'n hamcanion a'n diben sefydliadol. Cafodd y fath sicrwydd ei adlewyrchu yn ein sgôr mynegai ymgysylltu gyffredinol gref, sef 70%.

Yn 2017 y cynhaliwyd arolwg staff gan ddefnyddio holiadur Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS) am y tro cyntaf. Yn anochel, felly, roedd gennym gwmpas cyfyngedig o ran edrych i ba gyfeiriad roeddem yn mynd ar gyfer llawer o gwestiynau unigol yr arolwg. Er nad oedd data tuedd cyflawn, roedd gennym set gadarn o ddata meincnodi i'w defnyddio i gymharu ein hunain.

Ar gyfer y rhan fwyaf o gwestiynau a themâu'r arolwg, roedd ymatebion ein staff yn fwy nodweddiadol o sefydliad CSPS perfformiad uchel (ac mewn rhai achosion yn llawer gwell nag ef). Fodd bynnag, gwnaeth canlyniadau'r arolwg hefyd awgrymu bod lle i wella mewn nifer o feysydd, rydym bellach yn edrych arnynt yn ofalus. Ymhlith y gwaith hwn, bydd angen sicrhau'r canlynol:

- bod pob aelod o staff, yn enwedig newydd-ddyfodiaid, yn teimlo eu bod yn cael eu herio digon gan eu gwaith;
- bod pob cydweithiwr yn teimlo bod y cyfleoedd dysgu a datblygu rydym yn eu cynnig yn ei helpu i gamu ymlaen yn ei yrfa yn gyffredinol; a
- bod pob aelod o staff, yn enwedig cydweithwyr iau, yn teimlo'n ddiogel i herio'r ffordd y caiff pethau eu gwneud yn y sefydliad.

Ar ddechrau 2018, gwnaethom archwilio'r rhesymau dros ganlyniadau'r arolwg yn fanylach, drwy gynnal trafodaethau mewn cyfarfodydd tîm, a rhoi'r cyfle i bob aelod o staff lywio ein hymateb mewn cynhadledd a gynhaliwyd yn Abertawe ym mis Chwefror 2018. Byddwn yn cynnal yr arolwg unwaith eto ym mis Hydref 2018.



## Tudalen y pecyn 60

## Llesiant cyflogeion

Rydym yn ymrwymedig i annog ffordd o fyw iach a chydbwysedd bywyd a gwaith da ymhlith ein staff. Rydym hefyd am i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn wynebu anawsterau, p'un a ydynt yn effeithio ar eu gallu i ymgymryd â'u rôl ai peidio.

Caiff ein polisi llesiant ei ategu gan ganllawiau er mwyn cefnogi ein hymrwymadau a sicrhau bod unrhyw faterion o ran iechyd a llesiant staff yn cael eu nodi a'u rheoli mewn ffordd ragweithiol a sensitif. Rydym hefyd yn hybu ac yn cefnogi iechyd emosiynol a chorfforol staff, a'u llesiant, drwy raglen flynyddol o ddiwyddiadau a thrwy gynnig gwasanaeth sgrinio iechyd.

Mae rhaglen gymorth i gyflogeion hefyd ar gael naill ai drwy wasanaeth ffôn 24 awr neu drwy gyfleuster ar-lein. Mae'r rhaglen cymorth i gyflogeion yn rhoi cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol i staff ar amrywiaeth o faterion.

Ar lefel sefydliadol, yn ein harolwg staff gwnaethom gynnwys y pedwar cwestiwn a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhan o'i rhaglen Mesur Lles y Genedl:

- a Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi ar eich bywyd?
- b Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n credu bod y pethau rydych yn eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil?
- c Yn gyffredinol, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?
- ch Yn gyffredinol, pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?

Unwaith eto, roedd ymatebion ein staff yn fwy cadarnhaol, ar y cyfan, na rhai sefydliad CSPS 'perfformiad uchel'.

Rydym hefyd yn monitro cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn fanwl ac mae gennym nifer o systemau ar waith i helpu staff i ddychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus. Cafodd 7.6 diwrnod fesul cyflogai eu colli ar gyfartaledd yn sgil absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 (o gymharu â 6.5 diwrnod fesul cyflogai ar gyfer y flwyddyn flaenorol, ac 8.5 diwrnod ar gyfartaledd i'r sector cyhoeddus<sup>9</sup>).



9 Ffynhonnell: Health and Well-being at Work (Public Sector); CIPD, Mai 2018

## Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â'r fframwaith diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â'r confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, gan gynnwys ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith, ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Mae ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein [Hadroddiad Blynyddol](#) ar gynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn 2016-17 ar gael ar ein gwefan. Caiff ein hadroddiad ar gyfer 2017-18 ei gyhoeddi yn ystod haf 2018.

**SUSTAINABLE  
DEVELOPMENT  
GOALS**

**5** GENDER  
EQUALITY



**10** REDUCED  
INEQUALITIES



## Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn darparu gwasanaeth archwilio dwyieithog. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog a thrwy gydol 2017-18, gwnaethom gyfathrebu â'r cyhoedd, cyrff a archwilir a'r cyfryngau yn y ddwy iaith. Rydym hefyd yn annog staff i ddysgu Cymraeg a'i defnyddio yn eu gwaith ac yn gymdeithasol.

Rydym yn ymrwymedig i weithredu a chynnal safonau newydd y Gymraeg. Mae ein [Hysbysiadau Cydymffurfio](#) i'w gweld ar ein gwefan, ynghyd â'n [Hadroddiad Blynyddol ar y Gymraeg](#).

## Gwaith cymunedol ac elusennol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y buddiannau y gall gwaith cymunedol a gwaith elusennol gan staff eu rhoi i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo'r staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt yn y gweithle a datblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd bywyd a gwaith ar yr un pryd.

Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi cyflogeion sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol neu elusennol megis gwaith gofal yn y gymuned, prosiectau cadwraeth, a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

Dewisodd staff Swyddfa Archwilio Cymru elusennau yn y maes iechyd meddwl fel ffocws ar gyfer eu gweithgareddau codi arian yn 2017-18. Dros y flwyddyn ac yn eu hamser eu hunain, cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau codi arian:

- cymerodd sawl aelod o staff ran mewn digwyddiadau fel hanner marathon a 'tough mudder'; a
- gwnaethom gynnal nifer o ddigwyddiadau eraill yn ein swyddfeydd, gan gynnwys stondinau cacennau a rafflau rheolaidd, a chystadleuaeth i ddarogan sgoriau a chanlyniadau Pencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Cododd staff dros £3,000 ar gyfer elusennau iechyd meddwl. Ar gyfer 2018-19, mae'r staff wedi dewis elusennau sy'n helpu pobl ddigartref.

**SUSTAINABLE  
DEVELOPMENT  
GOALS**

**3 GOOD HEALTH  
AND WELL-BEING**



## Gwarchod yr amgylchedd<sup>10</sup>

AILACHREDWYD AR  
**LEFEL 4**  
O SAFON  
AMGYLCHEDDOL  
Y DDRAIG WERDD

WEDI LLEIHAW EIN  
HALLYRIADAU  
NRYON TŶ GWYDR  
A'N DEFNYDD O  
BAPUR BRON

**15%**

WEDI LLEIHAW EIN  
DEFNYDD O **DRYDAN**

**20%**

WEDI DEFNYDDIO  
CREDYDAU CARBON  
I WRTHBWYSO

**56%**

O'N HALLYRIADAU  
NRYON TŶ GWYDR

Ar gyfer 2017-18, cawsom ein hailachredu ar Lefel 4 (y lefel uchaf ond un) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i waith rheoli amgylcheddol effeithiol. Er na wnaethom gyrraedd ein targed o gyflawni Lefel 5 (y lefel uchaf) yn 2017-18, rydym yn anelu at wneud hynny yn 2018-19.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, i helpu i leihau allyriadau nryon tŷ gwydr yn fyd-eang, rydym wedi gwrthbwysu<sup>11</sup> 233 tunnell (56%) o'n hallyriadau sy'n cyfateb i garbon deuocsid (tCO<sub>2</sub>e) sy'n deillio o'n teithiau busnes, drwy gefnogi'r prosiectau canlynol:

- Coed y DU a diogelu'r Amason (140 tCO<sub>2</sub>e)
- Cynhyrchu Ynni Gwynt gan Panama Wind (93 tCO<sub>2</sub>e)

Yn 2017-18 gwnaethom fuddsoddi mewn Skype for Business - system sy'n galluogi ein staff i gydweithio a chyfathrebu â'i gilydd, a gyda phobl o'r tu allan, drwy alwadau ffôn, fideogynadleda, rhannu sgrin a negeseuon uniongyrchol, drwy eu gliniaduron ni waeth ble maent yn gweithio. Mae hyn yn lleihau'r angen i gydweithwyr a staff cleientiaid deithio i gyfarfod a chydweithio yn sylweddol.

Mae llawer o'n staff hefyd yn defnyddio gliniaduron bellach sy'n cyfuno fformat maint llechi â swyddogaeth dyfais symudol, gan leihau'r angen i argraffu papurau cyfarfodydd a'u galluogi i wneud nodiadau ar y sgrin.

Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio deunydd papur wedi'i ailgylchu, a defnyddio'r Safonau Prynu fel canllaw ar gyfer glanhau, adeiladu a phrynu cyfarpar. Gwnaethom hefyd fuddsoddi mewn peiriannau aml-swyddogaethol sydd â chynhyrchiant uchel, sy'n cynnig gwerth am arian ac sy'n cael effaith isel ar yr amgylchedd ar gyfer ein swyddfeydd.

**SUSTAINABLE  
DEVELOPMENT  
GOALS**

**13** CLIMATE  
ACTION




**15** LIFE  
ON LAND




<sup>10</sup> Paratowyd yn unol â [Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting Guidance 2017-18](#) Trysorlys EM

<sup>11</sup> Mae gwrthbwysu carbon yn cyfeirio at ddefnyddio credydau carbon er mwyn galluogi sefydliadau i wneud iawn am rai o'u hallyriadau. Gall sefydliadau wneud iawn am rai o'r allyriadau carbon drwy brynu credydau mewn prosiectau sy'n ariannu arbediad cyfatebol mewn carbon deuocsid yn rhywle arall.

### Defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt




### Lleihau a rheoli gwastraff






### Allyriadau nwyon tŷ gwydr 2017-18



### Y defnydd o ynni



	2017-18	2016-17	2015-16	2014-15	2013-14
<b>Rheoli amgylcheddol</b>					
Lefel achredu'r Ddraig Werdd	4	4	4	4	4
<b>Defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt<sup>12</sup></b>					
Y defnydd o ddŵr m <sup>3</sup>	2,586	3,650	3,116	2,760	2,351
Y defnydd o ddŵr m <sup>3</sup> fesul FTE	10.0	13.9	10.5	12.0	10.1
Costau cyflenwi dŵr £	3,564	6,219	6,280	4,754	4,348
Y defnydd o bapur mewn rimiau	1,496	1,725	2,150	2,305	2,325
Costau cyflenwi papur £	3,737	4,269	5,609	6,349	6,426
<b>Lleihau a rheoli gwastraff<sup>13</sup></b>					
Cyfanswm tunelli gwastraff	33.2	38.7	54.9	66.5	65.8
Ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio	18.1	26.0	38.6	27.4	26.2
Gwastraff TGCh wedi'i ailgylchu a'i ailddefnyddio (yn allanol)	0.2	0.7	2.6	0.0	0.0
Dodrefn a chyfarpar (yn allanol)	0.0	2.6	12.3	0.0	0.0
Ailgylchu cymysg, papur, gwastraff bwyd, gardd	17.9	22.6	23.7	27.4	26.2
Tirlenwi	12.4	12.4	13.7	39.1	39.2

12 Ystyrir mai arfer da ar gyfer defnyddio dŵr mewn swyddfa yw rhwng 4 m<sup>3</sup> a 6 m<sup>3</sup> ac fesul cyflogai Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) y flwyddyn ([Targedau Ymrwymiad Gwyrdd y Llywodraeth](#)). Fodd bynnag, nid ydym yn cynnwys ymwelwyr â swyddfeydd yn ein cyfrifiad sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ein ffigurau oherwydd nifer y digwyddiadau dysgu ar y cyd a gynhelir yn ein pencadlys yng Nghaerdydd.

13 Cyfrifwyd drwy ddefnyddio ffactorau trosi priodol WRAP; mae gwastraff peryglus yn cynnwys gwarediadau TGCh a glanhau seiffonau.

	2017-18	2016-17	2015-16	2014-15	2013-14
Peryglus	2.7	0.4	2.5	0.0	0.4
Ailddefnyddio, ailgylchu, compostio fel % o gyfanswm <sup>14</sup>	54.5	67.0	70.4	41.1	39.8
Cyfanswm costau gwaredu £	9,964	13,466	16,400	7,337	6,229

14 81.5% ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2016-17 (Adroddiad Cyflwr yr Ystad 2016-17). Mae 4.5 tonnelli o wastraff glanhau meysydd parcio na ellid ei ailgylchu wedi cael effaith sylweddol ar ein cyfradd ailgylchu yn 2017-18.

	2017-18	2016-17	2015-16	2014-15	2013-14
<b>Allyriadau nwyon tŷ gwydr<sup>15</sup></b>					
Cyfanswm tunelli allyriadau CO <sub>2</sub> e	419.0	483.7	533.0	563.1	539.5
Y gellir eu priodoli i deithiau busnes	242.1	233.2	272.3	275.7	252.1
Mewn car	215.7	199.5	232.7	239.1	231.2
Ar y rheilffordd neu drwy'r awyr	26.4	33.7	39.6	36.6	20.9
Y gellir eu priodoli i'r defnydd o ynni	160.7	227.8	233.8	263.3	261.8
Trydan	150.5	220.5	228.3	257.7	257.5
Nwy	10.2	7.3	5.5	5.5	4.3
Y gellir ei briodoli i arall <sup>16</sup>	16.1	22.6	23.6	24.1	25.6
Cyfanswm gwariant ar deithiau busnes £000 <sup>17</sup>	1,204	1,232	1,258	1,214	1,173
Cost teithiau busnes fesul FTE £	4,658	4,720	4,972	5,037	4,827
Cyfanswm gwariant ynni £	54,676	57,051	64,394	63,119	56,556
<b>Effeithlonrwydd ystad</b>					
Cost fesul FTE £ <sup>18</sup>	3,317	3,072	3,228	3,397	3,431
Costeffeithlonrwydd <sup>19</sup> £ £ fesul m <sup>2</sup>	306	287	300	278	285
Effeithlonrwydd o ran gofod m <sup>2</sup> fesul FTE <sup>20</sup>	10.8	10.7	10.7	12.2	12.0

15 Cyfrifwyd yn unol â [DEFRA Environmental Reporting Guidelines](#).

16 Y gellir ei briodoli i allyrru a dosbarthu ynni, gwaredu gwastraff a defnyddio a thrin dŵr.

17 Yn cynnwys costau ceir ar brydles, lwfansau trafnidiaeth a chostau teithio a chynhaliaeth.

18 O gymharu â £3,380 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2017.

19 Gan gynnwys rhent, ardrethi a chostau eraill. Yn 2017-18, gwnaethom waith ailaddurno ac atgyweirio allanol yn ein swyddfa fwyaf (yn unol â thelerau ein prydles) gan arwain at arbed llai o gostau. Fodd bynnag, mae ein gofod swyddfa wedi lleihau 90 m<sup>2</sup> ers mis Mehefin 2016 ar ôl symud swyddfa i safle llai a mwy effeithlon yn amgylcheddol, sydd hefyd wedi arwain at leihau ein costau rhedeg eraill.

20 O gymharu â 15.1 m<sup>2</sup> fesul FTE ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2017. 2015-16 oedd y flwyddyn gyntaf inni gynnwys contractwyr yn ein cyfanswm FTE, er mwyn sicrhau cymariaethau meincnodi cyfatebol.

# ADRODDIAD AR ATEBOLRWYDD

**DATGANIADAU AC ADRODDIADAU ALLWEDDOL SY’N  
EIN GALLUOGI I FODLONI GOFYNION ATEBOLRWYDD A  
DANGOS CYDYMFFURFIAETH AG ARFER LLYWODRAETHU  
CORFFORAETHOL DA.**



Huw Vaughan Thomas  
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

7 Mehefin 2018

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Materion cyffredinol

Ar 1 Ebrill 2014, cafodd Swyddfa Archwilio Cymru ei sefydlu'n llawn o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 wrth i staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau gael eu trosglwyddo o'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Datganiad llywodraethu yn cynnwys gwybodaeth am ein cofrestr buddiannau a sut i gael gafael ar y wybodaeth sydd yn y gofrestr honno, ynghyd â'n hadroddiadau ar ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol.

### Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

Penodwyd RSM UK Audit LLP yn archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gyfnod o 43 mis yn dechrau 1 Mawrth 2015.

Yn ogystal â'i waith i lunio barn ar y datganiadau ariannol, gall yr archwilydd edrych ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau, a chyflwyno adroddiad ar ganlyniadau unrhyw waith o'r fath gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae manylion am gost gwasanaethau archwilio allanol wedi'u cynnwys yn y Nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Cyn belled ag y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru



**Alison Gerrard**  
Aelod  
Anweithredol



**Amanda Hughes**  
Aelod a etholwyd  
o blith y staff



**Bill Richardson**  
Aelod  
Anweithredol



**Huw Vaughan  
Thomas**  
Archwilydd  
Cyffredinol,  
a'r Prif Weithredwr



**Isobel Garner**  
Y Cadeirydd



**Kevin Thomas**  
Aelod o staff a  
benodwyd



**Lindsay Foyster**  
Aelod  
Anweithredol



**Louise Fleet**  
Aelod a etholwyd  
o blith y staff



**Steven Burnett**  
Aelod  
Anweithredol

## Pwyllgor Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru



**Anthony Barrett**  
Archwilydd  
Cyffredinol  
Cynorthwyol



**Huw Vaughan  
Thomas**  
Archwilydd  
Cyffredinol,  
Swyddog Cyfrifyddu  
a'r Prif Weithredwr



**Jane Holownia**  
Arweinydd Sector,  
Llywodraeth Leol  
a Chyfiawnder  
Troseddol



**Kevin Thomas**  
Cyfarwyddwr  
Gwasanaethau  
Corfforaethol



**Mike Usher**  
Arweinydd  
Sector, Iechyd  
a Llywodraeth  
Ganolog



**Steve  
O'Donoghue**  
Cyfarwyddwr  
Cyllid ac AD



## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n rhaid iddo wneud y canlynol ar gyfer pob blwyddyn ariannol:

- cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy; a
- pharatoi datganiad cyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdanynt, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, wedi'u nodi yn [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Caiff cyfrifoldebau ychwanegol eu disgrifio yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys bod yn rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu:

- sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol o safon uchel ar waith yn Swyddfa Archwilio Cymru a bod ei systemau a'i gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo'r broses o gynnal busnes yn effeithlon ac yn ddarbodus a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol;
- sicrhau mai dim ond i'r graddau ac at y diben a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol y caiff cronfeydd eu defnyddio; a
- rhoi cyngor i Swyddfa Archwilio Cymru ar bob mater yn ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion [Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth](#) ac, yn benodol, y canlynol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw achosion perthnasol o wyro oddi wrthynt yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail gronnol a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru a'i halldro adnoddau net, ei defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn cadarnhau:

- hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni;
- fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; a
- bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon hyn yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon hyn a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Datganiad llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn nodi strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn rhoi darlun o drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd sy'n ein hwynebu.

Mae fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u nodi yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn ac ymhlith gofynion eraill, mae'n rhaid i mi geisio sicrhau'r canlynol:

- bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith bob amser yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol drylwyr, er mwyn helpu i arfer swyddogaethau statudol yn briodol; a
- bod Swyddfa Archwilio Cymru yn taro'r cydbwysedd cywir drwy reoli cyfleoedd a risgiau mewn ffordd sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Llywodraethu corfforaethol

### Y fframwaith llywodraethu

Mae fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau, wedi'i grynhoi yn yr arddangosyn ar y dudalen nesaf.

Mae ein Bwrdd o naw aelod yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, aelod sy'n gyflogai a benodir yn ôl argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol a dau aelod etholedig sy'n gyflogeion.

Mae Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol sy'n gyfrifol am y canlynol, ymhlith pethau eraill: dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan na all ef/hi weithredu; arfarnu perfformiad y Cadeirydd; cael adroddiadau gan rai sy'n chwythu'r chwiban y tu allan i'r gadwyn rheolwyr llinell arferol; a goruchwyllo'r broses o ethol aelodau sy'n gyflogeion i'r Bwrdd.

Mae'r gydberthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i llywodraethu gan [God Ymarfer](#) a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol ac a adolygir o bryd i'w gilydd.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n cyflawni swyddogaeth gynghori:

- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ac aelod allanol annibynnol
- Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd ac aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai

Nid yw'r aelodau etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogeion yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli nac yn cyfrannu at unrhyw benderfyniadau a wneir ar lefel uwch, ac eithrio fel rhan o'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn fodlon nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau o ran aelodaeth Pwyllgorau a, lle bo gwrthdaro, y caiff ei reoli a'i liniaru'n effeithiol.

Rwyf wedi sefydlu Pwyllgor Rheoli, yr wyf yn ei gadeirio, i'm cynghori yn rhinwedd fy swydd fel Archwilydd Cyffredinol, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n cynnwys pum rheolwr uchaf eu statws yn Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cyfarfod bob mis.

Caiff y Bwrdd a'i Bwyllgorau, a'r Pwyllgor Rheoli, eu cynorthwyo gan Ysgrifennydd Bwrdd. Mae blaenraglen fusnes sy'n llywio eu hagenda amodol, a luniwyd i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

## PWYLLGOR CYLLID Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

Yn craffu ar ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru o adnoddau, yn gwneud argymhellion ynghylch penodi'r Archwilydd Cyffredinol ac yn gyfrifol am benodi aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfrifol am benodi archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru.



## BWRDD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Monitro'r ffordd y caiff swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu harfer. Rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol.

Cyflogi staff a darparu adnoddau er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

Codi ffioedd am waith a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Paratoi, ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, amcangyfrif o incwm a threuliau, cynllun ffioedd, cynllun blynyddol, adroddiad(au) interim ac adroddiad blynyddol.



## PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH AC ADNODDAU DYNOL

Yn cynghori'r Bwrdd drwy graffu ar y tri maes cyffredinol ym maes rheoli a datblygu adnoddau dynol, a'u herio:

- llywodraethu
- perfformiad; ac
- polisi a chydabyddiaeth

## PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRHAU RISG

Yn cynghori'r Bwrdd drwy:

- adolygu cystadleurwydd a dibynadwyedd ffynonellau o sicrwydd corfforaethol;
- adolygu uniondeb yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon; ac
- C) rhoi barn ar ba mor dda y caiff y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu eu cynorthwyo wrth iddynt gyflawni eu rolau perthnasol.



## PWYLLGOR RHEOLI

Yn cyfarwyddo ac yn goruchwyllo'r broses o gyflawni'r weledigaeth, y nod a'r amcanion, a'r blaenoriaethau strategol a nodir yng nghynllun blynyddol ar y cyd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.



## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau 2017-18

	Bwrdd	ARAC	RHRC	MC
<b>Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd</b>	6	4	3	13
<b>Aelodau o'r Bwrdd a'i bwyllgorau</b>				
Alison Gerrard, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) <sup>21</sup>	5	4		
Amanda Hughes	6	4		
Bill Richardson <sup>22</sup>	4		2	
David Corner <sup>23</sup>	1	1		
Dianne Thomas, Independent Member of ARAC <sup>24</sup>		2		
Huw Vaughan Thomas <sup>25</sup>	6	2	3	11
Isobel Garner <sup>26</sup>	6	4		
Kevin Thomas <sup>27</sup>	6	4		11
Lindsay Foyster, Chair of the Remuneration & HR Committee (RHRC) <sup>28</sup>	6	1	3	
Louise Fleet	6		3	

21 Alison Gerrard oedd aelod annibynnol ARAC tan 1 Medi 2017 a mynychodd un cyfarfod o'r Bwrdd yn y rhinwedd hwnnw. O 4 Medi 2017, fe'i penodwyd yn aelod anweithredol o'r Bwrdd. Cadeiriodd un cyfarfod o'r Pwyllgor fel Cadeirydd dros dro cyn ei phenodiad parhaol yn y rôl honno ar 29 Tachwedd 2017.

22 Penodwyd Bill Richardson yn aelod anweithredol o'r Bwrdd o 17 Hydref 2017 ac i'r RHRC ar 29 Tachwedd 2017. Mynychodd un cyfarfod o'r Bwrdd fel sylwedydd

23 Roedd David Corner yn aelod anweithredol o'r Bwrdd ac yn Gadeirydd ARAC tan ei ymddiswyddiad o Swyddfa Archwilio Cymru ar 24 Gorffennaf 2017.

24 Penododd Swyddfa Archwilio Cymru Dianne Thomas yn aelod annibynnol ARAC ar 29 Tachwedd 2017, yn weithredol o 1 Rhagfyr 2017.

25 Aeth Huw Vaughan Thomas i gyfarfodydd ARAC a RHRC yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.

26 Cafodd penodiad Isobel Garner fel Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ei ymestyn ar 19 Gorffennaf 2017.

27 Aeth Kevin Thomas i gyfarfodydd ARAC yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

28 Dechreuodd penodiad Lindsay Foyster fel Cadeirydd RHRC ar 29 Tachwedd 2017. Mynychodd un cyfarfod o ARAC fel rhan o drefniadau dysgu a datblygu'r Bwrdd.

	Bwrdd	ARAC	RHRC	MC
<b>Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd</b>	6	4	3	13
Peter Price <sup>29</sup>	2		1	
Steve Burnett <sup>30</sup>	6		3	
<b>Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli (MC) nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd<sup>31</sup></b>				
Anthony Barrett	6	1		9
Gillian Body <sup>32</sup>				3
Jane Holownia	2	2		12
Mike Usher	6			12
Steve O'Donoghue <sup>33</sup>	6	4	3	13

29 Daeth penodiad Peter Price fel aelod anweithredol o'r Bwrdd, pan wnaeth hefyd weithredu fel Cadeirydd RHRC, i ben ar 16 Hydref 2017.

30 Ailbenodwyd Steve Burnett yn aelod anweithredol o'r Bwrdd o 17 Hydref 2017.

31 Aeth aelodau o'r Pwyllgor Rheoli i gyfarfodydd ARAC yn ôl yr angen i roi briffiadau, cymryd rhan mewn trafodaethau neu gael cyngor. Mae ganddynt wahoddiad sefydlog i fynd i gyfarfodydd y Bwrdd.

32 Gymddeolodd Gillian Body fel Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Perfformiad ar 30 Mehefin 2017 ac ni phenodwyd neb arall yn ei lle.

33 Mae'n rhaid i Steve O'Donoghue, fel Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol, fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Bwrdd, ARAC a RHRC.

## Tudalen y pecyn 80

## Darlun o drefniadau llywodraethu corfforaethol

Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni drwy:

- adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau ar berfformiad a briffiadau amserol;
- adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol; ac
- adroddiadau archwilio allanol.

Mae lefel y sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau risg cysylltiedig a aseswyd.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ar ansawdd y wybodaeth mae'n ei chael er bod rhywfaint o le i wella ei hehangder a'i hamseroldeb; mae canllawiau'n cael eu paratoi i ymdrin â'r pwyntiau hyn.

Wrth gyflawni ein gwaith, mae Swyddfa Archwilio Cymru a minnau (fel yr Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddog Cyfrifyddu) yn cymhwyso [Cynlluniau Dirprwyo](#) ffurfiol, a adolygwyd ac a ddiweddarwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynlluniau dirprwyo yn llywio cylch gorchwyl y Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Pwyllgor Rheoli, a adolygir bob blwyddyn.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu Cod Ymddygiad a ddefnyddir gan Ysgrifennydd y Bwrdd i gadw cofrestrau o fuddiannau aelodau a adolygir bob blwyddyn ac a ddiweddarir yn ystod y flwyddyn er mwyn nodi unrhyw newidiadau y mae aelodau yn rhoi gwybod amdanynt. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau, gan gynnwys risgiau i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, yn cael eu nodi'n barhaus a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i'w lliniaru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi'r [Cofrestrau](#) ar ei gwefan.

Mae gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a chadeiryddion ei phwyllgorau hawl mynediad a gallant hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn uniongyrchol am unrhyw faterion sy'n peri pryder.

Roedd gan Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r archwilydd allanol fynediad agored a chyfrinachol o hyd at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ogystal, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn breifat â'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn pob cyfarfod.



Mae'r Bwrdd yn fodlon bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â gofynion y Cod Arfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau bod y gofynion hynny yn berthnasol ac yn ymarferol. Nid oedd y trefniadau yn cydymffurfio â gofynion y Cod yn achos yr agweddau canlynol:

- caiff cyfansoddiad y Bwrdd ei ragnodi drwy statud, a gallai cynnwys cynrychiolaeth gan weinidogion a swyddogion y llywodraeth beryglu fy annibyniaeth fel Archwilydd Cyffredinol.
- nid yw'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor enwebiadau ond caiff y swyddogaethau a ddisgrifir yn y Cod eu cyflawni gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol.

## Adolygiad o berfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn 2017-18, parhaodd y Bwrdd i weithredu cynllun a ddatblygwyd yn sgil yr adroddiad o werthusiad annibynnol o'i effeithiolrwydd a gwblhawyd yn 2016. Mae penodi dau aelod anweithredol newydd ym mis Hydref 2017, ethol dau aelod sy'n gyflogeion ddechrau 2018-19 ac ymadawiad yr Archwilydd Cyffredinol presennol ym mis Gorffennaf 2018 yn golygu bod rhai gweithgareddau datblygu yn mynd rhagddynt o hyd wrth i gydberthnasau gwaith newid a datblygu.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gwaith yn mynd rhagddo o ran:

- ailbennu ffocws rhaglen waith y Bwrdd, gan ystyried y map sicrwydd (gweler Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg) a sicrhau bod ei amser yn cael ei dreulio'n ddoeth;
- llunio canllawiau ar ffurf a chynnwys papurau'r Bwrdd a phwyllgorau;
- ystyried sut y gall y Bwrdd ymgysylltu'n fwy effeithiol â staff, yn dilyn trafodaethau yn y gynhadledd staff ym mis Chwefror;
- ystyried p'un a ddylid mesur effaith y Bwrdd a sut i wneud hynny; ac
- adolygu sut mae'r gydberthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio'n ymarferol er mwyn llywio adolygiad o'r Cod Ymarfer ar Gydberthnasau.

Fel rhan o'u gofynion adrodd blynyddol, mae pob un o bwyllgorau'r Bwrdd yn cwblhau hunanasesiad o'u heffeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi mabwysiadu rhestr wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n cynnwys yr egwyddorion arfer da a ddisgrifir yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio Trysorlys EM. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol wedi addasu'r rhestr wirio i sicrhau ei bod yn berthnasol ac yn gymesur â'i anghenion. Mae'r Bwrdd yn fodlon ar gadernid yr asesiadau ac yn hapus nad oes unrhyw faterion sy'n peri pryder.

Mae gan y Bwrdd broses ar waith i gynnal arfarniadau o berfformiad aelodau bob 12 i 18 mis. Cawsant eu cwblhau ddiwethaf ym mis Mai 2017 a chânt eu cynnal nesaf ar ddechrau 2018-19. Mae'r Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol yn cwblhau arfarniad o berfformiad y Cadeirydd yn yr un cylch, gyda mewnbwn gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Mae gan y Bwrdd gynllun dysgu a datblygu a gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol. Mae'r cynllun yn nodi'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant sefydlu a diwallu anghenion dysgu a datblygu parhaus a nodir yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys drwy'r broses arfarnu perfformiad.

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2018, gan grynhoi casgliadau'r gwaith yr oedd wedi'i wneud yn ystod 2017-18.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd rheolwyr - gan weithio gyda'r Pwyllgor - y gwaith o ddatblygu map sicrwydd a fabwysiadwyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2017. Ym marn y Pwyllgor, roedd crynhoi'r fframwaith rheoli fel hyn yn gam sylweddol tuag at sicrhau bod gan Swyddfa Archwilio Cymru sicrwydd mwy cadarn bod y lefelau cywir o reolaeth ar waith i reoli'r risgiau sy'n effeithio ar gyflawni ei nod a'i hamcanion yn effeithiol.

Cytunodd y Bwrdd ar y meysydd sicrwydd canlynol fel fframwaith i strwythuro'r map:

Yna caiff rheolaethau a ffynonellau sicrwydd presennol eu rhestru o dan bob maes sicrwydd, a chaiff unrhyw fylchau sy'n berthynol i ddiwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd eu hamlygu a'u trafod.

Ar sail y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y canlynol:

- ei bod yn ymddangos bod y trefniadau rheoli risg yn gweithio'n effeithiol o fewn fframwaith polisi clir a diamwys;
- bod y trefniadau rheoli ac adrodd ariannol yn cael eu llywodraethu gan fframwaith dirprwyo a chanllawiau clir, yr oedd y ddau yn cael eu mireinio a'u diweddarau yn ystod y flwyddyn;
- bod y trefniadau i alluogi staff i roi gwybod am gamweddau yn y gweithle er budd y cyhoedd a rhoi gwybod am wyngalchu arian yn gadarn;
- bod trefniadau gwrth-dwyll Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn gadarn er bod angen i reolwyr gyflwyno hyfforddiant ar draws y sefydliad yn gyflymach;
- bod y datganiad llywodraethu blynyddol drafft yn gyson â barn y Pwyllgor ar y fframwaith rheoli; ac
- nad yw'n ymddangos bod unrhyw fylchau sylweddol yn y fframwaith sicrwydd er bod rheolwyr yn ystyried crynhoi'r trefniadau er mwyn sicrhau bod twyll, llygredd a llwgrwobrwyo yn cael eu hatal.

Mae hunanasesiad y Pwyllgor yn dangos ei fod yn dilyn arfer da a dderbynnir. Wrth i'r Bwrdd fabwysiadu ei fap sicrwydd, bydd y Pwyllgor mewn sefyllfa gryfach i ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n peri'r risg fwyaf a sicrhau y gall driongli'r sicrwydd a gaiff gan reolwyr.



**CYFEIRIAD STRATEGOL**



**LLYWODRAETHU, ARWEINYD  
DIAETH A DIWYLLIANT**



**MODEL GWEITHREDU /  
DULL O DDEFNYDDIO  
ADNODDAU**



**CYDBERTHNASAU AC ENW  
DA RHANDEILIAID  
ALLANOL**



**STRATEGAETH Y GWEITHLU A  
PHOBL**



**STRATEGAETH  
WYBODAETH**



**GWARCHOD ASED AU  
FFISEGOL A TGCH**



**EFFEITHIOLRWYDD  
SYSTEMAU BUSNES**



**TREFNIADAU DIOGELU**



**SICRHAU GWERTH AM ARIAN  
O RAN EIN DEFNYDD O  
ADNODDAU**



**TREFNIADAU I FONITRO'R  
GWAITH O GYFLAWNI  
SWYDDOGAETHAU'R  
ARCHWILYDD CYFFREDINOL**

## **Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol**

Cafodd cryn dipyn o waith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol effaith uniongyrchol ar y penderfyniadau o ddydd i ddydd a effeithiodd ar staff yn fwyaf uniongyrchol. Cofnododd y Pwyllgor ei werthfawrogiad o'r gwaith yn ystod y flwyddyn ar ddiweddarau'r fframwaith polisi adnoddau dynol, gan sicrhau ei fod yn cyflawni amcanion strategol y Bwrdd. Roedd sefydlu rhaglen adolygu a diweddarau rheolaidd yn arbennig o bwysig ac mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r momentwm hwn barhau.

Wrth gwblhau ei waith, nododd y Pwyllgor rai pwyntiau cyffredinol o ran y broses a'r weithdrefn a all gael eu cymhwyso'n ehangach y tu hwnt i'w waith. Yn arbennig, mae angen i reolwyr gynllunio'n fwy effeithiol er mwyn darparu ar gyfer rôl y Bwrdd a'i bwyllgorau yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn diogelu cyfanrwydd/cywirdeb y trefniadau sydd ar waith.

Ar sail ei hunanasesiad, daeth y Pwyllgor i'r casgliad:

- bod angen iddo gynyddu gwerth safbwynt aelodau etholedig sy'n gyflogeion i'w waith ac mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo newidiadau i'r cylch gorchwyl er mwyn egluro'r rôl; ac
- mae cydberthnasau adeiladol â'r bwrdd gweithredol yn bwysig i effeithiolrwydd y Pwyllgor a bod angen meithrin y cydberthnasau hynny y tu hwnt i ffiniau cyfarfodydd ffurfiol ond bod angen canllawiau er mwyn sicrhau na chaiff rôl sicrwydd y Pwyllgor ei thanseilio.

Mae newidiadau i gynllun dirprwy Swyddfa Archwilio Cymru a chymeradwyaeth y Bwrdd o Strategaeth Pobl yn golygu bod cylch gwaith y Pwyllgor wedi datblygu ac mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig er mwyn adlewyrchu ei rôl newydd.

## Adroddiad yr archwilydd mewnol

Penodwyd BDO LLP yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Yn ystod 2017-18, cyhoeddodd BDO LLP wyth adroddiad archwilio mewnol ar adolygiadau o reolaethau ariannol (dros dro a therfynol), cymorth TG, capasiti gweithredol a chynllunio'r gweithlu, caffael strategol, gwybodaeth cynllunio busnes a rheoli, gweithredu system gyllid newydd, a rheolaethau twyll.

### Crynodeb o'r lefelau sicrwydd a ddarparwyd drwy farnau adroddiadau archwilio mewnol yn 2017-18

Cynllun y fframwaith rheolaeth fewnol	Sylweddol			1	4
	Cymedrol			2	1
	Cyfyngedig				
	Dim				
Lefel sicrwydd	Dim	Cyfyngedig	Cymedrol	Sylweddol	
Effeithiolrwydd gweithredol rheolaethau mewnol					

Yn ei ddatganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2017-18, nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol:

'Rydym yn fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi cael ei wneud i'n galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn ein barn ni, ar sail yr adolygiadau a gafodd eu cynnal a'u cwblhau yn ystod y cyfnod, gallwn ddod i'r casgliad bod trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn gweithio'n ddigon effeithiol i roi sicrwydd rhesymol bod yr amcanion cysylltiedig o ran rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu wedi'u cyflawni'n gyffredinol erbyn diwedd y cyfnod adolygu.

Yn dilyn ymarfer tendro a gynhaliwyd o dan Fframwaith Ymgynghori Rheoli Gwasanaethau Masnachol y Goron, penodwyd PricewaterhouseCoopers LLP yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru am gyfnod o dair blynedd rhwng 2018-19 a 2020-21. Cafodd strategaeth a chynllun archwilio mewnol ar gyfer 2018-19 eu paratoi i'w hystyried a chawsant eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018.

## Awydd am risg a rheoli risg

O gofio natur ein busnes, ni oddefir risg ym meysydd dyfarniadau archwilio proffesiynol, rheoleidd-dra, priodoldeb na rheoli ariannol. Mewn meysydd eraill, er enghraifft, mewn perthynas â chyfnewid arfer da ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, rydym yn barod i dderbyn mwy o risg er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gyflawni ein nod a'n hamcanion.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i fabwysiadu arfer gorau o ran nodi, gwerthuso a rheoli risgiau yn gosteffeithiol er mwyn sicrhau y cânt eu lleihau i lefel dderbyniol neu'u dileu. Cydnabyddir y bydd rhai risgiau yn bodoli bob amser ac na chânt eu dileu byth – ond rhaid monitro a rheoli'r rhain hefyd.

### Rheoli risg a'r gwasanaeth archwilio mewnol

Y Bwrdd sy'n bennaf cyfrifol am reoli risg, ac mae'n derbyn ac yn ystyried cofrestr risg strategol ac adroddiad sy'n crynhoi unrhyw newidiadau arwyddocaol i broffil risg y sefydliad yn ystod pob cyfarfod.

Caiff y Bwrdd ei gynorthwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, sy'n adolygu ac yn cynghori'r Bwrdd mewn perthynas â'r canlynol:

- ei strategaeth risg, gan gynnwys priodoldeb dull Swyddfa Archwilio Cymru o bennu ei hawydd am risg;
- prosesau asesu risg cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llywio penderfyniadau gweithredol;
- gallu Swyddfa Archwilio Cymru i nodi a rheoli risg;
- cylch gwaith y swyddogaeth rheoli risg; ac
- ymatebolrwydd rheolwyr i asesiadau risg.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am y canlynol: cymeradwyo a goruchwylio'r ffordd y caiff polisi rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru ei roi ar waith a chytuno ar unrhyw adnoddau sydd eu hangen i helpu i wneud hyn o safbwynt corfforaethol; asesu a rheoli risgiau strategol; ac adolygu'r gofrestr risgiau gweithredol bob chwe mis.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system rheolaeth fewnol, a chaiff ei gynorthwyo i wneud hynny gan y Pwyllgor Rheoli.

## Asesu risg

Ym mhob un o'i gyfarfodydd yn 2017-18, ystyriodd y Bwrdd grynodedb o'r risgiau strategol allweddol a oedd yn wynebu'r sefydliad, ynghyd â chofrestr risgiau strategol fanylach a oedd:

- yn asesu lefelau risg cynhenid a thargedau risg penodedig;
- yn disgrifio'r rheolaethau allweddol a roddwyd ar waith i liniaru tebygolrwydd ac effaith risgiau a chyflawni targedau;
- yn asesu lefelau risg gweddilliol;
- yn nodi newidiadau o ran risg ac yn tynnu sylw at newidiadau a wnaed i reolaethau lliniaru ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf; ac
- yn crynhoi cynnwys y gofrestr drwy broffiliau a mapiau gwres o risgiau cynhenid a gweddilliol.

Amrywiodd nifer o risgiau strategol allweddol yn ystod y flwyddyn ac yn sgil hynny, treuliodd y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli dipyn o amser arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys:

- y ffaith na fyddai rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei chydnabod yn briodol efallai mewn deddfwriaeth oedd ar droed;
- yr angen i sylweddu buddiannau gweithlu mwy amrywiol, yn enwedig ar y lefel reoli ac uwch reoli; ac
- y risg o brinder arian o ffioedd ac arian o Gronfa Gyfunol Cymru i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau statudol mewn ffordd sy'n cyflwyno'r lefelau effaith dymunol a gwerth ychwanegol.

Rwyf yn fodlon bod y risgiau hyn wedi cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Yn 2017-18, parhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i chwarae rôl yn craffu ar y gofrestr risgiau strategol a gweithredol, gan gynnwys drwy brofi risgiau strategol unigol er mwyn penderfynu a oedd y trefniadau rheoli risg yn gadarn ar y cyfan. Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Pwyllgor bedair risg strategol, ynghyd â chynnal dau adolygiad o'r gofrestr risgiau gweithredol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod ei adolygiadau manwl yn dangos bod trefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru fel petaent yn gweithio'n effeithiol.

Cafodd nifer o risgiau eu rheoli'n llwyddiannus a'u dileu o'r gofrestr risgiau strategol yn ystod 2017-18. Cafodd y risgiau naill eu cau'n gyfan gwbl neu'u hisraddio i'r gofrestr risgiau gweithredol er mwyn i'r arweinydd risg perthnasol eu rheoli



Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn wynebu nifer o risgiau newydd a nodwyd wrth edrych ymlaen at 2018-19, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ein cofrestr risgiau strategol. Yn benodol:


- methu â chydabod a deall y dirwedd newidiol rydym yn gweithredu ynddi, gan gynnwys mewn perthynas â Brexit, datganoli cyllidol a diwygio llywodraeth leol, a moderneiddio ein dull archwilio yn briodol;
- peidio â mabwysiadu arfer proffesiynol gorau wrth ddadansoddi data a buddsoddi ynddo, gan arwain at fethu â chyflawni arbedion effeithlonrwydd a chael yr effaith fwyaf bosibl; a
- methu ag ymateb yn effeithiol i ganlyniadau'r arolwg staff a gynhaliwyd ym mis Hydref 2017, a ganolbwyntiodd ar lefelau presennol o ymgysylltu â staff a meithrin gwell dealltwriaeth o brofiad cyflogaion.

Rydym wedi comisiynu gwaith i liniaru'r risgiau newydd hyn.

Byddaf yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol, bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau, a bod rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

## Proffil risgiau strategol Swyddfa Archwilio Cymru

Ceir crynodeb o broffil risgiau strategol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2018 yn y 'map gwres' canlynol, sy'n dangos nifer y risgiau strategol a lefelau'r risgiau gweddilliol a aseswyd ar ôl cymhwyso rheolaethau i liniaru eu heffaith a'u tebygolrwydd.



## Llywodraethu Gwybodaeth

Fel Archwilydd Cyffredinol, mae gen i fynediad eang at wybodaeth er mwyn cyflawni fy swyddogaethau archwilio. Ynghlwm wrth yr hawliau mynediad statudol grymus hyn mae cyfrifoldeb i sicrhau bod y wybodaeth a dderbynnir gennyf i a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei diogelu'n briodol.

Felly, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Llywodraethu Gwybodaeth a Pholisi Diogelu Gwybodaeth sy'n amlinellu rhwymedigaethau a chyfrifoldebau staff, gofynion prosesu data, trefniadau monitro ac adrodd, ac yn egluro sut y gall staff gael mwy o gymorth ac arweiniad.

## Diogelu Data

Mae diogelu data personol yn hynod bwysig, ac yn ystod y flwyddyn mae'r sefydliad wedi bod yn paratoi i orfodi'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ym mis Mai 2018. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- hyfforddi staff ar draws y sefydliad ar egwyddorion, gofynion ymarferol ac effaith y Rheoliadau;
- gwneud gwaith mapio data er mwyn cofnodi gwybodaeth am y wybodaeth bersonol a brosesir gan Swyddfa Archwilio Cymru, dibenion y gwaith prosesu hwnnw, sail gyfreithiol prosesu, cadw data a manylion mesurau diogelwch technegol a sefydliadol;
- darparu canllawiau yn nodi egwyddorion y Rheoliadau, a gofynion cadw cofnodion a phrosesu teg er mwyn sicrhau bod y gwaith o brosesu data yn deg ac yn gyfreithlon, y defnyddir hysbysiadau prosesu teg (preifatrwydd) ac y cedwir cofnodion addas;
- dynodi Swyddog Diogelu Data;
- cyflwyno asesiad newydd o'r effaith ar breifatrwydd; a
- diwygio polisiau, codau a chontractau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y rheoliadau.

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn atebol i'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu ISO 27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, gan addasu'r trefniadau yn unol ag anghenion y sefydliad.

Ni hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw achosion yn ymwneud â data personol yn 2017-18.

## **Bod yn agored ac yn dryloyw**

Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn ffordd agored a thryloyw fel busnes ac rydym wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol a baratowyd ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ein hymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael fel mater o drefn i'r cyhoedd.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18, cawsom 36 o geisiadau am wybodaeth, a gwnaethom fodloni'r terfynau amser statudol ar gyfer pob un ond dau o'r ceisiadau hyn. Yn un o'r achosion lle na wnaethom fodloni'r terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith, cafodd y cais ei ymgorffori mewn gohebiaeth ynghylch sylwadau ar adroddiad drafft ac ni chafodd ei nodi i gychwyn wrth ei gael. Yn yr achos arall, fel y caniateir gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, roedd angen naw diwrnod gwaith ychwanegol er mwyn cymhwyso profion er budd y cyhoedd yn briodol o ran esemptiadau.

Ni chynhaliodd y Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw adolygiadau mewn perthynas â ni yn 2017-18.

## Chwythu'r Chwiban (mewnol)

Anogir pob aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru i godi pryderon ynghylch camymddwyn neu ddrwgweithredu a ddaw i'w sylw pan fyddant yn y gwaith. Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried bod nodi drwgweithredu yn fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risg gorfforaethol a sicrhau llywodraethu da.

Mae gennym bolisi chwythu'r chwiban mewnol sefydledig sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sy'n nodi'r broses ar gyfer codi materion o'r fath, ac sy'n gymwys i staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r holl gontractwyr ac unigolion eraill sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru mewn unrhyw ffordd.

Mae'n anodd asesu effeithiolrwydd ein trefniadau chwythu'r chwiban yn uniongyrchol, oherwydd nid ydym wedi cael unrhyw ddatgeliadau mewnol yn ystod y flwyddyn, nac yn ystod blynyddoedd blaenorol chwaith. Fodd bynnag, yn ein harolwg staff a gynhaliwyd ym mis Hydref 2017 y gwnaeth 85% o staff ymateb iddo, gwnaethom ofyn i staff raddio eu hymateb i'r datganiad canlynol ar raddfa cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf: 'Rwy'n hyderus, petawn i'n codi pryder o dan drefniadau chwythu'r chwiban Swyddfa Archwilio Cymru, y byddai ymchwiliad priodol iddo'. Ymatebodd 76% o'r staff hynny 'cytuno'n gryf' neu 'cytuno' i'r cwestiwn hwn, gyda 17% arall yn ymateb drwy nodi 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'. Tra bod y canlyniad hwn yn dynodi hyder sylweddol mewn trefniadau, mae'n awgrymu bod peth gwaith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r trefniadau hynny, ac yn hyderus ynddynt.

Mae gennym drefniadau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau ynghylch llywodraethu gwybodaeth, fel bygythiadau posibl i ddiogelwch gwybodaeth, a gaiff eu gweithredu gan yr un staff sy'n gyfrifol am y trefniadau chwythu'r chwiban. Er na chaiff y trefniadau hyn eu defnyddio'n helaeth – dim ond llond llaw o bryderon a godwyd yn ystod y flwyddyn – mae hyn yn dangos bod y staff yn hyderus i roi gwybod am achosion pan fo hynny'n briodol.

# ADRODDIAD AR GYDNABYDDIAETH A STAFF

## Cydnabyddiaeth

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

Pennir cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, daw'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chael ei thalu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn bod yn dryloyw, caiff cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol ei dangos yn yr Adroddiad hwn ar Gydnabyddiaeth.

Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Huw Vaughan Thomas, gan Ei Mawrhydi y Frenhines a dechreuodd yn ei swydd ar 1 Hydref 2010 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymddeol o'r rôl ar 20 Gorffennaf 2018, gydag Adrian Crompton yn ei olynu, yn dilyn ei benodiad gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Cost cyflog gros yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2017-18 oedd £161,744 (2016-17: £153,117<sup>34</sup>).

Mae Mr Huw Vaughan Thomas wedi dewis cyfrif pensiwn partneriaeth (math o bensiwn cyfrandeiliaid personol y mae cyflogwr yn cyfrannu ato). Cyfrannodd y cyflogwr gyfanswm o £23,333 i'r cyfrif hwn yn ystod 2017-18 (ni chafwyd cyfraniadau gan yr aelod). (2016-17: £23,333<sup>35</sup>, ni chafwyd cyfraniadau gan yr aelod).

### Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys pum aelod anweithredol a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol, dau aelod etholedig sy'n gyflogeion, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r aelod sy'n gyflogai a enwebwyd ganddo, sef y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar hyn o bryd.

Byddai cyfnodau penodi 4 o'r 5 aelod anweithredol o'r Bwrdd wedi dod i ben ym mis Hydref 2017, felly cynhaliodd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymgyrch recriwtio yn ystod y flwyddyn. Penderfynodd y Pwyllgor Cyllid y dylai cyfnod mewn swydd Cadeirydd y Bwrdd, Isobel Garner, gael ei ymestyn am 3 blynedd arall. Ailbenodwyd Steven Burnett am gyfnod o 17 mis tan fis Mawrth 2019 a phenodwyd 2 aelod anweithredol newydd, Alison Gerrard<sup>36</sup> a Bill Richardson am gyfnod o 4 mlynedd, yn lle'r cyn-aelodau David Corner a Peter Price.

<sup>34</sup> Ailddatganwyd y cyflog o £153,000 i £153,117 ar gyfer 2016-17 er mwyn cywiro gwall gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Hefyd caiff y cyflog a gofnodwyd ar gyfer 2015-16 ei ailddatgan o £153,000 i £153,117.

<sup>35</sup> Ailddatganwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £27,923 i £23,333 ar gyfer 2016-17 er mwyn cywiro gwall cyfrifo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Hefyd caiff cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer 2015-16 eu hailddatgan o £26,701 i £26,318.

<sup>36</sup> Penodwyd Alison Gerrard o 4 Medi 2017 ar ôl i David Corner ymddiswyddo'n gynnar ym mis Gorffennaf 2017.

Nid yw cydnabyddiaeth aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn bensiynadwy ac fe'i pennir gan y Cynulliad, ac yn achos y Cadeirydd, daw'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff cydnabyddiaeth Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ei dangos yn yr adroddiad hwn. Penodwyd y ddau aelod etholedig sy'n gyflogeion gan aelodau anweithredol y Bwrdd, ar ôl pleidlais gan y staff ym mis Mai 2014. Caiff y lwfansau a roddir iddynt am eu dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Bwrdd eu pennu gan y Bwrdd<sup>37</sup> a'u dangos yn yr adroddiad hwn. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael unrhyw lwfansau ychwanegol am eu dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Bwrdd.

**Caiff y wybodaeth ar dudalennau 73 i 85 yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff ei harchwilio.**

<sup>37</sup> Nid yw'r aelodau sy'n gyflogeion yn cymryd rhan yn y penderfyniad hwn.

## Single total figure of remuneration for Wales Audit Office Board members

	Cydnabyddiaeth / Lwfans		Treuliau, gan -gynnwys treth <sup>38</sup>		Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth	
	2017-18	2016-17	2017-18	2016-17	2017-18	2016-17
	£	£	£	£	£	£
Isobel Garner (Cadeirydd) <sup>39</sup>	25,000	25,000	9,403	5,741	34,403	30,741
Steven Burnett	12,500	12,500	3,324	3,068	15,824	15,568
David Corner <sup>40</sup>	3,583	12,500	1,805	9,176	5,388	21,676
Lindsay Foyster	12,500	12,500	1,156	488	13,656	12,988
Alison Gerrard <sup>41</sup>	6,771	-	1,412	-	8,183	-
Peter Price <sup>42</sup>	5,786	12,500	386	454	6,172	12,954
Bill Richardson <sup>43</sup>	5,712	-	1,480	-	7,192	-
Amanda Hughes <sup>44</sup>	4,167	4,167	1,982	1,194	6,149	5,361
Louise Fleet	4,167	4,167	457	276	4,624	4,443
<b>Cyfanswm</b>	<b>80,186</b>	<b>83,334</b>	<b>21,405</b>	<b>20,397</b>	<b>101,591</b>	<b>103,731</b>

38 Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth neu'r lwfans am eu rôl, gall aelodau'r Bwrdd ac aelodau anweithredol pwyllgorau hawlio am eu costau teithio a threuliau. Caiff y rhwymedigaeth dreth bersonol mewn perthynas â'r treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Gytundeb Setliad TWE gyda CThEM.

39 Daw cydnabyddiaeth y Cadeirydd yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Caiff costau teithio a threuliau'r Cadeirydd eu talu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Dangosir cydnabyddiaeth y Cadeirydd yma er mwyn bod yn dryloyw.

40 Ymddiswyddodd David Corner o'i rôl fel Aelod o'r Bwrdd ar 24 Gorffennaf 2017.

41 Roedd Alison Gerrard yn aelod anweithredol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg tan 3 Medi 2017.

42 Daeth cyfnod mewn swydd Peter Price i ben ar 16 Hydref 2017.

43 Penodwyd Bill Richardson yn aelod o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar 17 Hydref 2017.

44 Mae Amanda Hughes a Louise Fleet yn aelodau sy'n gyflogeion o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r lwfansau a ddangosir uchod yn ymwneud â'u dyletswyddau fel aelodau o'r bwrdd yn unig.

## Aelodau anweithredol pwyllgorau

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi aelod annibynnol o'i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Pennwyd cydnabyddiaeth y swydd hon gan y Bwrdd ac nid yw'n bensiynadwy. Yn dilyn penodiad Alison Gerrard fel aelod o'r Bwrdd ym mis Medi 2017, penodwyd Dianne Thomas i'r rôl hon ym mis Rhagfyr 2017.

## Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

	Cydnabyddiaeth		Treuliau, gan gynnwys treth		Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth	
	2017-18	2016-17	2017-18	2016-17	2017-18	2016-17
	£	£	£	£	£	£
Alison Gerrard	2,541	5,000	79	142	2,620	5,142
Dianne Thomas	1,667	-	399	-	2,066	-
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,208</b>	<b>5,000</b>	<b>478</b>	<b>142</b>	<b>4,686</b>	<b>5,142</b>

## Staff Swyddfa Archwilio Cymru

Mae polisi tâl Swyddfa Archwilio Cymru ar gael ar ein [gwefan](#).

Cyflogir pob aelod o staff gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyfryw delerau ac amodau a bennir gan y Bwrdd. Mae cydnabyddiaeth pob aelod o staff yn destun adolygiadau rheolaidd yn unol â strategaethau a bennir gan y Bwrdd a thrwy ymgynghori ag undebau llafur o dan gydgytundeb. Mae cydnabyddiaeth yn bensiynadwy o dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer yn dal swyddi penagored, oni bai eu bod ar gontractau cyfnod penodol. Byddai dod â phenodiad i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.



Wrth bennu strategaethau cyflog, mae'r Bwrdd yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell unigolion â galluoedd a chymwysterau addas o safon uchel;
- fforddiadwyedd cyffredinol;
- arferion cyflogau yn y sector cyhoeddus ehangach a sefydliadau cymharol; a
- rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys gofynion o ran cydraddoldeb a gwahaniaethu.

Mae'r ystodau cyflog ar gyfer pob aelod o staff ar gael ar ein [gwefan](#). Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn talu bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad i unrhyw aelodau o staff, ond mae trefniadau arfarnu perfformiad ar waith sy'n atal codiadau cyflog os na fydd perfformiad yn foddhaol.

Yn ystod 2017-18, ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-aelodau o staff y byddai eu cydnabyddiaeth wedi bod yn ddatgeladwy (2016-17: Dim).

## Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth uwch reolwyr

Nodir isod fanylion cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Pwyllgor Rheoli. Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd yn craffu ar grynodedb arfarnu perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol o aelodau'r Pwyllgor Rheoli.

	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018				
	Cyflog <sup>45</sup>	Buddiannau mewn da	Treuliau trethadwy <sup>46</sup>	Budd pensiwn	Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth
	Bandiau o £5,000	I'r £100 agosaf	I'r £100 agosaf	I'r £1,000 agosaf	Bandiau o £5,000
Anthony Barrett	120-125		17,200	29	165-170
Gillian Body <sup>46</sup>	30-35			(3)	25-30
Jane Holownia (0.8 FTE)	85-90			13	100-105
Alan Morris <sup>47</sup>	-			-	-
Steve O'Donoghue	85-90			45	130-135
Kevin Thomas	120-125		14,100	21	155-160
Mike Usher	105-110			16	120-125

	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017				
	Cyflog <sup>45</sup>	Buddiannau mewn da	Treuliau trethadwy	Budd pensiwn	Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth
	Bandiau o £5,000	I'r £100 agosaf	I'r £100 agosaf	I'r £1,000 agosaf	Bandiau o £5,000
Anthony Barrett	120-125	300	15,100	37	170-175
Gillian Body	120-125			(1)	120-125
Jane Holownia (0.8 FTE)	20-25 <sup>49</sup>			5	25-30
Alan Morris	80-85	1,000		59	140-145
Steve O'Donoghue	80-85			64	145-150
Kevin Thomas	120-125		19,300	50	190-195
Mike Usher	105-110			33	135-140

45 Yn cynnwys Lwfans Teithio a dalwyd i Anthony Barrett (£5,160), Gillian Body (£1,290), Kevin Thomas (£5,160) a Jane Holownia (£3,015). Mae gan Mike Usher yr hawl i Lwfans Teithio ond nid arferodd yr hawl hon yn 2017-18 na 2016-17.

46 Sef gwerth taliadau yn cynnwys treth a wnaed i Anthony Barrett a Kevin Thomas am deithio i brif weithle.

47 Gadawodd Gillian Body Swyddfa Archwilio Cymru o dan Gytundeb Ymadael Gwirfoddol ar ddiwedd mis Mehefin 2017 (Cyflog cyfatebol am y flwyddyn gyfan yn yr ystod 120-125). Cafodd manylion y cytundeb hwn eu cynnwys yn yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon ar gyfer 2016-17. Mae'r cyflog a ddatgelir am 3 mis o'r flwyddyn.

48 Ymddeolodd Alan Morris ar ddiwedd mis Rhagfyr 2016.

49 Penodwyd Jane Holownia i'r Pwyllgor Rheoli ym mis Ionawr 2017.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall (ee, lwfans teithio) i'r graddau ei fod yn destun trethiant yn y DU.

Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cynrychioli buddiannau ceir ar brydles a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac a gaiff eu trin gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) fel budd trethadwy. Mae'r buddiannau hyn yn unol â hawl safonol i bob aelod o staff symudol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu budd-dal marw yn y swydd sy'n cyfateb i flwyddyn o gyflog ar gyfer unrhyw aelod o staff sy'n marw tra'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru. Cost flynyddol y cynllun hwn yn 2017-18 oedd £22,349 (2016-17: £18,679). Polisi yswiriant grŵp yw hwn, ac fel y cyfryw ni ellir ei briodoli'n uniongyrchol i unrhyw aelod penodol o staff ac felly ni chaiff ei gynnwys yn y tabl uchod.

## Treuliau uwch aelodau o staff

Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau aelodau'r Pwyllgor Rheoli ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cafodd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil ei gyflwyno - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yn cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, gwnaeth gweision sifil newydd eu penodi a'r rhan fwyaf o'r rheini oedd eisoes mewn swydd ymuno ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae gan y Cynllun hwn bedair adran: 3 sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (**clasurol, premiwm** neu **glasurol a mw)** gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid ariennir y trefniadau statudol hyn, gyda chost buddiannau yn cael eu talu gan arian y mae'r Senedd yn pleidleisio arno bob blwyddyn.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn rhanddeiliad. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle mae'n gwneud hynny bydd y cyflogwr yn cyfateb hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y gall yr aelod ei hawlio pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw wedi cyrraedd oedran pensiwn neu drosto eisoes. Mae oedran pensiwn yn 60 ar gyfer aelodau **clasurol, premiwm a chlasurol a mwy**, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha, pa un bynnag sydd uchaf. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd fel rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu **alpha** – fel sy'n briodol. Os bydd gan y swyddog fuddiannau ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha, mae'r ffigur a ddyfynnir yn cyfateb i werth cyfunol ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond nodwch y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

Gellir cael rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk)

## Hawliadau pensiwn i uwch reolwyr

	Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2018 a chyfandaliad cysylltiedig	Cynnydd gwirioneddol / (gostyngiad) mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn	CETV ar 31 Mawrth 2018	CETV ar 31 Mawrth 2017	Cynnydd gwirioneddol / (gostyngiad) mewn CETV	Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	Nearest £100
Anthony Barrett	45-50	0-2.5	777	720	9	-
Gillian Body	50-55 plus lump sum of 155-160	0 plus lump sum of 0	1,144	1136	(3)	-
Jane Holownia	45-50	0-2.5	816	748	9	-
Steve O'Donoghue	45-50	2.5-5	563	507	21	-
Kevin Thomas	55-60	0-2.5	852	797	2	-
Mike Usher	40-45 plus lump sum of 105-110	0-2.5 plus lump sum of 0	764	716	-	-

## **Gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV)**

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw gwerth y buddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi'u cyfalafu'n actiwaraid. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw'r buddiannau a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn drwy gydol ei gyfnod fel aelod o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei gyfnod yn yr uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnir gan yr aelod ar ôl iddo brynu buddiannau pensiwn ychwanegol gyda'i arian ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o dreth lwfans oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

## **Cynnydd gwirioneddol mewn gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Datgeliad cyflog teg

Caiff y gydbertynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf a chydabyddiaeth ganolrifol y gweithlu ei dangos yn y tabl canlynol.

	2017-18	2016-17
Band cyfanswm cydnabyddiaeth <sup>50</sup> y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf heb gynnwys cyfraniadau pensiwn (£'000)	135-140	140-145
Cyfanswm cydnabyddiaeth canolrifol yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn)	£42,757	£44,065
Ystod cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn	£16,381- £138,632	£16,300- £141,452
Cymhareb cydnabyddiaeth	3.24	3.21

Yn 2017-18, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r hyn a gafodd y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf (2016-17: dim). Roedd y gydnabyddiaeth yn amrywio o £16,381 i £138,632 (2016-17: £16,300 i £141,452). Mae'r gostyngiad yn y gydnabyddiaeth ganolrifol yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr hyfforddeion graddedig a gyflogwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r gydnabyddiaeth isaf yn adlewyrchu lleoliadau profiad gwaith. Mae'r gydnabyddiaeth is i'r cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yn adlewyrchu gostyngiad mewn treuliau teithio trethadwy.

Er mwyn bod yn dryloyw, £161,744 oedd cyfanswm cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn), sef 3.78 gwaith cyfanswm cydnabyddiaeth ganolrifol Swyddfa Archwilio Cymru (2016-17: £153,117<sup>51</sup>, cymhareb: 3.47).

## Ymgysylltiadau Oddi ar y Gyflogres

Nid oedd gan Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw gontractau yn ystod 2017-18 a oedd yn cyfateb i ddiffiniad Trysorlys EM o drefniadau oddi ar y gyflogres. (2016-17: dim)

<sup>50</sup> Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, lwfans teithio a buddiannau mewn da. Yn achos y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf, mae hefyd yn cynnwys treuliau trethadwy. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod pensiynau.

<sup>51</sup> Ailddatganwyd y cyflog o £153,000 i £153,117 ar gyfer 2016-17 er mwyn cywiro gwall gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Hefyd caiff y cyflog a gofnodwyd ar gyfer 2015-16 ei ailddatgan o £153,000 i £153,117. Nid effeithiodd hyn ar y gymhareb cydnabyddiaeth.

## Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu trefniadau diswyddo gwirfoddol yn unol â rheolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Mae'r cynlluniau hyn yn cyd-fynd â gofynion cynllunio'r gweithlu ac wedi arwain at ostyngiadau i sylfaen costau staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Cost y cynllun yn 2017-18 oedd £501,078 (2016-17: £695,700). Amcangyfrifir y bydd hyn yn cyflawni arbedion o £194,000 y flwyddyn.

Ymrwymodd 7 cyflogai (2016-17: 16) i becynnau ymadael cymeradwy yn ystod 2017-18 fel y nodir isod:

Band costau'r pecyn ymadael	2017-18			2016-17		
	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill	Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill	Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau
Less than £25,000	–	1	1	–	8	8
£25,001-£50,000	–	2	2	–	3	3
£50,001-£100,000	–	2	2	–	4	4
£100,001-£150,000	–	1	1	–	-	-
£150,001-£200,000		1	1		1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>–</b>	<b>7</b>	<b>7</b>	<b>–</b>	<b>16</b>	<b>16</b>

Nid ymddeolodd unrhyw aelodau o staff yn gynnar am resymau iechyd yn ystod y flwyddyn.



## Adroddiad staff

### Uwch Arweinwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer yr uwch aelodau o staff fesul band ar 31 Mawrth 2018

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
Band A (£92,430 - £116,256)	2	3
Band B (£81,686 - £102,762)	3	3
Band C (£73,579 - £89,268)	8	8
<b>Cyfanswm</b>	<b>13</b>	<b>14</b>

Mae'r swyddi ym Mandiau A a B yn cynrychioli'r Pwyllgor Rheoli, a gaiff ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Ar y cyd â'r swyddi ym Mand C, maent yn cynrychioli'r Uwch Dîm Arwain.

### Niferoedd Staff

Gwelwyd cynnydd o dri yn nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd; bu gostyngiad o wyth yn nifer y staff parhaol a chynnydd o 11 yn nifer y staff â chontractau cyfnod penodol. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd yn nifer yr hyfforddeion graddedig yn unol â thybjaethau cynllunio'r gweithlu a'r [Rhaglen Hyfforddi Graddedigion](#).

	2017-18	2016-17
Nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd	209	217
Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gontractau cyfnod penodol yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd	38	27
Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd)	8	9

## Costau Staff A Chostau Cysylltiedig

	2017-18	2016-17
	£'000	£'000
Cyflogau staff	11,016	10,992
Staff a secondiwyd i mewn	29	69
Staff ar gontractau byrdymor	249	301
Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol	59	68
Costau nawdd cymdeithasol	1,299	1,294
Costau pensiwn (PCPS)	2,365	2,379
Costau pensiwn (pensiynau cyfranddeiliaid)	18	4
	<b>15,035</b>	<b>15,107</b>
Lwfans trafndiaeth a cheir ar brydles	709	720
Tanysgrifiadau <sup>52</sup>	75	73
	<b>15,819</b>	<b>15,900</b>
Contractwyr archwilio ac arolygu	104	216
	<b>15,923</b>	<b>16,116</b>
Costau dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau	501	702
Llai arian a dderbyniwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan	(153)	(45)
<b>Costau staff net</b>	<b>16,271</b>	<b>16,773</b>

52 Ffioedd ar gyfer aelodaeth cyrff proffesiynol, profion llygaid ac archwiliadau iechyd.

## Gwasanaethau allanol<sup>53</sup>

	2017-18	2016-17
	£'000	£'000
Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat	795	952
Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill	21	199
	<b>816</b>	<b>1,151</b>

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau allanol a brynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau archwilio, arolygu, cyngor neu ymchwil. Mae'r gost wedi lleihau yn unol â gostyngiad a gynlluniwyd yn lefel y gwaith a osodir ar gontractau allanol fel rhan o gynllun arbedion hirdymor a threfniadau cynllunio'r gweithlu.

**Ni chaiff y wybodaeth ganlynol (tudalennau 86 i 88) yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff ei harchwilio.**

### Polisiâu Staff, Cydraddoldeb Ac Amrywiaeth

Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â'r fframwaith diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â'r confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, gan gynnwys ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith, ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Mae ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. [Mae ein Hadroddiad Blynyddol](#) ar gynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn 2016-17, sy'n darparu gwybodaeth am faterion cyflogaeth fel materion cydraddoldeb a thriniaeth gyfartal ym maes cyflogaeth, ar gael ar ein gwefan. Caiff ein hadroddiad ar gyfer 2017-18 ei gyhoeddi yn ystod haf 2018.

53 Exclusive of VAT

Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau y caiff pob aelod o staff â nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys nam) ei drin yn deg ac yn gyfartal ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae'r polisi yn darparu ar gyfer cydraddoldeb wrth ddethol ym maes cyflogi, recriwtio, dyrchafu, dysgu a datblygu a/neu unrhyw fudd arall, yn seiliedig yn llwyr ar gymhwysedd a gallu yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig.

## Cyfansoddiad staff (nifer y bobl a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2018)

	Gwryw	Benyw	Mae'n well gennyf beidio â dweud	Dim data
Cyfarwyddwyr	8	2	-	3
Cyflogeion eraill Swyddfa Archwilio Cymru	89	126	-	37


## Absenoldeb Oherwydd Salwch

- Cynyddodd ein lefelau absenoldeb oherwydd salwch un diwrnod fesul person ar gyfartaledd oherwydd cynnydd mewn absenoldeb hirdymor. Lleihaodd nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb byrdymor ychydig o gymharu â 2016-17.
- Roedd y ffigur absenoldeb cyffredinol ddeuddydd yn llai na meincnod y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)<sup>54</sup>, ond roedd yn uwch na'n targed corfforaethol, sef 6.5 diwrnod.
- Er mwyn helpu staff i reoli eu hiechyd, mae gennym broses Sgrinio Iechyd, Rhaglen Cymorth i Gyflogeion, Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl a rhaglen o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth llesiant a gynhelir drwy gydol y flwyddyn.

	2017-18	2016-17
Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff	7.7	6.5
Oherwydd absenoldeb byrdymor	3.6	3.9
Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau o ≥21 diwrnod)	4.1	2.6

<sup>54</sup> Cymedr o 9.8 diwrnod fesul cyflogai y flwyddyn ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i Arolwg Rheoli Absenoldeb blynyddol CIPD yn 2016.


## Absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff rhwng 2013-14 a 2017-18



## EIN GWEITHLU

- Bu cynnydd o 1.5% yng nghyfran y cyflogeion rhan amser yn 2017-18. Roedd y cynnydd hwn yn cynnwys gostyngiad o 0.8% ymhlith dynion a chynnydd o 1.4% ymhlith merched.
- Gostyngodd canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol gan adlewyrchu cynnydd yn nifer yr hyfforddeion graddedig ar gontractau hyfforddi pedair blynedd. Cynlluniwyd hyn fel rhan o'n tybiaethau cynllunio'r gweithlu.
- Mae ein trosiant staff blynyddol wedi gostwng ychydig o gymharu â 2016-17 i 10%.

	2017-18	2016-17
<b>Patrymau gweithio</b>		
Cyflogeion rhan amser fel canran o'r cyfanswm	17.7	16.2
I ddynion	4.1	4.9
I ferched	28.1	26.7
<b>Math o gontract cyflogaeth</b>		
Canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol	82.0	88.5
<b>Trosiant</b>		
Canran trosiant staff flynyddol	10	10.5



**Huw Vaughan Thomas**  
 Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu  
 7 Mehefin 2018

# ALLDRO ADNODDAU AC ADRODDIAD YR ARCHWILYDD

## Datganiad o Alldro Adnoddau 2017-18

Caiff y wybodaeth ar dudalennau 89 i 92 ei harchwilio.

Mae'r datganiad hwn yn cymharu'r Amcangyfrif ar gyfer 2017-18 (gan gynnwys newidiadau a wnaed drwy'r Cynnig Cyllidebol Atodol), fel y pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol arno ag incwm a gwariant gwirioneddol yn ystod y flwyddyn.

NODYN		Amcangyfrif 2017-18			Alldro 2017-18			Alldro 2016-17	
		Gwariant gros		CYFANSWM	Gwariant		CYFANSWM	Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif	CYFANSWM NET
		£'000	£'000		£'000	£'000			
SORO1	Refeniw	21,545	(14,694)	6,851	20,969	(14,122)	6,847	(4)	6,486
SORO2	Cyfalaf	380	–	380	313		313	(67)	222
SORO2	Cyfanswm Adnoddau	21,925	(14,694)	7,231	21,282	(14,122)	7,160	(71)	6,708
SORO3	Gofyniad Arian Parod Net			7,031			6,308	(723)	6,233

Yn sgil gweithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18:

- y cyfanswm alldro net ar adnoddau refeniw oedd £4,000 o fewn yr adnoddau net cymeradwy o £6,851,000;
- yr alldro net ar wariant cyfalaf oedd £67,000 o fewn y gyllideb gyfalaf gymeradwy o £380,000; ac
- Ar ôl ystyried addasiadau nad ydynt yn arian parod, mae £723,000 yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu amseriad trafodion diwedd blwyddyn.

## Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig

### Nodyn SORO1: Dadansoddiad o Amcangyfrif 2017-18

	Amcangyfrif 2017-18			Amcangyfrif 2016-17
	Amcangyfrif 2017-18	Amcangyfrif Atodol 2017-18	CYFANSWM NET	CYFANSWM NET
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant	21,680	(135)	21,545	21,747
Incwm	(15,154)	460	(14,694)	(15,261)
Cyfanswm Net	6,526	325	6,851	6,678
Cyfalaf	380	-	380	250
Cyfanswm Adnoddau	6,906	325	7,231	6,928
Gofyniad Arian Parod Net	6,706	325	7,031	6,728



## Nodyn SORO2: Dadansoddiad o alldro adnoddau net 2017-18

Alldro 2016-17		Amcangyfrif 2017-18	Alldro 2017-18	Amrywiant	Rheswm dros amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif
£'000		£'000	£'000	£'000	
<b>TREULIAU</b>					
15,204	Costau staff	15,411	14,909	(502)	Staff vacancies during the year exceeded expectations
517	Staff contractwyr	735	353	(382)	Reduced use of contractor staff
1,232	Teithio a chynhaliaeth	1,299	1,204	(95)	Reduction in travel linked to investment in ICT and video conferencing
1,099	Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW)	874	917	43	Increased work in year
912	Swyddfeydd	938	931	(7)	
455	TGCh	399	494	95	Investment in Data Analytics in year
624	Balans TAW anadenilladwy	390	519	129	Reflects increased capital expenditure
332	Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru	300	300	0	
295	External training	255	292	37	Additional investment in staff training in year
139	Legal and professional fees	201	120	(81)	Reduced consultancy expenditure
115	Translation of documents	145	158	13	
823	Other costs	598	772	174	Includes increased depreciation costs and staff conference
<b>21,747</b>	<b>CYFANSWM Y TREULIAU</b>	<b>21,545</b>	<b>20,969</b>	<b>(576)</b>	
<b>INCWM</b>					
(13,263)	Ffioedd archwilio	(13,288)	(12,755)	533	Reduction in the amount of audit work carried out
(1,540)	Ffioedd ardystio grantiau	(1,406)	(1,351)	55	Reduction in number of grants requiring certification
(433)	Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella	-	(5)	(5)	Completion of previous year reviews
(25)	Incwm arall	-	(11)	(11)	
<b>(15,261)</b>	<b>CYFANSWM YR INCWM</b>	<b>(14,694)</b>	<b>(14,122)</b>	<b>572</b>	
6,486	ADNODD REFENIW NET	6,851	6,847	(4)	
222	<b>GWARIANT CYFALAF</b>	<b>380</b>	<b>313</b>	<b>(67)</b>	

Roedd incwm o ffioedd archwilio ac ardystio grantiau £588,000 yn is yn 2017-18 na'r swm a ragwelwyd yn yr Amcangyfrif. O ganlyniad, bu'n rhaid gostwng ein costau staffio a chostau eraill yn unol â hynny drwy reoli swyddi gwag a gwneud llai o ddefnydd na'r bwriad o gontractwyr byrdymor. Er gwaetha'r heriau hyn, roedd cost net Swyddfa Archwilio Cymru £4,000 yn llai na'r swm a ragwelwyd pan gytunwyd ar yr Amcangyfrif.

Mae'r crynodeb rheoli ariannol ar dudalen 33 yn darparu esboniad pellach o gosteffeithlonrwydd yn Swyddfa Archwilio Cymru.


Llywodraethir incwm ffioedd archwilio gan y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Dadansoddir yr incwm hwn yn Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol.

### Nodyn SORO3: Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

	2017-18			2016-17
	Amcangyfrif Atodol	Alldro	Amrywiant	Alldro
	£'000	£'000	£'000	£'000
Adnoddau referniw	6,851	6,847	(4)	6,486
Adnoddau cyfalaf	380	313	(67)	222
<b>Addasiadau:</b>				
Eitemau anariannol (dibrisiant)	(200)	(226)	(26)	(204)
<b>Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod:</b>	–			
-(Cynnydd)/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo	–	(698)	(698)	(504)
-(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy ac incwm gohiriedig		242	242	98
-(Cynnydd)/gostyngiad mewn darpariaethau		(170)	(170)	135
<b>Cyfanswm y gofyniad arian parod net</b>	<b>7,031</b>	<b>6,308</b>	<b>(723)</b>	<b>6,233</b>

## Tueddiadau gwariant hirdymor

Ers 2013-14, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi lleihau ei gwariant 13% mewn termau real<sup>55</sup>, fel y dangosir isod. Mae'r arbediad cronol a sicrhawyd yn ystod y blynyddoedd hynny yn cyfateb i £6.8 miliwn, sy'n lleihau'r galw ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac eithrio ar gyfer cyfrifoldebau newydd, a'r swm sydd angen ei godi o ffioedd a godir ar gyrrff archwiliedig.



Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio bob blwyddyn ar wariant ac incwm cyllidebol Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau pell wrth gefn a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant hirdymor.

Datgelir unrhyw daliadau arbennig a cholledion datgeladwy yn 2017-18 yn Nodyn 14 i'r Datganiadau Ariannol.

<sup>55</sup> Yn seiliedig ar ddatchwyddwyr CDG a gyhoeddwyd gan SYG ym mis Mawrth 2018.

## Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rydym yn ardystio ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Drysorlys EM o dan Ddeddf 2013.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2018 a'i chost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau gan Drysorlys EM o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

### Barn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

Rydym wedi ymgymryd â gwaith, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, er mwyn cael sicrwydd rhesymol yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu; ac
- ni wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Sail y farn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a chyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rydym hefyd yn archwilio'r wybodaeth yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau a nodiadau cysylltiedig a'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad.

Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

## Sail y farn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i ni gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny. Rydym wedi cynnal ein gwaith yn unol â Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, Nodyn Ymarfer 10 Archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn hyn o beth.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw defnydd Swyddfa Archwilio Cymru nac Archwilydd Cyffredinol Cymru o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw Swyddfa Archwilio Cymru nac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r cwmni i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilydd arnynt. Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yr ymddengys ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os nodwn y cyfryw anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni bennu p'un a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os down i'r casgliad, ar sail ein gwaith, fod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, rhaid i ni nodi hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni:

- mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a'r rhan o'r Adroddiad ar Atebolrwydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM o roddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## **Cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodir ar dudalen 50, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y cyfarwyddwyr i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Cynulliad yn bwriadu diddymu Swyddfa Archwilio Cymru heb i'w gweithrediadau barhau.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn gyfrifol am sicrhau yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## **Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebauam archwilio'r datganiadau ariannol ar [wefan](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities) y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

## **Cyfrifoldebau'r archwilydd am roi barn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol**

Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn sicrwydd resymol yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y mae wedi'i gyfeirio ato yn unig yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac nid at unrhyw ddiben arall. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallaf ddatgan i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Mae RSM UK Audit LLP wedi ardystio'r cyfrifon hyn ac adrodd arnynt yn eu ffurf gwreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn, ac nid RSM UK Audit LLP.

RSM UK Audit LLP

8 Mehefin 2018

Third Floor

One London Square

Cross Lanes

Guildford

Surrey

GU1 1UN



# DATGANIADAU ARIANNOL

DATGANIADAU ARIANNOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU,  
YNGHYD Â NODIADAU ATEGOL AC ESBONIADOL

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

		2017-18	2016-17
	Nodyn	£'000	£'000
<b>Gwariant</b>			
Costau staff a chostau cysylltiedig	Adroddiad staff <sup>56</sup>	16,271	16,773
Gwasanaethau allanol	Adroddiad staff	816	1,151
Costau gweithredu eraill	3	3,882	3,823
		<b>20,969</b>	<b>21,747</b>
<b>Incwm</b>			
Incwm o ffioedd archwilio	1	(14,106)	(14,803)
Grant arolygu	1	(5)	(433)
Incwm gweithredu arall	2	(11)	(25)
		<b>(14,122)</b>	<b>(15,261)</b>
<b>Gwariant net</b>		<b>6,847</b>	<b>6,486</b>
<b>Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>		<b>6,847</b>	<b>6,486</b>

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 105 i 121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

Ni chafwyd unrhyw weithrediadau a derfynwyd, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion anghydnabyddedig.

<sup>56</sup> Nodyn costau staff ar dudalen xx yr Adroddiad ar Gynabyddiaeth a Staff.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2018

	Nodyn	31 Mawrth 2018 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
<b>Asedau anghyfredol</b>			
Eiddo, offer a chyfarpar	4	593	590
Asedau anniriaethol	5	233	149
<b>Cyfanswm yr asedau anghyfredol</b>		<b>826</b>	<b>739</b>
<b>Asedau cyfredol</b>			
Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo	6	1,432	2,136
Symiau derbyniadwy eraill	7	556	550
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	8	3,017	2,789
<b>Cyfanswm yr asedau cyfredol</b>		<b>5,005</b>	<b>5,475</b>
<b>Cyfanswm asedau</b>		<b>5,831</b>	<b>6,214</b>
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	9	(1,745)	(2,253)
Incwm gohiriedig	10	(2,556)	(2,290)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	11	(687)	(485)
Cronfa Gyfunol Cymru (gweler y Crynodeb o Alldro Adnoddau)		(723)	(495)
<b>Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>(5,711)</b>	<b>(5,523)</b>
<b>Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>120</b>	<b>691</b>
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol</b>			
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	11	(733)	(765)
<b>Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol</b>		<b>(733)</b>	<b>(765)</b>
<b>Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau</b>		<b>(613)</b>	<b>(74)</b>
<b>Ecwiti trethdalwyr</b>			
Cronfa gyffredinol		(613)	(74)
		<b>(613)</b>	<b>(74)</b>

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 105 i 121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 101 i 121 gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 7 Mehefin 2018 ac fe'u llofnodir ar ei ran gan:

**Huw Vaughan Thomas**

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu  
7 Mehefin 2018

## Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

	Nodyn	2017-18 £'000	2016-17 £'000
<b>Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu</b>			
Gwariant net cynhwysfawr		(6,847)	(6,486)
Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol: dibrisiant ac amorteiddio	3	226	204
Cynnydd)/(gostyngiad mewn darpariaethau	11	170	164
<b>Newidiadau mewn cyfalaf gweithio</b>			
(Cynnydd)/(gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	6 7	698	(504)
Cynnydd)/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	9,10	(242)	98
<b>All-lif arian parod net a ddefnyddiwyd o weithgareddau gweithredu</b>		<b>(5,995)</b>	<b>(6,524)</b>
<b>Llifau arian parod a ddefnyddiwyd o weithgareddau buddsoddi</b>			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	4	(152)	(190)
Prynu asedau anniriaethol	5	(161)	(32)
<b>All-lif arian parod net a ddefnyddiwyd o weithgareddau buddsoddi</b>		<b>(313)</b>	<b>(222)</b>
<b>Llifau arian parod o weithgareddau ariannu</b>			
Cronfa Gyfunol Cymru		7,031	6,728
Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru		(495)	(143)
<b>Ariannu net</b>		<b>6,536</b>	<b>6,585</b>
Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	8	228	(161)

Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 105 i 121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

	£'000
<b>Balans ar 31 Mawrth 2016</b>	179
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2016-17	
Cyfanswm gwariant cynhwysfawr	(6,486)
Arian o Gronfa Gyfunol Cymru	6,728
	<hr/> 421
Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	(495)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>(74)</b>
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2017-18	
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr	(6,847)
Arian o Gronfa Gyfunol Cymru	7,031
	<hr/> 110
Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	(723)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>(613)</b>

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 105 i 121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2017-18, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

### Sail y paratoi

Mae'r polisiâu cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y'u haddaswyd neu'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Lle y caniatâ'r FReM ddewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa. Disgrifir polisiâu pwysig a fabwysiadwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ochr yn ochr â'r nodyn y aent yn cyfeirio ato. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrid eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir ffigurau mewn punnoedd sterling, sef arian cyfred gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

Datgelir effaith bosibl IFRS 16 (Prydlesi) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 ond nad yw'n weithredol tan 1 Ionawr 2019 yn Nodyn 12. Rydym wedi ystyried effaith IFRS 15 (Refeniw o gontractau â chwsmeriaid) ac o'r farn nad oes unrhyw wahaniaeth perthnasol o'r driniaeth gyfrifyddu sydd ar waith ar hyn o bryd.

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd eraill a gyhoeddwyd, ond nad ydynt yn weithredol eto, a fyddai wedi cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi'u cymhwyso at y cyfnod adrodd hwn.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y nodir isod:

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio yn unol â threfniadau ariannu blynyddol drwy statud. Er i gyllid y pleidleisiwyd arno gael ei gymeradwyo am naw mis yn unig ar ôl dyddiad llofnodi'r datganiadau hyn, caiff Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod hydref 2018-19 ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff cyllid ei gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i dalu treth corfforaeth.

## Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a meysydd barn

- Mae'r broses o gydnabod refeniw yn seiliedig ar yr amser a godir ar brosiectau wedi'i addasu lle y bo'n berthnasol i adlewyrchu cam cwblhau'r gwaith a wnaed. Cynhelir asesiad ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn ystyried rhesymoldeb incwm a gydnabyddir gan ystyried y gost o gwblhau prosiectau archwilio. Mae'r driniaeth hon yn unol ag IAS 18 (Refeniw) ac mae'n cael effaith uniongyrchol ar brisio gwaith sy'n mynd rhagddo ac incwm gohiriedig yn y datganiadau ariannol hyn.
- Caiff incwm a gydnabyddir cyn codi anfonebau ei drin fel Gwaith sy'n Mynd Rhagddo (Gweler Nodyn 6). Caiff anfonebau a godir cyn gwneud gwaith eu trin fel Incwm Gohiriedig (Gweler Nodyn 10).
- Gwnaed darpariaethau lle mae'n fwy tebygol na pheidio, ym marn y swyddog cyfrifyddu, fod rhwymedigaeth ariannol yn bodoli na ellir ei hamcangyfrif yn gywir ar hyn o bryd. (Gweler Nodyn 11).
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau'n rhoi amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fynd iddynt wrth wella'r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydles. Cronnodd y ddarpariaeth hon drwy dâl dadfeiliadau blynyddol, a gyfrifwyd drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles. Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeilio sy'n ymwneud â chost newidiadau adfer a wnaed i adeiladau ar brydles drwy ddarpariaeth a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn y nodwyd y gost, yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarparwyd gan dirfesurwyr annibynnol.

## Nodyn 1 (a): Segmentau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru 2017-18

	Archwilio ariannol	Archwilio perfformiad	Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ffioedd archwilio	(10,687)	(3,419)	-	(14,106)
Grant	-	(5)	-	(5)
Incwm arall	-	-	(11)	(11)
Cyfanswm	(10,687)	(3,424)	(11)	(14,122)
Gwariant	10,851	3,260	6,858	20,969
	<b>164</b>	<b>(164)</b>	<b>6,847</b>	<b>6,847</b>

## 2016-17

	Archwilio ariannol	Archwilio perfformiad	Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ffioedd archwilio	(11,161)	(3,642)		(14,803)
Grant		(433)		(433)
Incwm arall			(25)	(25)
Cyfanswm	(11,161)	(4,075)	(25)	(15,261)
Gwariant	11,118	4,118	6,511	21,747
	<b>(43)</b>	<b>43</b>	<b>6,486</b>	<b>6,486</b>

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cofnodi incwm a gwariant ar ei dwy brif swyddogaeth archwilio y codir ffioedd amdanynt a hefyd ar gyfer gweithgareddau a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.



## Nodyn 1 (b): Dadansoddiad o incwm o ffioedd archwilio

	2017-18			2016-17		
	Archwilio ariannol	Archwilio perfformiad	Cyfanswm	Archwilio Ariannol	Archwilio Perfformiad	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Archwilio Llywodraeth Leol	(5,598)	(2,265)	(7,863)	(5,772)	(2,381)	(8,153)
Ardystio Grantiau Llywodraeth Leol	(1,351)		(1,351)	(1,540)		(1,540)
Y GIG	(1,900)	(1,154)	(3,054)	(2,009)	(1,261)	(3,270)
Archwilio Llywodraeth Ganolog	(1,838)	-	(1,838)	(1,840)		(1,840)
	(10,687)	(3,419)	(14,106)	(11,161)	(3,642)	(14,803)

Pennir y ffioedd a godir am waith archwilio yn unol â [Chynllun Ffioedd](#) y cytunwyd arno gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.

Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW. Caiff y gwerth hwn ei asesu drwy gyfeirio at daliadau amser a cham cwblhau prosiectau.

Caiff incwm gweithredu, p'un a ddaw drwy grantiau uniongyrchol gan y llywodraeth neu ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, ei gredu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff anfonebau a godir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddsbarthu'n incwm gohiriedig (gweler Nodyn 10). Caiff gwaith a wneir cyn i'r incwm gael ei dderbyn ei ddsbarthu'n waith sy'n mynd rhagddo (gweler Nodyn 6). Ni chaiff arian a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru ei ystyried yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth a chaiff ei gredu'n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

## Nodyn 2: Incwm gweithredu arall

	2017-18	2016-17
	£'000	£'000
Incwm gweithredu arall <sup>57</sup>	(11)	(25)
	(11)	(25)

## Nodyn 3: Costau gweithredu eraill

	2017-18	2016-17
	£'000	£'000
Swyddfeydd		
Costau prydlesi rhent	454	453
Costau gweithredu eraill	411	384
Cyflenwadau a gwasanaethau <sup>58</sup>	1,806	1,805
Recriwtio	70	69
Dibrisiant ac amorteiddio	226	204
Ffioedd proffesiynol		
Gwasanaethau archwilio mewnol	43	39
Ffioedd archwilio allanol	38	36
Ffioedd proffesiynol eraill	47	64
Teithio a chynhaliaeth staff	495	512
Hyfforddi a datblygu staff	292	257
	3,882	3,823

Ni chafodd unrhyw wasanaethau nad oeddent yn rhai archwilio eu darparu gan ein harchwilwyr allanol yn 2017-18.

57 Mae incwm gweithredu arall yn cynnwys taliadau am hyfforddiant a ddarperir, defnydd personol o ffonau symudol a thaliadau a ailgodir am luniaeth.

58 Yn cynnwys TAW anadenilladwy. Mae'r holl gyfansymiau eraill yn y nodyn hwn heb gynnwys TAW

## Nodyn 4: Eiddo, offer a chyfarpar

	Dodrefn a ffitiadau	Technoleg gwybodaeth	Offer swyddfa	Cyfanswm
2017-18	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost</b>				
Ar 31 Mawrth 2017	1,329	377	160	1,866
Ychwanegiadau		152		152
Gwarediadau	(27)	(10)	(3)	(40)
Ar 31 Mawrth 2018	1,302	519	157	1,978
<b>Dibrisiant</b>				
Ar 31 Mawrth 2017	949	214	113	1,276
Darparwyd yn ystod y cyfnod	68	67	14	149
Gwarediadau	(27)	(10)	(3)	(40)
Ar 31 Mawrth 2018	990	271	124	1,385
<b>Gwerth llyfr net</b>				
Ar 31 Mawrth 2018	312	248	33	593
Ar 31 Mawrth 2017	380	163	47	590
<b>Ariannu asedau</b>				
A berchenogir	312	248	33	593

	Dodrefn a ffitiadau	Technoleg gwybodaeth	Offer swyddfa	Cyfanswm
2016-17	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost</b>				
Ar 31 Mawrth 2017	1,296	306	132	1,734
Ychwanegiadau	68	86	36	190
Gwarediadau	(35)	(15)	(8)	(58)
Ar 31 Mawrth 2018	1,329	377	160	1,866
<b>Dibrisiant</b>				
Ar 31 Mawrth 2017	907	186	108	1,201
Darparwyd yn ystod y cyfnod	79	43	13	135
Gwarediadau	(37)	(15)	(8)	(60)
Ar 31 Mawrth 2018	949	214	113	1,276
<b>Gwerth llyfr net</b>				
Ar 31 Mawrth 2018	380	163	47	590
Ar 31 Mawrth 2017	389	120	24	533
<b>Ariannu asedau</b>				
A berchenogir	380	163	47	590

Delir asedau sefydlog ar gost wedi'i dibrisio.

O dan bolisi cyfalafu Swyddfa Archwilio Cymru, cyfalafir offer cyfrifiadurol unigol ac wedi'i grwpio a meddalwedd ac offer arall gwerth dros £5,000 a gwaith adnewyddu swyddfa. Cyfrifir dibrisiant o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased.

Byddai gwariant pellach ar asedau sy'n bodloni'r meini prawf cyfalafu hyn yn cael ei gyfalafu ymhellach. Byddai eitemau nad oeddent yn bodloni'r meini prawf hyn yn cael eu trin fel gwariant refeniw yn y flwyddyn.

Darperir dibrisiant ar bob ased eiddo, offer a chyfarpar ac fe'i cyfrifir i ddibrisio cost pob ased, llai'r gwerth amcangyfrifedig dros ben, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Dodrefn a ffitiadau  
(gan gynnwys seilwaith TG)

10 mlynedd (neu oes yr ased neu hyd y brydles ar gyfer ffitiadau mewn adeiladau ar brydles, pa un bynnag sydd fyrraf)

Offer cyfrifiadurol

Tair blynedd

Offer swyddfa

Pum mlynedd

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol nac ar eu cost adnewyddu wedi'i dibrisio. Cynhelir asesiad blynyddol o leihad mewn gwerth er mwyn cadarnhau mai dyma'r achos o hyd.

## Nodyn 5: Asedau anniriaethol (trwyddedau meddalwedd)

Caiff asedau anniriaethol eu datgan ar gost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased (pum mlynedd), pa un bynnag sydd fyrraf). Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.

	Cyfanswm
2017-18	£'000
<b>Cost</b>	
Ar 31 Mawrth 2017	503
Ychwanegiadau	161
Gwarediadau	(1)
Ar 31 Mawrth 2018	<u>663</u>
<b>Amorteiddio</b>	
Ar 31 Mawrth 2017	354
Darparwyd yn ystod y cyfnod	77
Gwarediadau	(1)
Ar 31 Mawrth 2018	<u>430</u>
<b>Gwerth llyfr net</b>	
Ar 31 Mawrth 2018	<u>233</u>
Ar 31 Mawrth 2017	<u>149</u>
<b>Ariannu asedau</b>	
A berchenogir	<u>233</u>

	<b>Cyfanswm</b>
<b>2016-17</b>	<b>£'000</b>
<b>Cost</b>	
Ar 31 Mawrth 2016	479
Ychwanegiadau	32
Gwarediadau	(8)
Ar 31 Mawrth 2017	503
<b>Amorteiddio</b>	
Ar 31 Mawrth 2016	291
Darparwyd yn ystod y cyfnod	71
Gwarediadau	(8)
Ar 31 Mawrth 2017	354
<b>Gwerth llyfr net</b>	
Ar 31 Mawrth 2017	149
Ar 31 Mawrth 2016	188
<b>Ariannu asedau</b>	
A berchenogir	149

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol nac ar eu cost hanesyddol. Cynhelir asesiad blynyddol o leihad mewn gwerth er mwyn cadarnhau mai dyma'r achos o hyd.

## Nodyn 6: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo

Caiff symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo eu prisio ar sail cydnabyddiaeth gychwynol gwerth teg ac yna fe'u mesurir ar sail y gost amorteiddio gan ddefnyddio dull llog effeithiol llai darparu am leihad mewn gwerth.

Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at symiau sy'n daladwy am waith a gwblhawyd lle nad yw'r ffi wedi'i chodi eto neu lle bo'r gwaith a wnaed yn perthyn i gyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif.

Câi darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy ei phennu pan fo tystiolaeth na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu adennill pob swm sy'n ddyledus yn unol â'r contractau.

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Symiau masnach derbyniadwy		
Llywodraeth ganolog	222	161
Llywodraeth leol	276	449
Y GIG	236	178
Y tu allan i'r llywodraeth	4	25
Gwaith sy'n mynd rhagddo		
Llywodraeth ganolog	535	609
Llywodraeth leol	152	704
Y GIG	7	10
	1,432	2,136

Wedi'i gynnwys yn y ffigurau uchod mae swm o £67,000 sy'n ddyledus ond nad oes lleihad mewn gwerth eto. Ni ddisgwylir unrhyw broblemau o ran derbyn y swm hwn yn y pen draw.

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Ni fu angen darpariaeth ar gyfer drwgddyledion na dyledion amheus yn 2017-18 (2016-17: dim angen).



## Nodyn 7: Symiau derbyniadwy eraill

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig <sup>59</sup>	543	546
Benthyciadau i gyflogeion <sup>60</sup>	13	4
	556	550

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

## Nodyn 8: Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys yr holl gronfeydd a ddelir mewn cyfrifon y gall Swyddfa Archwilio Cymru gael gafael arnynt ar unwaith.

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	2,789	2,950
Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	228	(161)
Balans ar 31 Mawrth	3,017	2,789

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Cyfrif cyfredol (Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth)	3,017	2,789
	3,017	2,789

59 Blaendaliadau rhent a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag eiddo yn bennaf.

60 Benthyciadau ar gyfer beiciau a rhagdaliadau ar gyfer cynlluniau aberthu cyflog drwy brydlesi ceir.

## Nodyn 9: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Symiau masnach taladwy (sy'n ddyledus o fewn blwyddyn)	40	431
TAW	77	62
Trethiant a chostau nawdd cymdeithasol	357	352
Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto	474	509
Croniadau eraill <sup>61</sup>	797	899
	1,745	2,253

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at dalu 95% o'r holl anfonebau gan gyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i'w derbyn ac 84% o fewn 10 diwrnod. Yn 2017-18, talwyd 98% o fewn 30 diwrnod a thalwyd 88% o fewn 10 diwrnod.

Mae hawl gwyliau staff yn seiliedig ar y dyddiad y cawsant eu cyflogi. Felly, mae'r gwaith o gyfrifo hawl gwyliau sy'n cronni yn seiliedig ar ben blwydd gwyliau unigol yn hytrach na blwyddyn wyliau sefydlog.

## Nodyn 10: Incwm gohiriedig

Caiff incwm o ffioedd archwilio a gydnabyddir yn ein cyfrifon ei asesu drwy gyfeirio at daliadau amser ac adolygu gwaith sy'n mynd rhagddo. Rydym yn anfonebu am y rhan fwyaf o'n gwaith ar sail rhandaliadau drwy gydol y flwyddyn. Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi'i filio ond sydd heb ei gydnabod eto.

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Incwm gohiriedig	2,556	2,290
	2,556	2,290

<sup>61</sup> Mae'r rhan fwyaf o'r croniadau eraill (£371,000) yn ymwneud ag anfonebau am symiau masnach sy'n daladwy a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae £260,000 yn ymwneud â chyfraniadau pensiwn ar gyfer mis Mawrth 2018, a dalwyd ym mis Ebrill 2018.

## Nodyn 11: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Cydnabyddir darpariaethau lle y gellir amcangyfrif rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo buddiannau economaidd mewn modd dibynadwy.

Caiff darpariaethau eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o'r symiau sydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae effaith gwerth amser arian yn berthnasol, mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar werth presennol y symiau hynny, wedi'u disgowntio yn ôl y gyfradd ddisgowntio cyn-treth sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth. Cydnabyddir y ffaith bod y disgownt wedi dirwyn i ben o fewn treuliau tebyg.

	Dadfeiliadau <sup>62</sup>	Ymdeoliadau cynnar a diswyddiadau <sup>63</sup>	Gadael y cynllun ceir	Incwm Cwmnïau	Cyfansymiau Totals
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 31 Mawrth 2017	631	612	7	-	1,250
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	16	496	-	143	655
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	-	(479)	(5)	-	(484)
Darpariaethau a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn	-	-	(1)	-	(1)
Ar 31 Mawrth 2018	647	629	1	143	1,420

Dadansoddiad o'r amseru disgwylidig:

	Dadfeiliadau	Ymdeoliadau cynnar a diswyddiadau	Gadael y cynllun ceir	Incwm Cwmnïau	Cyfansymiau Totals
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	-	543	1	143	687
Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd	629	86	-	-	715
Dros bum mlynedd	18	-	-	-	18
	647	629	1	143	1,420

<sup>62</sup> Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM fel y nodir yn PES (2017) 10, sef -2.42% ar gyfer balansau o 0-5 mlynedd a -1.85% ar gyfer 5 i 10 mlynedd, i gyfrifo'r balans hwn.

<sup>63</sup> Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM fel y nodir yn PES (2017) 10, sef 0.10%, i gyfrifo'r balans hwn

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau'n rhoi amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fynd iddynt wrth wella'r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydles.

Cronnodd y ddarpariaeth hon drwy dâl dadfeiliadau blynyddol, a gyfrifwyd drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles. Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeilio sy'n ymwneud â chost newidiadau adfer a wnaed i adeiladau ar brydles drwy ddarpariaeth a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn y nodwyd y gost, yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarparwyd gan dirfesurwyr annibynnol.

Mae'r darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau'n cyfeirio at rwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd wedi gadael o dan gynlluniau dileu swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddo.

Mae'r ddarpariaeth cynllun ceir yn adlewyrchu ymrwymiad i ddigolledu staff sydd wedi cytuno i ildio'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â darparu ceir ar brydles a'r lwfans trafndiaeth. Sefydlwyd y ddarpariaeth hon yn 2015-16 a chafodd y mwyafrif helaeth o gyflogeion cymwys daliadau yn 2016-17. Mae'r balans gweddilliol yn ymwneud â chyflogeion nad yw eu trefniadau prydlesu ceir wedi dod i ben eto.

Mae darpariaeth incwm Cwmnïau yn cynrychioli ad-daliad ffioedd sy'n ddyledus i ddau gorff archwiliedig o ganlyniad i oranfonebu mewn cyfnodau blaenorol gan gwmni contractwr.

## Nodyn 12: Prydlesi gweithredu

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru brydlesi gweithredu ar gyfer ceir ac ar gyfer ei swyddfeydd gweithredol. Codir tâl am rentu prydlesi gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydles a dderbynnir eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan annatod o gyfanswm treuliau prydlesi. Lle y cynigir cyfnodau heb rent i Swyddfa Archwilio Cymru o fewn prydlesi, caiff y budd hwnnw ei gredydu ar sail gyson dros y cyfnod o ddechrau'r brydles tan yr adolygiad rhent cyntaf.

Roedd isafswm taliadau prydlesi cyfanredol ar 31 Mawrth 2018 o ran prydlesi ceir na ellir eu canslo:

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	10	34
	10	34

Roedd isafswm taliadau prydlesi cyfanredol ar 31 Mawrth 2018 o ran prydlesi tair swyddfa. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru dair swyddfa weithredol yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele.

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2017
	£'000	Nifer yr eiddo	£'000	Nifer yr eiddo
O fewn blwyddyn	443	3	443	3
Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd	1,735	3	1,774	3
Dros bum mlynedd	79	1	385	3
	2,257		2,602	

Adolygir rhent prydlesi swyddfeydd yn rheolaidd.

Mae IFRS16 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 ond nad yw'n weithredol tan 1 Ionawr 2019 yn ei gwneud yn ofynnol cydnabod pob prydles â chyfnod prydlesu o fwy na 12 mis fel asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol. Nid yw'n hysbys eto a gaiff y safon hon ei mabwysiadu o fewn y FReM; pe byddai wedi cael ei mabwysiadu ar gyfer 2017-18, byddai wedi arwain at gynnydd o £2.435 miliwn mewn asedau a rhwymedigaethau. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar wariant net ar gyfer y flwyddyn ac wedi tybio nad oes unrhyw effaith berthnasol.

### **Nodyn 13: Ymrwymadau cyfalaf**

Roedd ymrwymadau cyfalaf o £28,000 o ran y gwaith ymgynghori oedd yn weddill ar system gyllid newydd a gwblhawyd ym mis Ebrill 2018. (31 Mawrth 2017: Dim).

### **Nodyn 14: Colledion a thaliadau arbennig**

Yn ystod 2017-18 gwnaed colled o £44,000 pan fu angen ad-dalu dau gorff archwiliedig am ffioedd a dalwyd ar gyfer 2014-15 am waith archwilio na chafodd ei gwblhau i safon foddhaol.

Nid oedd unrhyw daliadau arbennig na cholledion i'w datgelu yn 2016-17.

### **Nodyn 15: Deilliadau ac offerynnau ariannol**

Mae IFRS 7 Datgeliadau Offerynnau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth am bwysigrwydd offerynnau ariannol i endid, a natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, mewn termau ansoddol a meintiol. Oherwydd natur gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r swyddfa'n agored i lefel uchel o risg ariannol. Er y gall Swyddfa Archwilio Cymru fenthyca arian at ddibenion ariannu byrdymor, ni fu'n rhaid i'r swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gall Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fuddsoddi arian dros ben, a gwnaed hynny drwy gyfrif sy'n ennill llog dros nos yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r gweithgareddau hyn yn peri unrhyw risgiau ariannol sylweddol.

## **Risg o hylifedd**

O gofio natur ein busnes, ni oddefir lefel uchel o risg o ran rheoli ariannol.

Yn sgîl y chwaeth hon am risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw' Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risgiau sylweddol o ran hylifedd.

## **Risg cyfradd llog**

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risg cyfradd llog.

## **Risg arian cyfred tramor**

Mae'r graddau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risg arian cyfred tramor yn fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian cyfred tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio tramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn wrth gyfrifo'r gwarged gweithredu.

## **Risg o ran credyd**

Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru a chyrrff llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd o dan ddeddfwriaeth yn unol â Chynllun Ffioedd cymeradwy ac felly nid yw'n agored i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

## **Gwerthoedd teg**

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2018 (31 Mawrth 2017: dim).

## Nodyn 16: Trafodion â phartion cysylltiedig

Corff corfforaethol a sefydlwyd o dan statud yw Swyddfa Archwilio Cymru ac mae wedi ymgymryd â thrafodion perthnasol â Chronfa Gyfunol Cymru a chyrrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y'u datgelwyd yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth.

Mae Isobel Garner (Cadeirydd Anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru) yn briod â Phrif Weithredwr cyngor lleol a gaiff ei archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Datgelir hyn er tryloywder, er nad yw'n bodloni'r diffiniad o drafodyn parti cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelod arall o'r pwyllgorau anweithredol nac aelodau allweddol o staff na'u partion cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth (tudalen 71).

## Nodyn 17: TAW

Dim ond cyfran fach o TAW y gall Swyddfa Archwilio Cymru ei hadennill ar ei gwariant gros, sef y gyfran o incwm ffioedd anstatudol o gymharu â chyfanswm yr incwm am y flwyddyn.



## Rhestr Termau<sup>64</sup>

<b>Ar sail croniadau</b>	Cydnabyddir effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill wrth iddynt ddigwydd (ac nid wrth dderbyn neu dalu arian parod neu eitemau sy'n cyfateb i arian parod) ac fe'u cofnodir yn y cofnodion cyfrifyddu ac adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnodau y maent yn berthnasol iddynt.
<b>Amcangyfrif</b>	Ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, yr Amcangyfrif blynyddol o Incwm a Threuliau a gymeradwyir mewn cyfarfod llawn drwy Gynnig Cyllidebol. Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn cyflwyno adroddiad i ategu hyn. Cyfeirir ati hefyd fel y gyllideb gymeradwy.
<b>Amorteiddio</b>	Dosrannu cost ased sefydlog anniriaethol dros ei oes ddefnyddiol.
<b>Ased sefydlog anniriaethol</b>	Ased, megis hawl, na ellir ei gyffwrdd.
<b>Ased sefydlog diriaethol</b>	Ased sefydlog (a elwir hefyd yn ased anghyfredol) â bodolaeth ffisegol. Fe'i defnyddir er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth Ased sefydlog anniriaethol.
<b>Asedau</b>	Rhywbeth y mae'r sefydliad yn berchen arno neu'n ei ddefnyddio ee, offer neu hawliau meddalwedd.
<b>Asedau cyfredol</b>	Ased y disgwylir iddo gael ei drosi'n arian parod o fewn y 12 mis nesaf.
<b>Asedau sefydlog</b>	Ased a ddelir gan sefydliad i'w ddefnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ar sail barhaus fel rhan o weithgareddau'r endid sy'n cyflwyno'r adroddiad. Ymhlith enghreifftiau ceir offer, cerbydau, tir ac adeiladau.
<b>Cronfa Gyfunol Cymru</b>	Y gronfa a ddefnyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol i gadw symiau y pleidleisir arnynt gan y Senedd a gaiff wedyn eu dyrannu drwy Gynnig Cyllidebol i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
<b>Darpariaeth</b>	Atebolrwydd o ran amseru neu swm ansicr.
<b>Dibrisiant</b>	Dosrannu cost ased sefydlog diriaethol dros ei oes ddefnyddiol.
<b>Ecwiti trethdalwyr</b>	Asedau net y sefydliad.
<b>Gwaith sy'n mynd rhagddo</b>	Gwaith a wnaed ac a gydnabuwyd fel incwm yn y cyfrifon nad anfonwyd anfoneb ar ei gyfer eto i'r cleientiaid.
<b>Gwariant cyfalaf</b>	Gwariant ar asedau (sefydlog) anghyfredol.

64 Diffiniadau llawn ar gael yn FReM.

<b>Incwm gohiriedig</b>	Yn cynrychioli incwm a filiwyd ond nas cydnabuwyd eto yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.
<b>Prydlesu</b>	Caffael y defnydd o ased drwy gytundeb rhentu.
<b>Rhagdaliadau</b>	Swm a delir ymlaen llaw megis premiymau yswiriant neu flaendaliadau rhent. Caiff ei gydnabod i ddechrau fel ased, wedyn ei drosglwyddo fel traul yn ystod y cyfnod lle daw'r budd yn weithredol.
<b>Rhwymedigaeth gyfredol</b>	Rhwymedigaeth y disgwylir iddi gael ei setlo o fewn y 12 mis nesaf.
<b>Sail busnes hyfyw</b>	Caiff datganiadau ariannol eu paratoi ar y sail hon gan dybio y bydd y sefydliad yn parhau i weithredu hyd y gellir gweld.
<b>Symiau masnach derbyniadwy</b>	Symiau sy'n ddyledus gan gleientiaid.
<b>Symiau masnach taladwy</b>	Symiau sy'n ddyledus i'w talu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau.

# ATODIADAU

# ATODIAD 1: RHAGLENNI GWAITH A GYFLWYNWYD YN YSTOD 2017-18

## Gwaith archwilio a wnaed mewn cyrff llywodraeth leol

### Archwilio cyfrifon

22 awdurdod unedol  
3 awdurdod tân ac achub  
3 awdurdod parc cenedlaethol  
4 comisiynydd heddlu a throseddu  
4 prif gwnstabl  
8 cronfa bensiwn  
Nifer o gyrff llywodraeth leol llai,  
gan gynnwys cydbwyllgorau ac  
awdurdodau harbwr  
Archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o dros  
735 o gynghorau tref a chymuned

### Astudiaethau a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth

Comisiynu gwasanaethau anableddau  
dysgu gan awdurdodau lleol mewn modd  
strategol  
Gwella llesiant drwy addasu tai  
Sut y mae llywodraeth leol yn rheoli'r  
galw (gwasanaethau digartrefedd)

### Archwiliadau ac asesiadau gwella

22 awdurdod unedol (gan gynnwys adolygiadau  
thematig ynghylch craffu a safbwynt defnyddwyr)  
3 awdurdod tân ac achub  
3 awdurdod parc cenedlaethol

### Gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol

22 awdurdod unedol  
3 awdurdod tân ac achub  
3 awdurdod parc cenedlaethol

### Ardystio ffurflenni a hawliadau grant

Hyd at 20 o gynlluniau sy'n werth bron i  
£3 biliwn ac sy'n ymwneud ag oddeutu 300  
o hawliadau  
Adroddiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

### Astudiaethau sy'n mynd rhagddynt

Gwasanaethau i gymunedau gwledig  
Y defnydd o ddata  
Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal  
Integredig

## Gwaith archwilio a wnaed yng nghyrrff y GIG

### Archwilio cyfrifon

7 bwrdd iechyd lleol  
3 ymddiriedolaeth y GIG  
Cyfrifon cryno'r byrddau iechyd lleol  
Cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG

### Asesiadau strwythuredig

7 bwrdd iechyd lleol  
3 ymddiriedolaeth y GIG  
Cymhariaeth Cymru gyfan o agweddau  
ar lywodraethu

### Gwaith archwilio perfformiad lleol

7 bwrdd iechyd lleol  
3 ymddiriedolaeth y GIG  
Adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Adroddiad er budd y cyhoedd ynghylch  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

### Astudiaethau sy'n mynd rhagddynt

Gwasanaethau meddygon teulu tu allan i  
oriau  
Cynllunio i ryddhau cleifion  
Gwasanaethau gofal sylfaenol  
Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal  
Integredig

### Gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol

7 bwrdd iechyd lleol  
Ymddiriedolaeth GIG Felindre  
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus  
Cymru

## Gwaith archwilio a wnaed mewn cyrff llywodraeth ganolog

Cyfrifon Llywodraeth Cymru

Cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru  
Cyfrif ardrethi annomestig  
Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru  
Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

Cyfrifon cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru  
Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru  
Gofal Cymdeithasol Cymru  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Prif Gyfrif a Chyfrif Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru  
Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru  
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru  
Cymwysterau Cymru

Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

Cwmnïau Llywodraeth Cymru

Hybu Cig Cymru  
Dewis Gyrfa  
Hwb Gwyddorau Bywyd  
Sector Development Wales

Cyfrifon comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr

Comisiynydd Plant Cymru  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
Comisiynydd y Gymraeg  
Estyn  
Cyngor y Gweithlu Addysg  
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Llywodraeth Cymru  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Cyngor Celfyddydau Cymru  
Cyngor Chwaraeon Cymru  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru

## Gwaith archwilio a wnaed er mwyn i'r pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei ystyried

Astudiaethau gwerth am arian sy'n mynd rhagddynt

Rheoli gwastraff (atal gwastraff)  
Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol)  
Systemau Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)  
Mynediad at wasanaethau gyda chymorth gwasanaeth dehongli a chyfieithu arbenigol  
Cyllid busnes  
Gwasanaethau ieuencid  
Gwasanaethau gofal sylfaenol  
Adolygiad o'r dirwedd caffael cyhoeddus  
Rheoli gwastraff (caffael seilwaith trin gwastraff)  
Paratodau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid)  
Datblygiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol  
Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020  
Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014-2020  
Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig  
Caffael Cyhoeddus yng Ngymru  
Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol  
Datganoli Cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratodau ar gyfer gweithredu  
Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru

Adroddiadau cryno sy'n mynd rhagddynt

Myfyrion ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?  
Gwasanaethau Meddygon Teulu y tu allan i Oriau)  
Radioleg (yn gysylltiedig ag adroddiadau NWIS)

Astudiaethau gwerth am arian, adroddiadau cryno ac archwiliadau adweithiol a gwblhawyd

Rhaglen addysg ac ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif  
Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014  
Rhaglen Cefnogi Pobl  
Trefniadau comisiynu ambiwlansys brys  
Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru  
Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i Ynni Sir Gâr Cyf  
Adroddiad er budd y cyhoedd ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Astudiaethau adweithiol ar y gweill

Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood Studio Wales Ltd.  
Costau Asiantaethau GIG

## Gwaith arfer da

### Seminarau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd

Risgiau a reolir yn dda (Rhan 1)  
Gwella arweinyddiaeth a pherchnogaeth ddigidol  
Sut y gall gwahanol ddulliau o ymgysylltu helpu i gynnwys y dinesydd yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus

### Gweminarau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd

Llywodraethu: cefnogi gwelliannau ar draws gwasanaethau cyhoeddus cymhleth  
Integreiddio technoleg gwybodaeth drwy safonau agored  
Meithrin cydnherthedd ariannol mewn gwasanaethau cyhoeddus

### Canllawiau arfer da a baratowyd

Rheoli grantiau

Hwyluso dysgu ar y cyd a chymorth cymunedol yn allanol

Ysgol haf Academi Cymru  
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol  
Arfer Da Cymru  
Canolfan Newid Ymddygiad Cymru, Prifysgol Bangor  
Cydffederasiwn GIG Cymru  
Grwpiau ymarferwyr cydgynhyrchu 'Gweithio Gyda Nid I'  
Cyfranogaeth Cymru  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



## Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

### Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer gwneud datgeliadau chwythu'r chwiban ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol a thwyll, gwerth am arian a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi'r canlynol:

- a nifer y datgeliadau a wnaed i'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn honno sy'n ddatgeliadau cymwys yn ei farn ei<sup>65</sup>;
- b nifer y datgeliadau cymwys y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu gweithredu arnynt;
- c crynodeb o'r mathau o gamau gweithredu y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u cymryd; a
- ch crynodeb o'r ffordd y mae'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi effeithio ar allu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.

Caiff prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu crynhoi yn ein [Cynllun Blynyddol](#) ar gyfer pob blwyddyn ac fe'u disgrifir yn fanylach yn ein [Canllaw i ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru](#).

Yn 2017-18, gwnaeth 31 o bobl ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru, neu eu ffonio, gan ddweud eu bod am wneud datgeliad chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, dim ond mewn 11 o achosion yr oedd gan yr Archwilydd Cyffredinol sail resymol dros gredu bod y datgeliad yn gymwys ac o fewn y materion y mae wedi'i ragnodi mewn perthynas â nhw. Y rheswm dros hyn oedd am na wnaeth unigolion roi manylion eu sefyllfa gyflogaeth, neu roedd yn glir nad oeddent yn gyflogeion nac yn weithwyr cymwys eraill.

<sup>65</sup> Datgeliadau sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn adran 43B o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ac sy'n defnyddio'r diogelwch rhag niwed a ddarperir gan y Ddeddf honno.

O'r 11 o ddatgeliadau a ymddangosai'n gymwys, mewn wyth achos adolygodd y tîm archwilio perthnasol y materion a godwyd, ond nid oeddent yn faterion sylweddol y byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt na chymryd unrhyw gamau eraill yn eu cylch. Yn y tri achos arall, ar ôl i staff archwilio eu hystyried i ddechrau, gwnaed cryn dipyn o waith adolygu pellach neu mae yn yr arfaeth, ac yn un o'r achosion hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n cynnal adolygiad o drefniadau chwythu'r chwiban ar draws awdurdodau. Gall un neu fwy o'r tri achos arwain at gyhoeddi adroddiad.

Yn gyffredinol, lle mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cael gwybodaeth sydd wedi bod yn berthnasol i'w swyddogaethau, mae hyn wedi helpu i lywio ei waith, ac mewn tri achos, mae'r wybodaeth wedi galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i nodi materion y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach.

## Gweithgarwch ymgysylltu a chydweithio

### Darpariaeth gydgyssylltiedig

Menter Twyll Genedlaethol gydag asiantaethau archwilio eraill y DU

Cydweithio ag Estyn i gynnal arolygiadau dilynol o'r Consortia Gwella Addysg Rhanbarthol a'i gynorthwyo i gynnal cynadleddau gwella

Ardystio cyfrifon Cronfeydd Amaethyddol Ewrop yn flynyddol

Cyflawni adolygiad dilynol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Llunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Cydweithio â phartneriaid eraill Arolygu Cymru ar waith ynghylch cymorth i bobl ifanc

### Cymryd rhan fel sylwedydd ar weithgorau allanol

Mae'r rhain yn cynnwys:

Cyngor Partneriaeth Cymru

Bwrdd Rhaglen Weithredu Awdurdod Cyllid Cymru

Fforwm Trethi Cymru y Gweinidog Cyllid

Bwrdd Uned Ddata Llywodraeth Leol

Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella GIG Cymru

Gweithgor Penodiadau Cyhoeddus

Bwrdd Rhaglen Sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru

### Aelodaeth o weithgorau allanol

Mae'r rhain yn cynnwys:

EURORAI

Rhwydwaith y Cyngor Rhyngwladol ar Adrodd Integredig ynghylch Adroddiadau Integredig y Sector Cyhoeddus

Fforwm Archwilio Cyhoeddus

Bwrdd Cod Awdurdodau Lleol CIPFA/LASAAC

Pwyllgor Archwilio'r Sector Cyhoeddus ICAEW

Panel Safonau Archwilio a Chyfrifyddu CIPFA

Menter Arolygu Cymru

Grŵp cyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau ar Ddiwygio Lles a'r Budd-dal Tai ar gyfer arolygiaethau'r DU

Grŵp Cyngori Sector Cyhoeddus y Cyngor Adrodd Ariannol

Cymryd rhan ym Mhrotocol Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG gyda Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

### Gwaith archwilio a gomisiynwyd

Archwilio amrywiaeth o elusennau

Gweithredu fel Prif Archwilydd Llywodraeth Anguilla ac archwilio'i chyfrifon

Grwpiau meincnodi gwastraff masnachol a rheoli gwastraff

# ATODIAD 2: CYNNYDD A WNAED YN YSTOD Y FLWYDDYN TUAG AT GYFLAWNI EIN BLAENORIAETHAU TAIR BLYNEDD

Blaenoriaethau arfaethedig	Pryd	Cynnydd	Sylwadau
Datblygu dull gweithredu, drwy weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	2017- 2018	Ar y trywydd cywir	<p>Caiff cynllun prosiect y flaenoriaeth hon ei oruchwyllo gan Fwrdd Rhaglen sy'n cynnwys pedwar aelod o'n Pwyllgor Rheoli a'i gadeirio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cafodd gwaith archwilio yn myfyrio ar y ffordd mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i gyflwyno'r Ddeddf ei gwblhau ym mhob un o'r 44 o gyrff a restrwyd yn 2017-18. Byddwn hefyd yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith hwn drwy seminar rhanddeiliaid.</p> <p>Mae gwaith peilot ar ddatblygu dull archwilio sy'n ystyrlon, yn gymesur ac yn ychwanegu gwerth ar y trywydd cywir i gael ei gwblhau yn unol â'r amserlen, a chytunwyd ar Femorandwm Cydddealltwriaeth gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gwaith cysylltiedig ar gyfer 2018-19 wedi'i integreiddio yng nghynlluniau archwilio pob corff a restrwyd.</p>
Canolbwyntio ar waith sy'n archwilio trefniadau gweithio mewn partneriaeth rhanbarthol, a threfniadau gweithio mewn partneriaeth eraill, gan gynnwys y rhyngwyneb rhwng darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.	2017- 2019	Ar y trywydd cywir	<p>Ym mis Chwefror 2018, gwnaethom gyhoeddi astudiaeth llywodraeth leol ar wella llesiant drwy wneud Addasiadau i Dai, a wnaeth ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu rhwng sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a thai.</p> <p>Gwnaethom hefyd ddechrau astudiaeth drawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig. Yn ogystal â rôl Llywodraeth Cymru, rydym yn archwilio p'un a yw Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol yn darparu gwasanaeth goruchwyllo effeithiol a'r gwahaniaeth a wneir gan brosiectau a ariennir ar lawr gwlad.</p> <p>Ar sail Canfyddiadau Galwad am Dystiolaeth, rydym wrthi'n cynllunio adolygiad i edrych ar y trefniadau cydweithredol a gweithio rhanbarthol a wnaed er mwyn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p>

Blaenoriaethau arfaethedig	Pryd	Cynnydd	Sylwadau
<p>Atgyfnerthu'r ymgysylltiad â'n gwaith ymhlith pwyllgorau'r Cynulliad, a nodi ffyrdd o wella ein gwaith ar gefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol ymhellach.</p>	<p>2017- 2021</p>	<p>Ar y trywydd cywir</p>	<p>Yn ogystal â'n gwaith ymgysylltu helaeth arferol â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn 2017-18 gwnaethom gyflwyno tystiolaeth ar faterion cyllidebol ac ariannol i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.</p> <p>Gwnaeth ein gwaith archwilio hefyd lywio adroddiad gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar fasnachfaint y rheilffyrdd a metro De Cymru, a gwnaethom weithio gydag ymchwilwyr a chlercod gan gefnogi'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i drafod ein hadolygiad o Weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.</p> <p>Ym mis Medi 2017, cymerodd staff Swyddfa Archwilio Cymru ran mewn digwyddiad rhwydweithio, a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn rhannu profiadau o'r ffordd y mae pwyllgorau cyfatebol yn gweithio ledled y DU a thu hwnt.</p>
<p>Gwella effaith gyfunol gwaith archwilio, arolygu ac adolygu allanol yng Nghymru drwy weithio'n agosach gydag Arolygu Cymru a phartneriaid eraill a thrwy wneud gwell defnydd o wybodaeth ac adnoddau ar y cyd.</p>	<p>2017- 2019</p>	<p>Ar y trywydd cywir</p>	<p>Gyda'n partneriaid yn Arolygu Cymru, gwnaethom barhau i rannu rhaglen waith gytûn ar gyfer y flwyddyn, sy'n canolbwyntio ar wella effaith gyfunol ein gwaith. Maes ffocws penodol yn 2017-18 oedd Cynllunio a chydlynu ein gwaith sy'n edrych ar ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc.</p> <p>Yn 2017-18, am yr ail flwyddyn yn olynol, gwnaethom rannu stonin yn Sioe Frenhinol Cymru â'n partneriaid yn Arolygu Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac ymgysylltu â'r cyhoedd.</p> <p>Fel mentrau ar wahân, gwnaethom hefyd fynychu cyfarfodydd chwarterol rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynwyr Cymru, ac rydym yn parhau i weithio'n agos gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru drwy gyfrannu at gyfarfodydd adolygu tridarn Llywodraeth Cymru.</p>

Blaenoriaethau arfaethedig	Pryd	Cynnydd	Sylwadau
Hwyluso'r gwaith o drawsnewid systemau archwilio yn strategol, drwy wella ein defnydd o ddata a thechnoleg, a'n dulliau cyfathrebu.	2017- 2021	Ar y trywydd cywir	<p>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwnaethom sefydlu Grŵp Dadansoddi Data, wedi'i arwain gan gyfarwyddwr, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu strategaeth dadansoddi data ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Drwy'r broses <a href="#">Amcangyfrif</a>, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo ein defnydd o gyllid i gefnogi'r prosiect tair blynedd hwn, ac rydym eisoes wedi cymryd camau i recriwtio a phenodi arbenigwyr penodedig i gefnogi gwaith ein staff yn y maes hwn.</p> <p>Gwnaethom hefyd ddechrau cynnal prosiect trawsnewid arall yn ystod y flwyddyn, gyda phwyslais penodol ar y ffordd rydym yn adrodd ar ganfyddiadau ein gwaith ac yn ymgysylltu ag eraill.</p>
Diwygio ein model ar gyfer defnyddio adnoddau archwilio wrth baratoi ar gyfer newidiadau sydd i ddod i'n hamgylchedd gweithredu, gan gynnwys, yn arbennig, gyflwyno proses cau cyfrifon llywodraeth leol yn gyflymach.	2017- 2020	Ar y trywydd cywir	<p>Mae gwaith i baratoi ar gyfer cau cyfrifon llywodraeth leol yn gynharach yn mynd rhagddo'n dda. Gwnaethom gyflawni gwaith archwilio pilot pellach mewn grŵp o awdurdodau mwy yn 2017-18, ynghyd â chynnal Seminar Dysgu a Rennir gysylltiedig ym mis Hydref 2017.</p> <p>Gwnaethom hefyd sicrhau arian ychwanegol a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, sef £420,000 dros y tair blynedd nesaf, i gefnogi'r prosiect mawr hwn, a sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein rhaglen o waith archwilio yn amserol.</p> <p>Rydym hefyd wedi parhau i gymryd camau i symleiddio ein dull archwilio yn fwy cyffredinol dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys drwy gysoni ein rhaglenni archwilio ariannol ac archwilio perfformiad yn agosach a'r ffordd y caiff adnoddau eu defnyddio i gyflawni'r gwaith hwnnw.</p>

Blaenoriaethau arfaethedig	Pryd	Cynnydd	Sylwadau
Mireinio ein strategaeth pobl ac ysgogi newid diwylliant o fewn Swyddfa Archwilio Cymru drwy ymgorffori fframwaith newydd o werthoedd ac ymddygiadau cytûn.	2017- 2018	Cwblhawyd	<p>Yn ystod 2017-18, gwnaethom ddatblygu <a href="#">Strategaeth Pobl</a> ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a gafodd ei lansio wedyn ym mis Ebrill 2018 yn dilyn cyfnod o ymgynghori â staff. Un o themâu canolog y strategaeth yw ymgorffori fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau sy'n diffinio ein diwylliant sefydliadol a'n credoau craidd.</p> <p>Rydym wedi sefydlu tri grŵp a arweinir gan Gyfarwyddwyr, sydd â diddordeb penodol mewn diwylliant, datblygu pobl a chydaddoldeb, er mwyn goruchwyllo a monitro'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth.</p>
Llunio a chymhwyso cynlluniau gweithredu sy'n anelu at leihau ein bylchau cyflog cyffredinol yn ôl rhywedd, oedran ac ethnigrwydd a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau newydd y Gymraeg.	2017- 2018	Cwblhawyd	<p>Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cynnydd blynyddol ar Gydraddoldeb ar gyfer 2016-17 ym mis Medi 2017, a oedd yn cynnwys ymrwymiad i ymdrin â'r adborth a gafwyd o grŵp ffocws staff, a edrychodd ar ffyrdd o leihau'r bylchau cyffredinol mewn cyflog, drwy ddatblygu ein Strategaeth Pobl newydd.</p> <p>Yn ystod ail hanner 2017-18, gwnaethom wedyn ddatblygu <a href="#">Cynllun Cydraddoldeb Strategol</a>, ymgynghori arno'n allanol a'i gyhoeddi. Mae'r Cynllun yn cynnwys dau amcan cydraddoldeb yn benodol i fynd i'r afael â bylchau mewn cyflog.</p> <p>Hefyd, yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd sylweddol i sicrhau cydymffurfio â Safonau cymwys y Gymraeg. Mae ein prif flaenoriaethau yn y maes hwn yn cynnwys darparu cyfleoedd dysgu carlam, ynghyd â chyfleoedd pellach i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.</p>

Blaenoriaethau arfaethedig	Pryd	Cynnydd	Sylwadau
<p>Datblygu cynigion i symleiddio a gwella costeffeithiolrwydd trefniadau cyllid Swyddfa Archwilio Cymru, i'w hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol.</p>	<p>Mawrth 2018</p>	<p>Cwblhawyd</p>	<p>Ym mis Mehefin 2017, gwnaethom gyhoeddi <a href="#">Papur Ymgynghori</a> yn egluro pam bod trefn ffioedd bresennol Swyddfa Archwilio Cymru yn rhy gymhleth ac yn ceisio barn ar ffyrdd o'i symleiddio.</p> <p>Cawsom ymatebion i'r ymgynghoriad o blith yr holl gyrrff cyhoeddus a archwiliwn. Gan ystyried yr ymatebion hynny, gwnaethom wedyn baratoi adroddiad <a href="#">Achos dros Newid</a> a gyhoeddwyd gennym ym mis Hydref 2017 i'w ystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol.</p> <p>Ystyriodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yr adroddiad, gan gymryd tystiolaeth ar 15 Mawrth 2018. Rydym wedi croesawu'n fawr iawn barodrydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol i ystyried y mater hwn, ac edrychwn ymlaen at barhau i drafod â'r Pwyllgor i weld sut y gellir datblygu'r mater hwn.</p>



Blaenoriaethau arfaethedig	Pryd	Cynnydd	Sylwadau
- 14 Mae'r rhai sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i wynebu gostyngiadau parhaus i'w cyllidebau blynyddol mewn termau real. Ar yr un pryd, maent yn ceisio bodloni cynnydd yn nisgwyladau'r cyhoedd ac awydd gan ddefnyddwyr i gael eu cynnwys mwy yn y broses o ddylunio gwasanaethau; ymdrin â newidiadau mewn gofynion demograffig, a chynnal a gwella'r gwasanaeth a ddarperir.
- 15 Mae angen i wasanaethau cyhoeddus gyflwyno newidiadau radical i'r modd y maent yn darparu gwasanaethau os ydynt am adeiladu'n effeithiol ar yr ymagwedd fwyfwy cydweithredol sy'n cael ei mabwysiadu yng Nghymru. Mae disgwyl i lawer o arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus gyflwyno toriadau dyfnach i wasanaethau, felly mae angen ymagwedd fwy cyfannol a hirdymor i liniaru'r effaith ar y cyhoedd.

## Mae'r tirlun yn parhau i esblygu o ran gwleidyddiaeth a pholisi

- 16 Mae ystod eang o ffactorau polisi a gwleidyddol yn debygol o ddylanwadu'r modd yr ydym yn cyflenwi ac yn darparu adnoddau ar gyfer ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

## Goblygiadau Brexit

- 17 Mae'n anodd o hyd cynnal asesiad llawn o'r effaith y bydd 'Brexit' yn ei chael ar arian cyhoeddus Cymru ac ar ein gwaith. Fodd bynnag, mae bellach yn ymddangos yn debygol y bydd trefniadau cyfredol yr UE ar gyfer cyllid amaethyddol a'r gwaith archwilio cysylltiedig yn parhau y tu hwnt i'r tair blynedd nesaf.

## Datganoli cyllidol

- 18 Mae **datganoli cyllidol** yn cyfeirio at drosglwyddo rhai pwerau codi treth a benthyca o San Steffan i Gymru. Bydd Awdurdod Refeniw Cymru yn dechrau casglu'r ddwy dreth newydd a ddatganolir i Gymru o 1 Ebrill 2018 a chyflwynir cyfradd treth incwm i Gymru ym mis Ebrill 2019. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn archwilio'r trefniadau newydd hyn, gan gydweithio'n agos â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol lle y bo'n briodol.

## Cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol

- 19 Ar 20 Mawrth 2018, lansiodd Ysgrifenydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd sy'n amlinellu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu llywodraeth leol, gan gynnwys drwy uno a chreu awdurdodau unedol mwy. Ochr yn ochr â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r heriau ynghylch llywodraethu ym maes llywodraeth leol yn cynyddu yng Nghymru.

## Y gofyniad i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynharach

- 20 Bydd y dyddiadau ar gyfer paratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn cael eu symud ymlaen erbyn 2020-21.

## Cyflwyno'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)

- 21 Yn sgil y RhDDC ceir gofynion newydd ar gyfer prosesu data personol ar draws yr UE ar gyfer pob corff cyhoeddus, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgorffori'r RhDDC i gyfraith y DU, a ddaw i rym ar 25 Mai 2018.

## Datblygiadau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- 22 Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff a archwilir gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffyrdd sylfaenol wahanol. Bydd hefyd angen i'n gwaith archwilio yn y dyfodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ystyried yn llawn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018.

## Erbyn hyn mae'n ofynnol i drefniadau llywodraethu fod yn ehangach eu cwmpas

- 23 Mae'r Cynulliad wedi gosod gofynion cyfreithiol ar y sector cyhoeddus yng Nghymru i gryfhau trefniadau llywodraethu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy diffiniedig. Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i gynyddu eu cyfraniad at gyflawni'r holl nodau llesiant hyd yr eithaf, a chymryd camau wedyn i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion hynny.

- 24 Daeth y dyletswyddau llesiant a osodwyd ar y 44 o gyrff cyhoeddus rhestredig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i rym ar 1 Ebrill 2016. Cafodd amcanion llesiant cyntaf y gyrff hynny eu gosod a'u cyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2017. Mae'n ofynnol i gyrff rhestredig adrodd yn flynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion.
- 25 O dan Adran 15 y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio'r graddau y mae'r gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant, ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

## Rydym yn byw mewn cymdeithas sydd wedi'i rhwydweithio fwyfwy

- 26 Mae datblygiadau sylweddol ym maes technoleg gwybodaeth yn arwain at ddefnyddio mwy a mwy o dulliau digidol i ddarparu sawl agwedd ar wasanaethau, mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd gael gafael ar ddata, a chyfleoedd a ffyrdd newydd o ryngweithio gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol eraill.
- 27 Mae trawsnewid a chynhwysiant digidol yn rhan hollbwysig o gynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch ac ystyrlon i'w defnyddwyr, ac i gyflawni canlyniadau gwell.
- 28 Mae cymdeithas sydd wedi'i rhwydweithio fwyfwy yn cyflwyno goblygiadau i fwy na'r gyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio yn unig. Y mae hefyd yn cael effaith eithaf sylweddol ar asiantaethau archwilio a chyrrff arolygu allanol eraill. Mae angen i ni wybod hefyd am y datblygiadau technolegol diweddaraf a gwella ansawdd ein gwaith drwy fanteisio ar ffyrdd newydd o gasglu data a chudd-wybodaeth, gan adrodd ar ein canfyddiadau a chynyddu'r ymwybyddiaeth o'n gwaith a'r ymgysylltu â'n gwaith hyd yr eithaf.

# Ein blaenoriaethau strategol

29 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu, gosodwyd y blaenoriaethau strategol a ganlyn yn sail i'n Cynllun ar gyfer cyflawni ein rhaglenni gwaith yn ystod 2018-19 a thros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2018 a 2021.


## Ein blaenoriaethau strategol

	Integreiddio dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein trefniadau ar gyfer rhoi ein rhaglenni gwaith archwilio ar waith.
	Archwilio darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus integredig yng Nghymru o safbwynt pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.
	Cryfhau'r graddau y mae pwyllgorau'r Cynulliad yn ymgysylltu â'n gwaith a chanfod ffyrdd o wella ein gwaith i gefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol.
	Gwella effaith gyfunol archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau allanol yng Nghymru drwy rannu cudd-wybodaeth ac adnoddau yn well.
	Ymgysylltu ag asiantaethau archwilio eraill yn y DU ac yn rhyngwladol er mwyn rhannu a goleuo arfer gorau a chudd-wybodaeth.
	Gwella darllenadwyedd a hygyrchedd ein cynnyrch archwilio er mwyn cynyddu eu cyrhaeddiad a'u heffaith hyd yr eithaf.
	Defnyddio egin-dechnoleg i wella'r modd yr ydym yn canfod, yn caffael ac yn dadansoddi data, a'r modd yr ydym yn cyflwyno ac yn darlunio ein canfyddiadau.
	Mabwysiadu dulliau gweithio newydd er mwyn darparu gwasanaeth archwilio effeithlon sy'n addas i'r dyfodol wrth i'n hamgylchedd gweithredu newid.
	Cyflwyno strategaeth pobl sy'n ymateb i ganlyniadau ein harolwg staff, yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac yn galluogi ein staff i ragori yn eu gwaith.
	Gwella'r modd yr ydym yn rheoli gwybodaeth a data, gan gynnwys ymateb yn effeithiol i'r broses o gyflwyno'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

### Tudalen y pecyn 200

# Ein rhaglenni gwaith arfaethedig

30 Gellir rhannu ein rhaglenni gwaith arfaethedig ar gyfer 2018-19 yn chwe adran, sydd wedi'u halinio â'n hamcanion, fel y dangosir isod. Mae ein blaenoriaethau strategol yn tanategu'r rhain .



31 Mae a wnelo pedair rhan gyntaf y Cynllun â rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Amlinellir blaenoriaethau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2018-19 wrth gyflawni ei swyddogaethau yn yr atodiadau a ganlyn:

**Atodiad 1 - Prosiectau archwilio**

**Atodiad 2 - Gwaith ar arferion da**

**Atodiad 3 - Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol**

**Atodiad 4 - Ymgysylltu a gweithgarwch ar y cyd**

32 Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, byddwn yn gofyn am farn y cyhoedd ac amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid er mwyn llywio ein ffordd o feddwl am gynnwys rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol y tu hwnt i 2018-19.



- 33 Yn nwy ran olaf y Cynllun, trafodir rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru. Yn yr atodiadau a ganlyn, amlinellir blaenoriaethau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018-19 wrth gyflawni ei swyddogaethau:


**Atodiad 5 - Ein trefniadau llywodraethu ac arwain**

**Atodiad 6 - Ein pobl a'n cyllid**

- 34 Bwriedir defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, a'r adnoddau a allai ddod ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r **Amcangyfrif o Incwm a Threuliau ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben ar 31 Mawrth 2019**, i gyflawni'r rhaglenni gwaith hyn.

# Mesur ac adrodd ar ein perfformiad

- 35 Yn 2018-19, a thros y tair blynedd nesaf, byddwn yn defnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur, adrodd a myfyrio ar ein perfformiad a'n risgiau. Bydd hyn yn cynnwys adrodd yn rheolaidd wrth ein Bwrdd a'n Pwyllgor Rheoli ar ein cynnydd tuag at gyflawni ein blaenoriaethau ac at gyrraedd ein targedau dangosydd perfformiad allweddol. Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i'n Pwyllgor Rheoli a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
- 36 Byddwn yn rhoi pwyslais neilltuol ar werthuso ein cyfeiriad a chyflymder ein gwelliannau, ochr yn ochr â chymharu a threfniadau meincnodi priodol.
- 37 Byddwn yn adrodd yn allanol ar ein perfformiad drwy ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac Adroddiad(au) Interim, a thrwy ddarparu tystiolaeth yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.
- 38 Rydym wedi adolygu a diwygio ein fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol wrth baratoi'r Cynllun hwn, sydd bellach wedi'i alinio'n gliriach â'n hamcanion cyffredinol.



- 39 Wrth ddatblygu ein cyfres o dargedau cyfeiriwyd at y lefelau perfformiad cyfredol, meincnodau allanol priodol a'n dyheadau ein hunain o ran gwella. Bydd y targedau'n destun gwaith craffu a mireinio pellach yn ystod 2018-19 er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon heriol, ond hefyd yn gyflawnadwy o fewn y graddfeydd amser a nodir.

## Atodiad 7 - Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau

# Atodiad 1 – Prosiectau archwilio

## Gwaith archwilio i'w gyflawni mewn cyrff llywodraeth leol

Mae rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol yn cynnwys ystod eang o gyrff, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parc cenedlaethol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstablaid, cronfeydd pensiwn llywodraeth leol a chynghorau tref a chymuned. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, ardystio hawliadau a ffurflenni, archwiliadau ac asesiadau gwella, astudiaethau llywodraeth leol a gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

### Archwilio cyfrifon

22 o awdurdodau unedol  
3 awdurdod tân ac achub  
3 awdurdod parc cenedlaethol  
4 comisiynydd heddlu a throseddu  
4 prif gwnstabl  
8 cronfa pensiwn  
Nifer o gyrff llywodraeth leol llai, gan gynnwys cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr  
Archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o 735 o gynghorau tref a chymuned

### Astudiaethau llywodraeth leol

Gwasanaethau i gymunedau gwledig  
Defnydd o ddata  
Ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol  
Gwerth am arian y gwasanaethau cynllunio  
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014  
Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig

### Archwiliadau ac asesiadau gwella

22 o awdurdodau unedol  
3 awdurdod tân ac achub  
3 awdurdod parc cenedlaethol

### Gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol

22 o awdurdodau unedol  
3 awdurdod tân ac achub  
3 awdurdod parc cenedlaethol

### Ardystio ffurflenni a hawliadau grant

Hyd at 22 o gynlluniau sy'n werth bron £3 biliwn ac sy'n ymwneud ag oddeutu 175 o hawliadau unigol

## Gwaith archwilio yng nghyrrff y GIG

Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar draws GIG Cymru yn cynnwys pob un o'r saith bwrdd iechyd a'r tair o ymddiriedolaethau'r GIG, yn ogystal â gwaith yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Iechyd Arbennig newydd, Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyfrifon blynyddol pob corff o fewn y GIG, ac yn adrodd yn gyhoeddus ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau, ac a yw cyrff rhestredig yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

### Archwilio cyfrifon

7 bwrdd iechyd lleol  
3 ymddiriedolaeth y GIG  
Cyfrifon cryno bwrdd iechyd lleol  
Cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG  
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

### Asesiadau strwythuredig

7 bwrdd iechyd lleol  
3 ymddiriedolaeth y GIG  
Cymhariaeth Cymru Gyfan o agweddau ar lywodraethu  
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

### Gwaith archwilio ar berfformiad lleol

7 bwrdd iechyd lleol  
3 ymddiriedolaeth y GIG  
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

### Astudiaethau iechyd

Gwasanaethau orthopaedig (gwaith dilynol)  
Codio clinigol (gwaith dilynol)  
Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig

### Gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol

7 bwrdd iechyd lleol  
Ymddiriedolaeth GIG Felindre  
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Gwaith archwilio i'w gyflawni mewn cyrff llywodraeth ganolog

Mae'r sector llywodraeth ganolog yng Nghymru yn cynnwys ystod amrywiol o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, swyddfeydd comisiynwyr statudol amrywiol, arolygwyr a rheoleiddwyr a Chomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn wahanol i gyrff iechyd a llywodraeth leol, nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad ym mhob corff llywodraeth ganolog. Yn lle hynny, mae'n rhoi barn flynyddol ar eu cyfrifon yn unig, ac ar gyfer cyrff rhestredig mae'n cyflawni gwaith archwilio yn gysylltiedig â llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Ar hyn o bryd, mae gwaith archwilio perfformiad arall a gyflawnir o fewn y sector hwn yn rhan o'i raglen o astudiaethau gwerth am arian.

#### Cyfrifon Llywodraeth Cymru

Cyfrifon cyfnerthedig Llywodraeth Cymru  
Cyfrif ardrethu annomestig  
Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru  
Cymeradwyo taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru

#### Cwmnïau Llywodraeth Cymru

Hybu Cig Cymru  
Dewis Gyrfa  
Hwb Gwyddorau Bywyd  
Sector Development Wales

#### Cyfrifon cyrff a noddir gan Llywodraeth Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru  
Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Prif Gyfrifon a Chyfrifon Ymddiriedolaeth  
Cyngor Chwaraeon Cymru  
Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru  
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru  
Cymwysterau Cymru

#### Cyfrifon comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr

Comisiynydd Plant Cymru  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
Comisiynydd y Gymraeg  
Estyn  
Cyngor y Gweithlu Addysg  
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol  
Gofal Cymdeithasol Cymru

#### Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

#### Gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol

Gweinidogion Cymru  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Cyngor Celfyddydau Cymru  
Cyngor Chwaraeon Cymru  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru

#### Adrannau Anweinidogol

Awdurdod Refeniw Cymru

## Gwaith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae'r rhaglen hon o waith archwilio yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, paratoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio ar draws amryw o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog ac/neu lywodraeth leol, ac archwiliadau a gynhelir mewn ymateb i faterion sy'n peri pryder i'r cyhoedd ac a nodir drwy ein gwaith archwilio, neu a godir gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Mae cynnyrch rhan helaeth o'r rhaglen hon yn ategu gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a phwyllgorau eraill y Cynulliad.

Mae'r rhaglen waith yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau newidiol. Mae'n bosib y ceir cynnyrch ychwanegol hefyd yn ystod 2018-19 yn sgil gwaith dilynol ar bynciau archwilio blaenorol, o archwiliadau a geir mewn ymateb i faterion sy'n peri pryder i'r cyhoedd neu'r senedd neu o raglenni gwaith archwilio lleol pan fydd materion neu wersi i'w dysgu sydd yn berthnasol ar raddfa ehangach.

### Astudiaethau gwerth am arian

Mynediad at wasanaethau cyhoeddus gyda chefnogaeth gwasanaeth dehongli a chyfieithu arbenigol  
Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol)  
Rheoli Gwastraff (atal gwastraff)  
Rheoli gwastraff (caffael seilwaith trin gwastraff)  
Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020  
Cyllid Busnes  
Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020  
Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig  
Datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid)  
Cynyddu llesiant pobl ifanc  
Gwasanaethau gofal sylfaenol

### Adroddiadau cryno ac allbynnau

Radiolog  
Gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau  
Apwyntiadau cleifion alanol (gwaith dilynol)  
Gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol (sylwebaeth blwyddyn un)  
Menter Twyll Genedlaethol 2016-17

### Archwiliadau adweithiol

Costau asiantaethau i'r GIG  
Pinewood Studios Wales

## Atodiad 2 – Gwaith ar arferion da

Drwy ein **Cyfnewidfa Arfer Da** rydym yn darparu adnoddau rhad ac am ddim ar-lein sy'n galluogi'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, llunwyr polisi a phenderfynwyr gyrchu gwybodaeth fydd yn cynyddu eu dealltwriaeth.

Ffocws allweddol ein gwaith ar arferion da yw hwyluso trafodaethau rhwng darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth lle bydd gwersi a ddysgwyd yn sgil llwyddiannau a methiannau cymharol yn cael eu rhannu wyneb yn wyneb. Yn gynyddol, rydym yn anelu i gyflwyno safbwyntiau a phrofiadau arbenigwyr byd-eang i'r trafodaethau hyn.

Mae ein rhaglen o seminarau a gweminarau ar gyfer dysgu ar y cyd yn hyblyg, a bydd testunau pellach yn cael eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn.

### Seminarau Dysgu ar y Cyd

Defnyddio digidol i wella bywydau unigolion  
Adeiladu Cymunedau Cydnerth  
Gwaith partneriaeth rhwng cyrff gwirfoddol a chyrrff o'r sector cyhoeddus  
Modelau cyflenwi eraill  
Atal Derbyniadau i'r Ysbyty  
Pobl Ifanc – profiadau pobl 16 i 25 oed o ran cyrchu a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

### Gweminarau Dysgu ar y Cyd

Caffael cynaliadwy  
Symud o allbynnau i ganlyniadau  
Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod  
Defnyddio data'n effeithiol  
Archwilio Ariannol – Cau cyfrifon llywodraeth leol yn fuan  
Seiberddiogelwch – trefniadau llywodraethu

### Canllawiau arfer da

Rheoli grantiau

Hwyluso dysgu a rennir yn allanol a chymorth cymunedol

Ysgol haf Academi Cymru  
Cartrefi Cymunedol Cymru  
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol  
Arfer Da Cymru  
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr  
Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Un Llais Cymru  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Canolfan Newid Ymddygiad Cymru, Prifysgol Bangor  
Comisiynydd y Gymraeg  
Confederasiwn GIG Cymru  
Gweithio gyda grwpiau ymarferwyr cyd-gynhyrchu Not To



# Atodiad 3 – Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Cynulliad

Mae ein gwaith yn chwarae rhan allweddol o ran cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth iddo ystyried materion sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall ein gwaith hefyd, pan fo'n briodol, lywio gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol a chanddynt gylch gwaith ehangach sy'n cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

Yn ystod 2018-19, byddwn yn parhau i ddarparu sesiynau briffio rheolaidd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gynnwys adroddiadau cyhoeddedig yr Archwilydd Cyffredinol, a fydd yn helpu'r Pwyllgor i bennu ei gamau gweithredu dilynol. Byddwn hefyd yn darparu mwy o gyngor a chymorth i'r Pwyllgor fel y bo angen, yn enwedig mewn perthynas â:

- a datblygu briffiau aelodau ar gyfer sesiynau tystiolaeth gyda thystion o Lywodraeth Cymru ac o sefydliadau eraill;
- b datblygu adroddiadau'r Pwyllgor; a
- c rhoi cyngor ynghylch pa mor ddigonol yw ymatebion ffurfiol Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiadau'r Pwyllgor.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn mynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio'r prif gyrff yr ydym yn eu harchwilio er mwyn rhoi adroddiadau a'u briffio'n rheolaidd ar ein gwaith archwilio.

Byddwn hefyd yn rhoi mwy o gyngor a chymorth i bwyllgorau archwilio a chraffu, fel y bo'n berthnasol, yn enwedig mewn perthynas â:

- a rhoi cymorth ac arweiniad i gadeiryddion pwyllgorau i'w cefnogi i fod yn fwy effeithiol yn eu rôl; a
- b darparu cyfleoedd seminar ar arferion da a sesiynau codi ymwybyddiaeth i aelodau'r pwyllgor ar faterion sy'n arbennig o berthnasol.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig lleol

Rydym yn derbyn **gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd**, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch y modd y caiff arian ac asedau cyhoeddus eu gwarchod. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn 'unigolyn rhagnodedig' ar gyfer codi pryderon chwythu'r chwiban ynghylch ymddygiad priodol busnes cyhoeddus a thwyll, gwerth am arian a llygredd o ran gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.

Yn ystod 2018-19, byddwn yn parhau i wneud yn siŵr ein bod yn:

- a ymateb i bryderon y cyhoedd yn brydlon, ac mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol;
  - b gwerthfawrogi pwysigrwydd y materion i'r bobl hynny sydd wedi rhoi o'u hamser i dynnu sylw atynt;
  - c cyhoeddi adroddiadau archwilio pan ystyriwn fod gwerth gwneud hynny; a
- ch sicrhau nad ydym yn defnyddio arian cyhoeddus i edrych ar faterion nad ydynt yn berthnasol i'n gwaith archwilio, nac yn treulio gormod o amser ar faterion dibwys.

# Atodiad 4 – Ymgysylltu a gweithgarwch ar y cyd

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwmo i ymgysylltu'n effeithiol a rhanddeiliaid yn sail ar gyfer datblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, cynyddu ei berthnasedd hyd yr eithaf ac ymestyn ei gyrhaeddiad a'i effaith.

Rydym hefyd wedi ymrwmo i weithio'n agos â'r holl asiantaethau archwilio eraill yn y DU drwy'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, a chyda'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru drwy fenter Arolygu Cymru, i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus, ac effaith gyfunol ein holl waith. Rydym ni hefyd yn falch o gynrychioli Cymru ar y llwyfan archwilio rhyngwladol o bryd i'w gilydd.

Gall Swyddfa Archwilio Cymru wneud trefniadau i'r Swyddfa ei hun neu'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau i rai mathau o gyrff, neu gyflawni swyddogaethau'r cyrff hynny, yn y DU a thramor. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y dylai unrhyw weithgarwch o'r fath allu ariannu ei hun, ac na ddylid ei gyflawni ar draul ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

### Darpariaeth gydgyssylltiedig

Mae'r hyn yn cynnwys:

Menter Twyll Genedlaethol gydag  
asiantaethau archwilio eraill y DU  
Cydwethio ag Estyn i gynnal arolygiadau  
dilynol o'r Consortia Gwella Addysg  
Rhanbarthol a'i gynorthwyo i ddarparu  
cynaladeddau gwella  
Ardystio cyfrifon Cronfa Amaethyddol Ewrop  
yn flynyddol  
Llunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth â  
Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

### Cymryd rhan fel sylwedydd ar weithgorau allanol

Mae'r hyn yn cynnwys:

Cyngor Partneriaeth Cymru  
Bwrdd Rhaglen Weithredu Awdurdod  
Cyllid Cymru  
Fforwm Trethi Cymru y Gweinidog Cyllid  
Bwrdd Uned Data'r Llywodraeth Leol  
Grŵp Gwella Effeithlonrwydd,  
Gofal Iechyd a Gwerth GIG Cymru  
Gweithgor Penodiadau Cyhoeddus  
Bwrdd Gweithredu Rhaglen Addysg a  
Gwella Iechyd Cymru  
Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a  
Gwerth Cymru – Bwrdd Adolygu Trosolwg

### Aelodaeth o weithgorau allanol

Mae'r hyn yn cynnwys:

EURORAI  
Rhwydwaith Arloesi Sector Cyhoeddus y  
Cyngor Rhyngwladol ar Adrodd Integredig  
Fforwm Archwilio Cyhoeddus  
Bwrdd Cod Awdurdodau Lleol  
CIPFA/LASAAC  
Pwyllgor Archwilio'r Sector Cyhoeddus  
ICAEW  
Panel Safonau Archwilio a Chyfrifyddu CIPFA  
Menter Arolygu Cymru  
Grŵp cyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau  
ar Ddiwygio Lles a'r Budd-dal Tai ar gyfer  
arolygiaethau'r DU  
Grŵp Cyngori Sector Cyhoeddus y Cyngor  
Adrodd Ariannol  
Cymryd rhan mewn Protocol Uwchgyfeirio ac  
Ymyrryd gyda Llywodraeth Cymru ac  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Cynghrair Archwilwyr yr OECD

### Gwaith archwilio a gomisiynwyd

Archwilio amrywiaeth o elusennau  
Gweithredu fel Prif Archwilydd Llywodraeth  
Anguilla ac archwilio'r cyfrifon  
Grwpiau meincnodi gwastraff masnachol a  
rheoli gwastraff

# Atodiad 5 – Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

Fel y rhagnodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae gennym aelodau anweithredol a gweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd ag aelodau etholedig o blith y cyflogeion sy'n rhoi mewnwelediad a phrofiad ychwanegol.

## MAE'R BWRDD YN GYFRIFOL AM Y CANLYNOL...

Monitro arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

Rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol

Cyflogi staff a darparu adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r  
Archwilydd Cyffredinol

Codi ffioedd am waith a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol

Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi cynllun blynyddol  
ac amcangyfrif o incwm a chostau

Mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n gweithredu fel pwyllgorau ymgynghorol: Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phwyllgor Tâl ac AD.

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hefyd Bwyllgor Rheoli er mwyn darparu llinellau adrodd ac atebolrwydd clir, a galluogi'r Archwilydd Cyffredinol, drwy ei waith, i hysbysu'r cyhoedd a dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol.

Dyma flaenoriaethau rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018-19 o ran ei drefniadau llywodraethu ac arwain:

- a rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod swyddi Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phrif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol yn dilyn ymddeoliad Huw Vaughan Thomas;
- b defnyddio map sicrwydd newydd y Bwrdd, sy'n alinio rheolaethau perthnasol a ffynonellau sicrwydd â gofynion gwybodaeth y Bwrdd, er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn gadarn a chynhwysfawr;
- c goruchwyllo'r broses o weithredu prosiectau trawsnewid sefydliadol allweddol, gan ystyried p'un a ellir gwneud newidiadau i'r canlynol:
  - i y ffordd rydym yn ymgymryd â'n gwaith yn draddodiadol;
  - ii y ffordd rydym yn defnyddio technolegau sy'n dod i'r amlwg;
  - iii y ffordd rydym yn ymdrin â data ac yn eu rheoli; ac
  - iv y ffordd rydym yn cyfleu canfyddiadau ein gwaith.
- ch lansio Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a gwneud trefniadau i sicrhau y gwneir cynnydd da yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb diwygiedig; ac
- d archwilio sut y gallwn gyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni'r saith nod llesiant yng Nghymru.

## Ein Bwrdd



**Alison Gerrard**

Aelod  
Anweithredol



**Amanda Hughes**

Aelod a etholwyd  
o blith y staff



**Bill Richardson**

Aelod  
Anweithredol



**Huw Vaughan  
Thomas**

Archwilydd  
Cyffredinol,  
a'r Prif Weithredwr



**Isobel Garner**

Y Cadeirydd



**Kevin Thomas**

Aelod o staff a  
benodwyd



**Lindsay Foyster**

Aelod  
Anweithredol



**Louise Fleet**

Aelod a etholwyd  
o blith y staff



**Steven Burnett**

Aelod  
Anweithredol

## Ein Pwyllgor Rheoli



**Anthony Barrett**

Archwilydd  
Cyffredinol  
Cynorthwyol



**Huw Vaughan  
Thomas**

Archwilydd  
Cyffredinol,  
Swyddog Cyfrifyddu  
a'r Prif Weithredwr



**Jane Holownia**

Arweinydd Sector,  
Llywodraeth Leol  
a Chyfiawnder  
Troseddol



**Kevin Thomas**

Cyfarwyddwr  
Gwasanaethau  
Corfforaethol



**Mike Usher**

Arweinydd  
Sector, Iechyd  
a Llywodraeth  
Ganolog



**Steve  
O'Donoghue**

Cyfarwyddwr  
Cyllid ac AD



# Atodiad 6 – Ein pobl a'n cyllid

## Ein pobl

Ym mis Ebrill 2018, byddwn yn lansio strategaeth pobl newydd, o'r enw 'GWYCH gyda'n gilydd', i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth, ein nod a'n hamcanion cyffredinol. Mae'r strategaeth wedi'i hategu gan ymddygiadau dymunol Swyddfa Archwilio Cymru: bod yn ddiffuant, yn barchus, yn egnïol, yn barod i addasu ac yn hawdd ymddiried ynom.

Yn ystod mis Hydref 2017, cynhaliom arolwg staff newydd er mwyn ceisio cael dealltwriaeth wel o brofiadau cyflogaion yn Swyddfa Archwilio Cymru a chanfod lle mae angen inni wella. Defnyddiwyd yr un holiadur arolwg craidd gennym ag a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2017 (CSPS) Ym mwyafrif o themâu'r arolwg, roedd ymatebion y staff yn fwy cadarnhaol na chyfartaledd y CSPS, ac yn fwy nodweddiadol o sefydliad oedd yn perfformio'n dda yn y CSPS (ac weithiau'n llawer gwell na hynny)Er bod canlyniadau'r arolwg yn galonogol iawn, gwelwyd hefyd fod angen gwella sawl maes ymhellach, ac rydym yn bwriadu ymdrin â'r meysydd hynny drwy gyflawni'r strategaeth.

Mae'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein gwaith mewn perthynas â'n pobl yn 2018-19 fel a ganlyn:

- a datblygu rhaglen waith er mwyn sicrhau y caiff y strategaeth bobl newydd ei rhoi ar waith yn effeithiol ac yn effeithlon;
  - b ymateb yn effeithiol i ganlyniadau ein harolwg staff ym mis Hydref 2017;
  - c gwerthuso'r hyn a ddysgwyd o'n digwyddiad 'unconference' a gynhaliwyd yn ddiweddar i staff; ac
- ch ymgymryd â gwaith cwmpasu ar gyfer prosiect wedi'i anelu at herio a thrawsnewid y ffordd rydym yn ymgymryd â'n gwaith yn draddodiadol.




Tudalen y pecyn 218

## Ein cyllid


Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar ein defnydd o adnoddau, ac yn ystyried ein **Hamcangyfrif, Cynllun Ffioedd, Adroddiad(au) Interim** a'n **Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon**, drwy ystyried y Cynllun hwn.

Daw tua deuparth o gyllid Swyddfa Archwilio Cymru o ffioedd a godir gan gyrff archwiliedig yn unol â chynllun ffioedd a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Daw'r gweddill o'r cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru, a bydd y Bwrdd yn craffu ar ein defnydd o'r cyllid hwn yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Nodir ein prif flaenoriaethau o ran defnyddio'r adnoddau yn 2017-18 yn ein Hamcangyfrif diweddaraf, a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2017. Mae £16.4 miliwn o'r gwariant arfaethedig yn ymwneud ag adnoddau a fydd yn cael eu cynnig i'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei raglen waith<sup>2</sup>. Mae £5.2 miliwn arall yn darparu gwasanaethau galluogi corfforaethol amrywiol, gan gynnwys llety a gwasanaethau cymorth eraill, megis cyngor cyfreithiol, TGCh ac AD<sup>3</sup>.



- Costau staff - £16.2m
- Costau eraill - £2.2m
- Teithio - £1.2m
- Cwmnïau sector preifat - £1.0m
- Swyddfeydd - £1.0m



- Ffioedd Archwilio Ariannol - £10.9m
- Cronfa Gyfunol Cymru - £7.0m
- Ffioedd Archwilio Perfformiad - £3.7m

2 Dyma uchafswm yr adnoddau sydd ar gael, ac a allai ddod ar gael, y rhagwelir y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn eu dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol er mwy cyflawni ei raglen waith.  
3 Tybir mai dyma'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.

# Atodiad 7 – Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau

## CYFLAWNIAD AC EFFAITH

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed
DI1	Argymhellion a dderbyniwyd	Cyfran yr argymhellion neu'r cynigion ar gyfer gwella sydd wedi'u derbyn yn llwyr i'w gweithredu gan y cyrff sy'n cael eu harchwilio	90%
DI2	Arbedion a nodwyd	Gwerth yr arbedion posibl a bennwyd drwy ein gwaith	O leiaf £30 miliwn yn ystod 2018-2021
DI3	Gwneud gwahaniaeth	Canran y sgôr gadarnhaol gan randdeiliaid ar gyfer y graddau y tybir ein bod yn cyflawni amcanion yr Archwilydd Cyffredinol	O leiaf 85%
DI4	Ar amser	Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol a gyflawnwyd ar amser	95%
DI5	Adroddiadau cenedlaethol	Nifer yr adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd	14 y flwyddyn
DI6	Y nifer sy'n bresennol mewn digwyddiadau arfer da	Y nifer sy'n bresennol yn ein seminarau a'n gweminarau dysgu ar y cyd	1,000 y flwyddyn
DI7	Bodlonrwydd â digwyddiadau arfer da	Cyfran y rhai a oedd yn bresennol yn ein digwyddiadau cyfnewid arfer da a farnodd fod y digwyddiadau'n fuddiol neu'n fuddiol iawn ar y cyfan	O leiaf 90%
DI8	Ymweliadau â'r wefan – cyfran	Cyfran yr ymweliadau â'r wefan lle cyflawnir un weithred o leiaf, ee lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo	O leiaf 50%
DI9	Ymweliadau â'r wefan – nifer	Nifer yr ymweliadau â'r wefan lle cyflawnir o leiaf un gweithrediad	30,000 y flwyddyn
DI10	Y Cyfryngau Cymdeithasol	Sgôr klout - mesuriad o'n dylanwad yn y cyfryngau cymdeithasol drwy ddadansoddi gweithgarwch ein cyfrif Twitter	O leiaf 55 allan o 100
DI11	Ymdrin â gohebiaeth	Nifer yr achosion lle na chyflwynir ymateb llawn neu ymateb dros dro i bryderon ynghylch gwariant cyhoeddus a godir drwy ohebiaeth cyn pen 30 diwrnod ar ôl derbyn yr ohebiaeth honno	Dim

## ARWEINYDDIAETH A DIWYLLIANT

No.	Indicator	Description	Target
LC1	Ymgysylltu â gweithwyr	Canran y sgôr gadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol (a aliniwyd ag arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil) ar gyfer ymgysylltu	Sgôr o'r 9fed dengradd o leiaf o fersiwn ddiweddaraf Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS)
LC2	Amcanion a diben y sefydliad	Canran y sgôr gadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol ar gyfer y thema 'amcanion a diben y sefydliad'	Sgôr o'r 7fed dengradd o leiaf yn y CSPS diweddaraf
LC3	Arweinyddiaeth a rheoli newid	Canran y sgôr gadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol o dan y thema 'arweinyddiaeth a rheoli newid'	Sgôr o'r 8fed dengradd o leiaf yn y CSPS diweddaraf
LC4	Diwylliant sefydliadol	Canran y sgôr gadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol o dan y thema 'diwylliant sefydliadol'	Sgôr o'r 9fed dengradd o leiaf yn y CSPS diweddaraf
LC5	Fy rheolwr	Canran y sgôr gadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol o dan y thema 'fy rheolwr'	Sgôr o'r 9fed dengradd o leiaf yn y CSPS diweddaraf
LC6	Cynhwysiant a thriniaeth deg	Canran a roddodd sgôr gadarnhaol o dan y thema 'cynhwysiant a thriniaeth deg' yn yr arolwg staff blynyddol	Sgôr o'r 9fed dengradd o leiaf yn y CSPS diweddaraf
LC7	Dysgu a datblygu	Canran y sgôr gadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol o dan y thema 'dysgu a datblygu'	Sgôr o'r 9fed dengradd o leiaf yn y CSPS diweddaraf
LC8	Adnoddau a'r llwyth gwaith	Canran y sgôr gadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol o dan y thema 'adnoddau a'r llwyth gwaith'	Sgôr o'r 9fed dengradd o leiaf yn y CSPS diweddaraf



No.	Indicator	Description	Target
MB1	Absenoldeb Salwch	Diwrnodiau gwaith cyfartalog a gollwyd bob blwyddyn fesul aelod o staff	Llai na 6 diwrnod
MB2	Cydbwysedd ariannol	Lefel yr amrywiant mewn gwariant gros o gymharu â'r hyn a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2018-19	O fewn 2% o'r gyllideb
MB3	Talu cyflenwyr	Cyfran y cyflenwyr a dalwyd o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn anfoneb	O leiaf 90%
MB4	Arbedion cost ac effeithlonrwydd	Gwerth arbedion cost ac effeithlonrwydd a nodwyd drwy'r busnes	£250,000
MB5	Effeithlonrwydd yr ystâd	Costau gan gynnwys costau rhent ac ardrethi fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn	Llai na £3,300
MB6	Darpariaeth yn Gymraeg	Nifer y cwynion a gafwyd ac a gefnogwyd ynghylch ein darpariaeth Gymraeg	Dim
MB7	Rheoli Amgylcheddol	Lefel Achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Groundwork Cymru	Lefel 5 (y lefel uchaf)
MB8	Allryiadau nwyon tŷ gwyr	Cyfanswm yr allyriadau CO <sub>2</sub> cyfatebol o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o'r defnydd o drydan yr ydym yn ei brynu, neu a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau.	Llai na 450 o dunelli

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

Mr Simon Thomas AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ  
Tel / Ffôn: 029 2032 0500  
Fax / Ffacs: 029 2032 0600  
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660  
[info@audit.wales](mailto:info@audit.wales) / [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)  
[www.audit.wales](http://www.audit.wales) / [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

**Cyfeirnod:** IG/18/005/HVT/2856/SD  
**21 Mehefin 2018**

Annwyl Simon

## Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill 2018 lle rydych yn gofyn am fanylion y newidiadau deddfwriaethol penodol sydd eu hangen i fynd i'r afael â chymhlethdod trefniadau ffioedd ac agweddau trafferthus eraill ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Rydych yn gofyn yn neilltuol am fanylion sut y byddai diwygio deddfwriaeth yn edrych ac enghreifftiau o feysydd yn Neddf 2013, ar wahân i ffioedd, fyddai o bosibl yn elwa o gael eu newid. Rydych hefyd yn gofyn am fanylion costau trefniadau'r ffioedd a chostau'r newidiadau arfaethedig.

Rydym yn amgáu papur esboniadol sy'n nodi'r materion penodol hyn, gan gynnwys bil drafft a nodiadau esboniadol. Paratowyd y bil drafft a'r nodiadau esboniadol gan ein cynghorwyr cyfreithiol allanol, Bates Wells Braithwaite. Er hwylustod cyfeirio, rydym wedi cynnwys yn y papur esboniadol grynodedeb o'r problemau y mae Deddf 2013 yn eu hachosi, gan gynnwys o ran ffioedd, er bod hyn wedi ei drin mewn peth manylder yn y papur *Y drefn ffioedd archwilio gymhleth yng Nghymru – achos dros newid*.

Gan fod y newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen yn fater o ddiwygio gweddol gyfyngedig ar Ddeddf 2013, ynghyd â rhai diwygiadau dilynol sy'n gyfyngedig yn yr un modd, mae'r bil drafft yn fyr a braidd yn dechnegol ei natur. O ganlyniad, er mwyn deall effaith darpariaethau'r bil drafft, credwn ei bod yn well darllen y bil drafft ochr yn ochr â'r papur esboniadol, yn hytrach nag ar ei ben ei hun. Dylem ddweud, fodd bynnag, nad yw'r papur esboniadol yn Femorandwm Esboniadol fel sy'n ofynnol dan Orchmynion Sefydlog, er y byddem yn gobeithio y byddai llawer o'r deunydd yn ddefnyddiol i baratoi dogfen o'r fath.



Dylem hefyd grybwyll bod y materion y mae'r bil drafft yn mynd i'r afael â hwy wedi eu cyfyngu i faterion sy'n uniongyrchol drafferthus i Swyddfa Archwilio Cymru. Nid ydym wedi ceisio ymdrin â materion megis anghysondeb rhwng darnau gwahanol o ddeddfwriaeth, e.e. y gwahaniaethau rhwng y cyfnodau cyfyngiad mewn perthynas â swydd ddilynol sy'n berthnasol i'r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf 2013 a'r rheiny sydd i fod yn berthnasol i'r Ombwdsmon dan Fil Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). (Yn yr esiampl honno, mae'r cyfyngiadau ar Gyn-archwilydd Cyffredinol yn berthnasol am ddwy flynedd, tra mae'r rhai ar Gyn-ombwdsmon yn berthnasol am rhwng blwyddyn a diwrnod a dwy flynedd, yn dibynnu ar y dyddiad y mae'r person yn peidio â bod yn Ombwdsmon). Rydym yn tybio y gall fod gan y Pwyllgor faterion eraill efallai y gellid ymdrin â hwy mewn bil diwygiadau.

Er y gall ymddangos yn weddol amlwg, dylem hefyd sôn, er mwyn eglurder, nad yw'r bil drafft na'r papur esboniadol yn ymdrin â newidiadau yn nhrefniadau'r ffioedd nad oes angen deddfwriaeth ar eu cyfer. Y brif enghraifft sydd gennym mewn golwg yw defnyddio ffioedd tybiannol yn lle ffioedd archwiliad arian parod ar gyfer Llywodraeth Cymru, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru, fel yr eglurwyd yn *Y drefn ffioedd archwilio gymhleth yng Nghymru – achos dros newid*. Mesur gweinyddol cyfochrog yw hwn, nad yw'n newid yr angen am ddeddfwriaeth, oherwydd nad yw'n effeithio ar fwyafrif llethol y cyrff a archwilir ac incwm ffioedd.

Rydych yn holi'n benodol ynglŷn â'r costau mewnlol sy'n codi o weinyddu'r broses yn ymwneud ag adran 23 y Ddeddf ac ynghylch buddion ariannol a allai ddod o ganlyniad i newid y ddeddfwriaeth. Mae'r papur esboniadol yn cynnwys manylion sy'n mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn, ond efallai y byddai'n fuddiol inni dynnu pwyntiau allweddol allan yn y fan hon.

Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd yw Adran 23, nid yn syml y rheol "dim mwy na'r gost lawn" (s23(5)(b)). Nid oes modd nodi'n union beth yw cost lawn trefniadau'r ffioedd presennol; er enghraifft, er y bydd cyfran o gostau adran gyllid Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwneud â ffioedd, mater o amcangyfrif yw nodi maint y gyfran honno. Ar y cyfan, amcangyfrifwn fod cost weinyddol flynyddol trefniadau presennol y ffioedd oddeutu £342,000.

O'r ffigur uchod amcangyfrifwn fod rhwng £20,000 a £50,000 i'w briodoli i'r rheol "dim mwy na'r gost lawn". Rydym wedi rhoi'r amcangyfrif hwn fel amrediad oherwydd ei bod yn anodd dros ben mesur yr ymdrech neilltuol sy'n mynd i mewn i fonitro a rheoli amser i ddibenion "dim mwy na'r gost lawn" mewn cyferbyniad â dibenion rheoli eraill. Ond er bod yna ansicrwydd ynghylch y swm, mae'n glir i ni fod y rheol "dim mwy na'r gost lawn" yn gwneud pethau'n waeth ac yn arwain at gost ychwanegol.

Osgoi'r gost ychwanegol sy'n codi o'r rheol "dim mwy na'r gost lawn" ac osgoi costau paratoi adroddiadau cyfamserol yw'r manteision ariannol pennaf sy'n debygol o ddeillio o ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Efallai y bydd hefyd ychydig o filoedd o bunnau'r flwyddyn ar gyfartaledd mewn cyfraniadau i Gronfa Gyfunol Cymru yn codi o arian dros ben ar waith cytundeb. Gyda'i gilydd, amcangyfrifwn


mai'r buddion ariannol fydd rhwng £57,000 a £77,000 o arbedion net i arian cyhoeddus Cymru.

Gobeithiwn fod hyn o gymorth. Byddem yn hapus iawn i drafod y papur a'r bil drafft.

Yn gywir



**Huw Vaughan Thomas, CBE**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**



**Isobel Garner**  
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio**  
**Cymru**

# Cynigion ar gyfer bil i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Mehafin 2018

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r papur hwn yn nodi cynigion ar gyfer bil byr i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, er mwyn gwella effeithlonrwydd gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC"). Er mwyn rhoi cyd-destun, mae'n crynhoi'r problemau a wynebwn wrth weithredu rhai o ddarpariaethau'r Ddeddf. Mewn atodiadau rydym yn darparu bil drafft, ynghyd â nodiadau esboniadol.
- 1.2 Yn ei hanfod, byddai'r bil arfaethedig yn diwygio gofynion codi ffioedd SAC, yn helpu'r broses o wneud penderfyniadau drwy ddiwygio gofynion cworwm statudol a gwneud gofynion cyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn fwy cymesur ac yn symlach.

## 2. Cefndir

- 2.1 Mae archwilio yn hanfodol i gynorthwyo craffu democrataidd ar y defnydd o arian cyhoeddus. Mae SAC yn cynorthwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth archwilio cyrff sector cyhoeddus Cymru. Felly mae gweithrediad effeithlon ac effeithiol SAC yn ffactor pwysig o ran sicrhau craffu da ar arian cyhoeddus a chyflawni gwerth da am arian ar draws sector cyhoeddus Cymru.
- 2.2 Sefydlodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 SAC fel corff corfforaethol ar ffurf bwrdd i fonitro a chynghori Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac i gadw a darparu adnoddau sy'n ofynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at ddibenion swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 wedi'i bwriadu i wella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Cyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, roedd "Swyddfa Archwilio Cymru" yn derm i ddisgrifio Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff Archwilydd Cyffredinol Cymru; nid oedd endid cyfreithiol o'r enw hwnnw.) Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod newidiadau o'r fath yn angenrheidiol o ystyried materion cyfrifyddu a phriodoldeb a gododd o weithredoedd cyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru (yn ei swydd 2005-2010), fel:
  - (a) ni roddwyd cyfrif llawn am wariant ar setliadau ymddeoliad cynnar;
  - (b) gwariant o tua £77,000 ar hyfforddiant ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd heb gyfiawnhad wedi'i gofnodi.

- 2.3 Un o effeithiau allweddol Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 oedd ei bod yn addasu cyfrifoldeb am adnoddau'r sefydliad drwy sicrhau nad cyfrifoldeb Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unig ydoedd bellach a'i roi o dan reolaeth y SAC newydd (ar ffurf bwrdd). Roedd y newid hwn mewn cyfrifoldeb yn cynnwys dileu pwerau a dyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru i godi ffioedd a phennu'r cyfryw bwerau a dyletswyddau i SAC.
- 2.4 Gwnaeth Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 hefyd ychwanegu cyfyngiadau ychwanegol ar godi ffioedd gan SAC, gan gynnwys:
- (a) Gwneud gwariant arian a geir o ffioedd (yn ogystal â chyflenwad o Gronfa Gyfunol Cymru) yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad drwy gynnig cyllidebol;
  - (b) Ei gwneud yn ofynnol paratoi cynllun ffioedd bob blwyddyn yn nodi'n fanwl y sail statudol ar gyfer codi ffioedd, a'i gwneud yn ofynnol i bob cynllun o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad;
  - (c) Gwahardd ffioedd a godir ar unrhyw gorff penodol rhag bod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth benodol yr ymgymerir â hi yn y corff y mae'r ffi yn ymwneud ag ef (y "rheol dim mwy na chost lawn").
- 2.5 Gwnaeth y cyfyngiadau uchod ychwanegu at ofynion a fodolai eisoes, fel y gofyniad i bennu graddfeydd ffioedd ar gyfer codi ffioedd ar awdurdodau lleol ac ymgynghori ar hyn.
- 2.6 Roedd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 wedi'i bwriadu hefyd i wella trefniadau llywodraethu yn gyffredinol drwy sefydlu SAC fel bwrdd a darparu swyddogaethau penodol i'r bwrdd hwnnw. Ymhlith yr elfennau allweddol roedd:
- (a) Ei gwneud yn ofynnol i SAC gynnwys mwyafrif o aelodau anweithredol (unigolion nad ydynt yn cael eu cyflogi gan SAC), a'i gwneud yn ofynnol i Gadeirydd SAC fod yn aelod anweithredol—rhaid i SAC gael pum aelod anweithredol, gyda'r aelodau eraill yn Archwilydd Cyffredinol Cymru, aelod gweithredol a enwebir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a dau gyflogai SAC a etholir gan gyflogeion SAC;
  - (b) Aelodau anweithredol SAC yn cael eu penodi gan y Cynulliad;
  - (c) Dyletswydd ar SAC i fonitro arfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a phŵer i gynghori Archwilydd Cyffredinol Cymru am y swyddogaethau hynny, gyda dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i roi sylw i unrhyw gyngor a roddir;
  - (d) SAC yn meddu ar ddyletswydd ar y cyd ag Archwilydd Cyffredinol Cymru i baratoi cynllun blynyddol yn nodi eu priod raglenni gwaith;
  - (e) SAC yn meddu ar ddyletswydd ar y cyd ag Archwilydd Cyffredinol Cymru i baratoi amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant SAC, ac i osod yr amcangyfrifon hynny gerbron y Cynulliad i'w cymeradwyo;

- (f) Cadeirydd SAC yn meddu ar ddyletswydd ar y cyd ag Archwilydd Cyffredinol Cymru i baratoi a gosod gerbron y Cynulliad adroddiadau blynyddol ac interim ar gynnydd yn erbyn y cynllun blynyddol;
  - (g) Cadeirydd SAC yn meddu ar ddyletswydd i gyflwyno cyfrifon SAC i archwilydd allanol SAC (a benodir gan y Cynulliad) ar gyfer eu harchwilio a'u gosod gerbron y Cynulliad.
- 2.7 Ymhlith y gofynion manwl mewn perthynas â swyddogaethau SAC, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i SAC lunio rheolau gweithdrefnol ar gyfer rheoleiddio ei gweithdrefnau. Wrth wneud hynny, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolau bennu cworwm sy'n darparu bod yn rhaid i gyfarfod gynnwys mwyafrif o aelodau anweithredol yn bresennol ym mhob achos.
- 2.8 Mewn sawl ffordd, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn dilyn patrwm deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Audit Scotland<sup>1</sup>. Fodd bynnag, nid yw'r rheol gaeth "dim mwy na chost lawn" yn berthnasol i'r naill na'r llall. Yn achos Audit Scotland, mae mwy o hyblygrwydd wedi'i ymgorffori yn y gofynion. Rhaid i daliadau fod yn "rhesymol" a rhaid i "gyfanswm y swm a geir...gan gymryd un flwyddyn gydag un arall" "gyfateb yn fras" i'r gwariant mewn perthynas ag arfer swyddogaethau. Yn achos y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, nid oes cyfyngiad yn berthnasol heblaw bod yn rhaid i'r ffioedd fod yn unol â'r cynllun ffioedd a gymeradwywyd gan yr hyn sy'n cyfateb i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad, ac, yn achos gwaith a wneir drwy gytundeb, yn unol â'r cytundeb berthnasol.
- 2.9 Yn yr un modd, mae gofynion eraill Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn fwy helaeth na rhai cyfatebol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Audit Scotland. Nid yw'n ofynnol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol nac Audit Scotland i baratoi adroddiadau interim. Hefyd, nid oes cworwm statudol ar gyfer Audit Scotland, ac er bod cyfeiriad at gworwm yn y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, nid yw mor gaeth o ran bod darparu rheol cworwm yn ddewisol.

### **3. Crynodeb o'r problemau sy'n deillio o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013**

- 3.1 Er bod y trefniadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 wedi gweithio'n dda mewn sawl ffordd, fel y nodir isod ceir pum problem sy'n achosi eneffeithlonrwydd, a dim ond drwy ddeddfwriaeth y gellir mynd i'r afael â'r rhain yn llawn.

---

<sup>1</sup> Ar gyfer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gweler paragraff 8 o Atodlen 3 i'r Ddeddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Genedlaethol 2011. Ar gyfer Audit Scotland, gweler adran 11 o Ddeddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (yr Alban) 2000.

## **Mae'r rheol “dim mwy na chost lawn” yn gweithredu fel datgymhelliad i wella effeithlonrwydd archwilio, ac mae'n gymhleth i'w gweinyddu hefyd**

- 3.2 Lle mae SAC yn codi ffioedd, mae'n pennu cyfraddau ffioedd fesul awr ar lefel er mwyn adennill costau yr aed iddynt yn unig. Yna mae'n pennu ffioedd yn seiliedig ar amser staff amcangyfrifedig ar gyfer pob rôl archwilydd sy'n ofynnol i gwblhau'r gwaith. Gwneir hyn bob blwyddyn ar gyfer pob corff a archwilir. Er bod SAC yn ceisio gwneud amcangyfrifon realistig, yn anochel ceir amrywiadau rhwng amcangyfrifon a gwariant gwirioneddol.
- 3.3 Fodd bynnag, mae'r broblem yn ddyfnach na'r her o wneud amcangyfrifon cywir, oherwydd bod y rheol “dim mwy na chost lawn” yn gweithredu fel datgymhelliad i ddarbodusrwydd ac effeithlonrwydd. Er enghraifft, gallai tîm archwilio nodi ffordd o gyflawni archwiliad â llai o waith. Gall hyn fod oherwydd bod systemau awtomataidd newydd yn galluogi lleihau swm y profi uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn gwaith o ganlyniad i hynny yn dueddol o greu problemau yn hytrach na manteision oherwydd, o dan y rheol “dim mwy na chost lawn”, rhaid ad-dalu'r lleihad yng nghost yr archwiliad i'r corff archwiliedig perthnasol, ond nid yw'r opsiwn o ddiswyddo archwilwyr i adlewyrchu'r lleihad mewn gwaith yn y tymor byr yn ymarferol. Hyd yn oed pe bai diswyddo archwilwyr yn ymarferol, ni fyddai hyn yn gymhelliant ar gyfer effeithlonrwydd.
- 3.4 Yn gyffredinol, nid yw rheoli amrywiadau o ran llwyth gwaith drwy ddefnyddio staff asiantaeth wedi bod yn gost effeithiol, oherwydd bod cyfraddau ffioedd fesul awr yn uchel ac mae'r diffyg parhad yn lleihau effeithiolrwydd. Er ei bod weithiau'n bosibl cymhwyso amser archwilydd sy'n cael ei arbed i waith archwilio arall sy'n ennill ffi, nid dyma'r achos ar y cyfan, oherwydd bod swm yr archwiliadau sy'n ennill ffioedd yn sefydlog yn ei hanfod. Gallai'r amser a arbedir gael ei gymhwyso i waith nad yw'n ennill ffioedd, fel gwaith astudiaeth gwerth am arian—mae rhywfaint mwy o le i ehangu gwaith astudio am ei fod yn ôl disgrisiwn i raddau helaeth. Fodd bynnag, ni fyddai gwaith astudio ychwanegol o'r fath yn cael ei gyllido, oherwydd nid yw gwaith astudio'n cael ei gyllido drwy ffi ond mae'n cael ei gyllido drwy gyflenwad (adnoddau o Gronfa Gyfunol Cymru y mae'r Cynulliad yn pleidleisio arnynt drwy gynigion cyllidebol). Mae cael gafael ar gyflenwad ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno amcangyfrif atodol i'r Cynulliad, ac mae'n broses sy'n cymryd llawer o amser.
- 3.5 Mae'r rheol “dim mwy na chost lawn” hefyd yn gymhleth i'w gweinyddu yn gyffredinol. Oherwydd bod ffioedd i gyrff yn destun y rheol “dim mwy na chost lawn” mewn perthynas â swyddogaethau unigol, a bod sawl swyddogaeth yn cael ei chynnal ym mhob corff (gweler Blwch 1 isod), nid yw'n anghyffredin i ad-daliad fod yn ddyledus i gorff mewn perthynas ag un neu ragor o swyddogaethau, ond mae costau cyffredinol gwaith yn y corff yn fwy na'r ffi gyfanredol. Mae'r union alldro o ran cost yn aml yn cymryd misoedd lawer cyn dod i'r amlwg, oherwydd gall y gwaith mewn perthynas â blwyddyn gyfrif benodol ymestyn ymhell i mewn i bedwerydd chwarter y flwyddyn ganlynol neu hyd yn oed ar ôl hynny.

### **Blwch 1: Y broblem o gysylltu ffioedd â swyddogaethau**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â nifer o swyddogaethau (pwerau neu ddyletswyddau) ym mhob corff a archwilir.

Dyma un enghraifft syml, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cyfrifon yn o gyrff y GIG, fel bwrdd iechyd lleol, o dan adran 61(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yn ogystal, o dan adran 61(3)(a) o Ddeddf 2004, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wrth archwilio'r cyfrifon, fodloni ei hun...yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu. Dyma'r "farn ar reoleidd-dra", ac mae'n un o'r swyddogaethau eraill a gyflawnir. At hynny, o dan adran 61(3)(b) o Ddeddf 2004, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wrth archwilio'r cyfrifon, fodloni ei hun...bod y corff y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Dyma'r "casgliad gwerth am arian" ac mae'n swyddogaeth arall eto. (Yn gyffredinol gelwir gwaith i gynorthwyo'r casgliad gwerth am arian yn "waith archwilio perfformiad lleol".)

Os bydd angen i'r bwrdd iechyd lleol gael cais grant wedi'i ardystio, mae'r ddyletswydd i ardystio yn swyddogaeth arall (a wneir o dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

Mae'r rheol "dim mwy na chost lawn" a nodir yn adran 23 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn golygu oherwydd na all tanwariant wrth ymgymryd ag un swyddogaeth gael ei ddefnyddio i gyllido gorwariant wrth ymgymryd ag un arall, ni ellir cael croes-gymhorthdal rhwng swyddogaethau.

Mae'r sefyllfa o ran cyrff llywodraeth leol yn fwy cymhleth nag yn y GIG, oherwydd bod llawer mwy o swyddogaethau sy'n cael eu harfer ym mhob corff, er nad fydd y cyfan ohonynt yn cael eu harfer yn yr un flwyddyn.

- 3.6 I raddau rhywfaint yn gyfyngedig, gall yr amrywiadau hyn gael eu rheoli dros amser drwy "wrthbwysu" (debydu ad-daliadau mewn perthynas ag un swyddogaeth yn erbyn ffioedd ychwanegol sy'n ddyledus lle mae'r gost yn fwy na'r amcangyfrif mewn perthynas â swyddogaeth arall, neu'r un swyddogaeth yn y flwyddyn nesaf). Fodd bynnag, nid yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn darparu ar gyfer gwrthbwysu, a cheir risg cyn gynted ag y daw'n amlwg y codwyd mwy na chost lawn swyddogaeth berthnasol ar gorff, gellid dehongli bod y ffi yn anghyfreithlon. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu, er enghraifft, â'r gwrthbwysu a ganiateir yn achos Audit Scotland lle mae angen i gyfanswm y swm a geir...gan gymryd un flwyddyn gydag un arall gyfateb yn fras yn unig i'r gwariant mewn perthynas ag arfer swyddogaethau.

### **Mae cymhwyso'r rheol dim mwy na chost lawn i waith a wneir y tu allan i sector cyhoeddus Cymru yn atal SAC rhag cyfrannu at gyllid cyhoeddus Cymru**

- 3.7 O dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gall SAC gytuno i drefnu i ddarparu gwasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol i gyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys cyrff y tu allan i Gymru. Mae llawer o wasanaethau o'r fath yn cael eu

darparu i gyrff cyhoeddus y tu allan i Gymru, oherwydd bod safonau proffesiynol (Safon Foesebol IFAC a gyhoeddir ar gyfer y DU gan y Cyngor Adroddiad Ariannol) yn gwahardd darparu llawer o wasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio i gyrff a archwilir. Er enghraifft, yn ddiweddar mae SAC wedi rhoi cymorth i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Kosovo i ddatblygu ei gwaith archwilio llywodraeth leol, ac i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Malta ar gyfer hyfforddi archwilywyr perfformiad. Llinell bosibl o waith sylweddol yn y dyfodol yw darparu gwaith ardystio grant Cronfa Amaethyddol yr UE. Dros y degawd diwethaf, mae SAC wedi sefydlu arbenigedd arweiniol ar gyfer gwaith o'r fath. Gyda'r DU yn gadael yr UE, mae'n debygol na fydd gwaith ardystio grant o'r fath i reolau'r UE yn ofynnol mwyach yng Nghymru, ond mae'n debygol y bydd marchnad ar gyfer yr arbenigedd yng ngwladwriaethau'r UE.

- 3.8 Fodd bynnag, mae'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau o'r fath yn destun y "rheol dim mwy na chost lawn". Mae hyn yn golygu er bod gwaith o'r fath fel arfer yn cael ei ennill ar sail tendr cystadleuol, rhaid ad-dalu unrhyw warged incwm dros wariant. Mae hyn yn atal cyllid cyhoeddus Cymru rhag elwa o warged a wneir ar waith cytundeb.

**Mae'r gofyniad statudol am gworwm â mwyafrif anweithredol yn golygu bod SAC yn dueddol o fod heb gworwm yn rhy aml, ac mae hynny'n llesteirio'r broses o wneud penderfyniadau**

- 3.9 Mae Paragraff 28(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn cynnwys gofyniad "na ellir bodloni cworwm ar unrhyw adeg oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol".
- 3.10 Mae hyn yn achosi problemau oherwydd maint a chyfansoddiad SAC. Mae Paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn nodi bod SAC i gael naw aelod: pump nad ydynt yn gyflogeion i SAC ("aelodau anweithredol"), Archwilydd Cyffredinol Cymru a thri chyflogai i SAC ("aelodau sy'n gyflogeion"). O ganlyniad, os bydd unrhyw aelod anweithredol yn absennol, ac nad oes absenoldeb o ran Archwilydd Cyffredinol Cymru neu aelodau sy'n gyflogeion, yna bydd Swyddfa Archwilio Cymru heb gworwm. Mae absenoldeb aelod anweithredol yn gallu codi'n hawdd am resymau fel salwch neu darfu ar deithio, gyda'r potensial am oedi o ran gwneud penderfyniadau. O 28 o gyfarfodydd bwrdd ers cychwyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae chwe chyfarfod (21%) wedi bod heb gworwm oherwydd absenoldeb neu ymddiswyddiad aelodau anweithredol.
- 3.11 Mae'n ymddangos nad yw paragraff 28(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ystyried y ffaith o dan baragraff 16 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, penodir dau o'r tri aelod sy'n gyflogeion ar sail pleidlais yr holl staff (yr "aelodau etholedig"). (Roedd y gofyniad am ddau aelod etholedig yn welliant hwyr i'r ddeddfwriaeth ar ei thaith drwy'r Cynulliad, felly efallai nad yw'r canlyniadau'n wedi'u cydnabod yn llawn. Er bod dadl ynghylch y posibilrwydd o greu



“etholaethau”, ni roddwyd sylw i'r effaith ar gworwm.) Yn ôl natur eu penodi, nid yw'r aelodau etholedig yn aelodau gweithredol yn yr ystyr arferol; nid ydynt yn aelodau o'r bwrdd drwy rinwedd bod yn uwch reolwyr gweithredol y sefydliad. Nid ydynt yn gyfrifol am gyflwyno materion ar gyfer craffu neu benderfyniad.

- 3.12 Yn amlwg, mae llawer o rinweddau drwy gael mwyafrif o aelodau anweithredol; mae'n galluogi llawer o graffu ar reoli'r sefydliad ac felly'n helpu i sicrhau bod penderfyniadau rheoli pwysig yn briodol. Fodd bynnag, gyda pharagraff 28(3) fel y mae, mae anhyblygrwydd y trefniadau'n eu hatal rhag bod yn ddigon cadarn i fod yn ymarferol mewn amodau o ddydd i ddydd go iawn, fel y gellir ei weld o gyfran cyfarfodydd SAC a fu heb gworwm. Byddem hefyd yn awgrymu bod cworwm yn ei hanfod yn fater ymarferol i'r bwrdd, yn hytrach na mater y dylid ei ymgorffori mewn deddfwriaeth.
- 3.13 Mae'r cworwm statudol presennol hefyd yn creu risg y bydd gostyngiad posibl yng nghyfraniad yr aelodau sy'n gyflogeion a etholwyd. Pan fo SAC heb gworwm, mae'r aelodau etholedig yn dueddol o dynnu yn ôl, am nad ydynt yn cyflwyno materion ar gyfer craffu neu benderfyniad. Er bod hyn yn ddefnyddiol o ran bodloni cworwm, mae'n golygu bod pŵer pleidleisio'r cyflogai cyffredin yn cael ei leihau 50% mewn ymateb i absenoldeb aelod anweithredol o 20%, er yn ddieithriad bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy gonsensws yn hytrach na phleidlais. Serch hynny, mae'r effaith hon yn peryglu cyfraniad llawn yr aelodau sy'n gyflogeion a allai, er enghraifft, arwain at ystyriaeth waeth o faterion sy'n effeithio ar gyflogeion, fel materion cydraddoldeb mewn perthynas â thelerau ac amodau cyflogeion.

### **Mae'r gofyniad am adroddiadau interim yn defnyddio adnoddau yn anghymesur**

- 3.14 Mae Paragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd SAC lunio adroddiad interim ar y cyd ar arfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a SAC.
- 3.15 Fodd bynnag, prin yw diddordeb y Cynulliad neu'r cyhoedd mewn adroddiadau o'r fath. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2016 a mis Tachwedd 2017, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid, sef Pwyllgor y Cynulliad sy'n gyfrifol am ystyried adroddiadau o'r fath o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad, nodi'r adroddiad interim fel papur yn unig. Ni chafwyd trafodaeth Pwyllgor ar yr adroddiad. At hynny, mae ystadegau'r wefan yn nodi mai prin yw'r diddordeb ehangach yn yr adroddiadau interim. Er enghraifft, cafodd adroddiad interim 2015-16 naw o ymweliadau tudalen yn ystod y pythefnos ar ôl ei gyhoeddi, o gymharu ag 81 o ymweliadau tudalen yn y rhychwant amser cyfatebol ar gyfer adroddiad blynyddol 2015-16.
- 3.16 Mae SAC yn amcangyfrif bod pob adroddiad interim yn costio tua £20,000 i'w baratoi yn ogystal â'r adrodd mewnol parhaus i SAC ar gynnydd yn erbyn y cynllun blynyddol. Felly ymddengys fod costau adroddiadau o'r fath yn anghymesur i'r defnydd a wneir ohonynt. Mae hefyd yn werth nodi yr ymddengys nad oes corff arall yng Nghymru

neu'r DU sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad o baratoi adroddiadau interim ar arfer swyddogaethau.

### **Ceir gofynion adrodd blynyddol sy'n gorgyffwrdd, gan beri dryswch a thanseilio tryloywder**

- 3.17 Mae paragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru baratoi'r datganiadau o gyfrifon SAC ac i gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn unol â chyfarwyddyd gan y Trysorlys. Mae cyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel cyrff llywodraeth ganolog eraill i baratoi cyfrifon yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys<sup>2</sup> (y "Llawlyfr"). Mae'r Llawlyfr hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cael adroddiad blynyddol i ategu'r cyfrifon, gan gynnwys "adran perfformiad", a diben hyn yw "darparu gwybodaeth am yr endid, ei brif amcanion a strategaethau". Mae'r Llawlyfr hefyd yn nodi y dylai archwilydwr allanol (h.y. *nid* Archwilydd Cyffredinol Cymru yn yr achos hwn) adolygu'r adroddiad perfformiad ar gyfer cysondeb â gwybodaeth arall yn y datganiadau ariannol. Mae hyn yn adlewyrchu'r safon broffesiynol (ISA 720<sup>3</sup>) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd allanol ystyried a yw'r adroddiad blynyddol yn gyson â'r cyfrifon.
- 3.18 Ar yr un pryd, mae paragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd SAC baratoi adroddiad blynyddol ar arfer bob blwyddyn swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a SAC. Mae'r gofyniad hwn yn gorgyffwrdd yn sylweddol â gofynion y Llawlyfr. Yn ymarferol, felly, fel cyrff cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i ofynion o'r fath sy'n gorgyffwrdd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd SAC yn llunio ar y cyd un ddogfen "adroddiad blynyddol a chyfrifon", yn hytrach nag adroddiad blynyddol ar gyflawni swyddogaethau ac adroddiad blynyddol a chyfrifon.
- 3.19 Fodd bynnag, mae hyn yn arwain at ddiffyg eglurder o ran gosod dogfennau gerbron y Cynulliad. Mae Paragraff 3(6)(a) o Atodlen 2 a pharagraff 35(2)(b) o Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau gael eu gosod gerbron y Cynulliad. Fodd bynnag, yn achos paragraff 3(6)(a) o Atodlen 2, mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd SAC osod yr adroddiad ar y cyd, ac yn achos paragraff 35(2)(b) o Atodlen 1, mae'n ofynnol i archwilydd allanol SAC osod copi ardystiedig o'r cyfrifon (sydd o dan gyfarwyddyd y Trysorlys wedi'i ategu gan adroddiad blynyddol). Yn ymarferol, mae hyn cael ei ddatrys drwy osod yr un ddogfen ddwywaith (er mai dim ond un copi sy'n ymddangos ar wefan y Cynulliad), unwaith gan yr archwilydd allanol ac unwaith gan

---

<sup>2</sup> Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, Trysorlys Ei Mawrhydi, [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/669344/2017-18\\_Government\\_Financial\\_Reporting\\_Manual.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/669344/2017-18_Government_Financial_Reporting_Manual.pdf)

<sup>3</sup> Safon Ryngwladol ar Archwilio 720, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, [https://www.frc.org.uk/getattachment/11b5e047-a2d7-4674-8281-cc57ec3d5e66/ISA-\(UK\)-720-Revised-June-2016\\_final.pdf](https://www.frc.org.uk/getattachment/11b5e047-a2d7-4674-8281-cc57ec3d5e66/ISA-(UK)-720-Revised-June-2016_final.pdf)

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd SAC. Yn amlwg, mae'n anfoddhaol bod y ddeddfwriaeth yn arwain at ddyblygu o'r fath, ac nid yw'n ffafriol i eglurder cyfrifoldeb.

#### **4. Sut y gellid defnyddio deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r problemau sy'n codi o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013**

4.1 Gellid defnyddio deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r pum problem a nodwyd uchod fel a ganlyn. Mae'r bil drafft yn atodiad 2 yn ymgorffori'r awgrymiadau hyn. Y bwriad cyffredinol yw peidio â rhoio'r system gyffredinol o gamau gwirio a rhagofalon Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ôl, ond i wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd SAC drwy fynd i'r afael â'r problemau penodol a amlinellwyd uchod.

#### **Cymhlethdod a datgymhelliad o ran effeithlonrwydd y rheol "dim mwy na chost lawn"**

4.2 Byddai darpariaethau'r bil drafft yn disodli'r rheol "dim mwy na chost lawn", a'r gofyniad caeth ar gyfer ffioedd i'w talu gan y corff penodol y mae'r swyddogaeth yn ymwneud ag ef, gyda gofyniad newydd i'r cynllun ffioedd a baratoir o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn ofynnol i SAC bennu ffioedd er mwyn adennill costau yn gyffredinol. Yn benodol, o dan y darpariaethau newydd, rhaid i SAC geisio sicrhau bod cyfanswm y ffioedd a godir am yr holl waith a wneir (ac eithrio gwaith cytundeb), gan gymryd un flwyddyn gydag un arall, yn cyfateb yn fras i'r gwariant mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw.

4.3 Yn gryno, bydd y ddarpariaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol o hyd i SAC geisio mantoli'r gyllideb o ran pennu ffioedd yn gyffredinol, ond, drwy alluogi SAC i ystyried ffioedd gan gymryd un flwyddyn gydag un arall, mae'n caniatáu digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer gwahaniaethau rhwng costau amcangyfrifedig a gwirioneddol heb ei gwneud yn ofynnol codi anfonebau ychwanegol neu roi ad-daliadau, neu drefniadau gwrthbwysu cymhleth. Wrth gymhwyso'r gofyniad i fantoli'r gyllideb yn ei chyfanrwydd yn hytrach nag mewn perthynas â phob swyddogaeth benodol ym mhob corff penodol, mae hefyd yn caniatáu hyblygrwydd addas, fel nad yw, er enghraifft, y corff cyntaf sy'n ddarostyngedig i brawf archwilio newydd yn wynebu ffioedd uwch nag eraill oherwydd y costau ychwanegol sy'n codi o'r gweithredu cychwynnol.

4.4 Drwy ddarparu mwy o hyblygrwydd, byddai'r newidiadau'n dod â'r gofynion sy'n berthnasol i SAC yn fwy cyson â'r rhai sy'n berthnasol i Audit Scotland.

#### **Y rheol "dim mwy na chost lawn" yn atal SAC rhag cyfrannu at arian cyhoeddus Cymru**

4.5 Byddai Adran 3 o'r bil drafft yn diwygio adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn rhyddhau SAC o'r gofyniad i bennu ffioedd ar gyfer gwaith cytundeb yn unol â chynllun ffioedd (a baratoir o dan adran 24 o Ddeddf 2013). Byddai hyn yn galluogi SAC i godi ffioedd am waith cytundeb, fel gwasanaethau archwilio a ddarperir i awdurdodau cyhoeddus dramor, ar lefelau sy'n arwain at warged incwm

dros wariant ac felly'n darparu cyfraniadau net cadarnhaol i arian cyhoeddus Cymru. O dan y gofyniad presennol i holl wariant SAC gael ei awdurdodi gan gynnig cyllidebol, gallai'r incwm gwarged gael ei ddefnyddio at ddiben a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn unig neu ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru.

### **Y gofyniad cworwm statudol sy'n golygu bod SAC yn dueddol o fod heb gworwm**

- 4.6 Byddai'r bil drafft yn dileu gofyniad Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i reolau gweithdrefnol SAC ddarparu ym mhob amgylchiad na ellir bodloni cworwm oni bai bod mwyafrif yr aelodau'n bresennol yn aelodau anweithredol Byddai hyn yn caniatáu i SAC bennu rheolau cworwm mwy hylaw a fyddai'n helpu i sicrhau bod penderfyniadau amserol ac effeithiol yn cael eu gwneud ar lefel bwrdd. Byddai hefyd yn ystyried y ffaith nad yw'r ddau aelod sy'n gyflogeion a etholwyd yn aelodau gweithredol yn yr ystyr arferol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod cyfraniad yr aelodau sy'n gyflogeion a etholwyd yn cael ei gynnal ar lefel briodol ac yn lleihau'r risg o ystyriaeth waeth o faterion sy'n effeithio ar gyflogeion, fel materion cydraddoldeb.

### **Gofyniad anghymesur adroddiadau interim**

- 4.7 Byddai darpariaethau'r bil drafft yn dileu'r gofyniad i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC baratoi a gosod adroddiadau interim ar y cyd ar arfer swyddogaethau. Ni fyddai'n effeithio ar y gofyniad i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC baratoi adroddiadau blynyddol ar y cyd ar arfer swyddogaethau. Felly byddai'r bil drafft yn galluogi swm cymesur o adrodd sy'n cyfateb i lefel gyfiawnadwy o ddiddordeb a gallu'r Cynulliad i ystyried adroddiadau.

### **Symleiddio'r broses o baratoi a gosod adroddiadau blynyddol**

- 4.8 Mae'r bil drafft yn symleiddio'r trefniadau ar gyfer gosod yr adroddiad blynyddol ar arfer swyddogaethau. Mae'n gwneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC i ddarparu eu hadroddiadau blynyddol i archwilydd allanol SAC, a'i gwneud yn ofynnol i'r archwilydd allanol osod yr adroddiadau hynny fel rhan annatod o osod y cyfrifon blynyddol.

## **5. Costau'r problemau a chostau a manteision yr atebion**

- 5.1 Yn gyffredinol, byddai darpariaethau'r bil drafft yn arwain at ychydig bach iawn o wariant gweithredu cychwynnol. Ni fyddai'r darpariaethau'n arwain at unrhyw wariant parhaus ychwanegol ond byddai'n arwain at arbedion cost parhaus yn sgil dileu'r gofyniad am adroddiadau interim, mwy o ddarbodusrwydd ac effeithlonrwydd wrth wneud gwaith archwilio a lleihau ffioedd gweinyddu. Byddai mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn codi hefyd mewn perthynas â'r bwrdd yn gwneud

penderfyniadau drwy leihau achosion o beidio â bodloni cworwm a helpu i sicrhau lefelau priodol o gyfraniad aelodau etholedig.

### **Cost weinyddu gyffredinol y trefniadau ffioedd presennol**

- 5.2 Nid yw'n bosibl nodi'n union gost lawn y trefniadau ffioedd presennol. Rydym yn amcangyfrif bod yr adnoddau dan sylw yn cynnwys hyd at 30% o amser adran gyllid SAC a symiau amrywiol o amser ymhlith staff eraill. Mae'r amser a'r tasgau dan sylw yn cynnwys:
- (a) ymgynghori blynyddol ar raddfeydd ffioedd a'r cynllun ffioedd a'u paratoi;
  - (b) amser y staff cyfathrebu a dreulir ar gyfieithu a chyhoeddi ymgynghoriadau ffioedd a chynlluniau ffioedd bob blwyddyn;
  - (c) sawl awr bob blwyddyn o amser cyfarwyddwyr ymgysylltu a staff eraill wrth drafod ffioedd â chyrrff archwiliedig;
  - (d) staff yn cofnodi amser yn fanwl—llenwi taflenni amser electronig;
  - (e) cynnal a chadw'r system cofnodi amser;
  - (f) monitro a rheoli amser a dreuliyd ar swyddogaethau yn erbyn y gyllideb.
- 5.3 Yn ogystal ag amser staff, adnodd perthnasol arall yw cost y system cofnodi amser, a'r gost berthnasol am hyn yw tua £30,000 y flwyddyn<sup>4</sup> o ran trwyddedau.
- 5.4 Fodd bynnag, nid yw o reidrwydd yn bosibl priodoli'r holl amser ac adnoddau eraill a nodwyd uchod i'r trefniadau ffioedd presennol yn llwyr. Er enghraifft, hyd yn oed pe byddai'r sefydliad yn cael ei gyllido'n llwyr gan gyflenwad yn hytrach nag i raddau helaeth gan ffioedd, byddem yn dymuno cael system cofnodi amser o hyd, am ei bod yn ffordd o reoli staff proffesiynol sy'n ymwneud ag amrywiaeth o dasgau sy'n wahanol o ran maint a chymhlethdod. Mae ein hamcangyfrifon o'r amser a'r gost y gallir eu priodoli'n rhesymol i weinyddu trefniadau ffioedd wedi'u crynhoi yn nhabl 1 isod.

---

<sup>4</sup> Mae ein system bresennol yn rhan o system ddogfennaeth archwilio gynhwysfawr, felly nid yw cost trwydded y system honno yn adlewyrchiad teg o gost y system cofnodi amser. Fodd bynnag, rydym yn deall y byddai trwydded ar gyfer system o'r fath ar gyfer swyddfa o'r maint sydd gennym ni yn costio dros £30,000 y flwyddyn.

**Tabl 1: Amcangyfrifon o gostau gweinyddu cyffredinol blynyddol y trefniadau ffioedd presennol**

Disgrifiad	Cyfanswm y swm amcangyfrif (£)
Gweinyddu'r adran gyllid, gan gynnwys cyfrifo cyfraddau ffioedd a ffioedd, cadw cofnodion, gan gynnwys y gwaith a wneir, codi anfonebau, rheoli dyled, paratoi a gweinyddu ymgynghoriadau ar raddfeydd ffioedd a chynlluniau ffioedd 30% o amser yr adran Gyllid (£220,000)	66,000
Amser archwilwyr a dreulir ar amcangyfrif ffioedd, cymedroli mewnol a thrafod dogfennau ymgynghori ac ymatebion (16.5 diwrnod ar £500 gan gynnwys argostau <sup>5</sup> )	8,250
Cyfarwyddwyr ymgysylltu yn trafod ffioedd gyda chyrrff archwiledig unigol: 74 o drafodaethau ar gyfartaledd o 1.5 awr, h.y. rhyw 15 diwrnod ar £500 y dydd	7,500
Amser staff cyfathrebu'n paratoi dogfennau ymgynghoriadau ffioedd a chynllun ffioedd (8 diwrnod ar £250 y dydd)	2,000
Cofnodi amser at ddibenion ffioedd ac ati (175 o staff ar 1/4 awr yr wythnos am 52 wythnos y flwyddyn: 325 diwrnod ar £400 y dydd)	130,000
Monitro a rheoli amser ar gyfer prosiectau a ariennir gan ffi (246 diwrnod ar £500)	123,000
Amser a dreulir yn rheoli system taflen amser ar gyfer ffioedd (dyrannu codau gwaith ac ati) 10 diwrnod ar £500	5,000
Cyfanswm	341,750

### Cost weinyddol y rheol “dim mwy na chost lawn”

5.5 Nid yw holl gost gweinyddu ffioedd i'w phriodoli i broblem y rheol “dim mwy na chost lawn”; byddai mwyafrif y gweinyddu ffi yn digwydd gydag unrhyw drefniadau ffioedd. Mae ein hamcangyfrifon o'r amser a'r gost y gellir eu priodoli i broblem y “rheoli dim mwy na chost lawn” wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Mae'n arbennig o anodd amcangyfrif swm yr amser rheolwyr a dreulir ar fonitro at ddibenion y “rheol dim mwy na chost lawn”. Felly rydym wedi rhoi ystod ar gyfer hyn. Mae'r effaith ar drafodaethau ffioedd hefyd yn anodd i'w meintoli, ond ymddengys fod rhywfaint o

<sup>5</sup> Mae costau staff yn seiliedig ar amcangyfrif o'r cyflog staff gwirioneddol ar gyfer y raddfa dan sylw, gydag argostau ar gyfer cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr. Mae'r costau dyddiol ar gyfer amcangyfrifon cost yn wahanol i gyfraddau taliadau oherwydd nid yw gorbenion, fel costau llety, wedi'u cynnwys. Byddai defnyddio cyfraddau taliadau'n gorbwysleisio costau oherwydd gor-adennill gorbenion.

ostyngiad o ran amser yn debygol, er y bydd y swm cyffredinol dim ond yn cyfateb i werth ychydig filoedd o bunnau o amser staff.

**Tabl 2: Amcangyfrifon o'r costau i'w priodoli i'r rheol "dim mwy na chost lawn"**

Disgrifiad	£
Gwaith yr adran gyllid mewn perthynas â thandaliadau a gordaliadau o ran swyddogaethau: 74 o gyrff mawr ar gyfartaledd o 2.5 awr y flwyddyn, h.y. tua 26 diwrnod ar £200 y dydd (gan gynnwys argostau)	5,200
Cyfarwyddwyr ymgysylltu a rheolwyr archwilio yn trafod ffoedd gyda chyrrff archwiliatedig unigol: 74 o drafodaethau ar gyfartaledd o 0.5 awr, h.y. rhyw 5 diwrnod ar £500 y dydd	2,500
Ymdrech benodol mewn perthynas â monitro a rheoli amser at ddibenion y "rheol dim mwy na chost lawn" (rhwng 40 ac 80 diwrnod ar £500 y dydd)	20,000 i 40,000
Cyfanswm	27,700 i 47,700

#### **Cost y rheol "dim mwy na chost lawn" o ran datgymhelliad i wella effeithlonrwydd archwilio**

5.6 Mae'n anodd rhoi amcangyfrif o gost "dim mwy na chost lawn" o ran datgymhelliad i wella effeithlonrwydd archwilio heblaw am ar ffurf dyfalu synhwyrol. Gydag efallai un o bob deg o archwiliadau'n cynnwys effeithlonrwydd rhagweladwy cyfwerth â phum diwrnod o waith, efallai fod cost ychwanegol gwerth tua £12,000 yn cael ei gwrio bob blwyddyn. Gall effeithlonrwydd rhagweladwy o'r fath gynnwys, er enghraifft, colli cyfleoedd i fanteisio ar awtomatiaeth, a chynnal safonau rhy uchel o ddogfennaeth.

#### **Cost cyfle'r rheol "dim mwy na chost lawn" yn atal SAC rhag cyfrannu gwarged ar waith cytundeb i arian cyhoeddus Cymru**

5.7 Dros y pedair blynedd diwethaf, mae ad-daliadau a roddwyd ar waith cytundeb wedi cyfateb ar gyfartaledd i tua £7,500. Er nad oes sicrwydd y bydd gwarged yn y dyfodol ar y lefel hon, dyma'r arwydd gorau sydd ar gael o warged o'r fath.

#### **Cost adroddiadau interim**

5.8 Mae llunio adroddiad interim bob blwyddyn yn costio tua £20,000, gan gynnwys amser staff a dreulir yn ymchwilio a drafftio, adolygiad uwch-reolwyr, adolygiad bwrdd, cyfieithu a chyhoeddi.

### **Cost bod heb gworwm**

5.9 Mae'r potensial i gyfarfodydd SAC fod heb gworwm yn gallu achosi oedi wrth wneud penderfyniadau, ond mae'r effaith ariannol yn fach iawn.

### **Cost dryswch sy'n codi drwy ofynion adrodd blynyddol sy'n gorgyffwrdd**

5.10 Roedd datrys y dryswch sy'n codi o adrodd blynyddol sy'n gorgyffwrdd a gofynion gosod wedi gofyn am swm bach o waith ar ddechrau Deddf 2013, a hynny yn 2014. Er bod hyn yn anghylchol yn achos SAC, mae ymholiadau tebyg gan rai cyrff archwiliedig yn codi o bryd i'w gilydd.

### **Cost gweithredu darpariaethau'r bil drafft**

5.11 Byddai newid i reolau ffioedd yn ei gwneud yn ofynnol diwygio gweithdrefnau a chyfarwyddiadau'r tîm cyllid. Rydym yn amcangyfrif y byddai'r newidiadau hyn yn cymryd diwrnod ar y mwyaf am gost o tua £400. Yn yr un modd, byddai newid o ran y rheol cworwm statudol yn ei gwneud yn ofynnol diwygio rheolau'r bwrdd, a fyddai'n fân addasiad am gost fach. Nid ydym yn gweld unrhyw gostau'n codi ar sail barhaus.

### **Crynodeb o amcangyfrif o gostau a manteision ariannol darpariaethau'r bil drafft**

5.12 Rydym yn crynhoi ein hamcangyfrifon o gostau a manteision darpariaethau'r bil drafft yn nhabl 3 isod.



**Tabl 3: Crynodeb o amcangyfrif o gostau a manteision darpariaethau'r bil drafft**

Disgrifiad	£
Costau pontio untro	000
Cost uniongyrchol flynyddol darpariaethau'r bil drafft	Dim
Cost anuniongyrchol flynyddol darpariaethau'r bil drafft	Dim
Cost cydymffurfio flynyddol darpariaethau'r bil drafft	Dim
Cyfanswm cost flynyddol darpariaethau'r bil drafft	Dim
Cost weinyddol osgoi'r rheol "dim mwy na chost lawn"	(27,700 i 47,700)
Cyfraniadau o warged ar waith cytundeb	(7,500)
Cost osgoi adroddiadau interim	(20,000)
Cost flynyddol net (arbediad) y bil drafft	(55,200 i 75,200)
<p><u>Crynodeb o gostau a manteision anodd i'w meintoli ac nad ydynt yn arian parod</u></p> <p>Dileu'r datgymhelliad i ymgymryd â gwaith archwilio'n fwy darbodus neu'n fwy effeithlon Symleiddio gweithrediadau penderfyniad y bwrdd, gan leihau achosion o beidio cael cworwm a helpu i sicrhau lefel briodol o gyfraniad aelodau etholedig, a fyddai'n fwy ffafriol i ystyriaeth drylwyr o faterion cydraddoldeb mewn perthynas â thelerau ac amodau staff</p> <p>Gwell effeithlonrwydd ac eglurder wrth baratoi a gosod adroddiadau blynyddol</p>	

## **Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft**

### **Nodiadau Esboniadol**

#### **Cyflwyniad**

Mae'r nodiadau esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft. Maent wedi'u paratoi er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y Bil drafft. Nid ydynt yn rhan o'r Bil drafft, ond dylid eu darllen ar y cyd â'r Bil drafft. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil drafft.

#### **Adran 1 – Trosolwg**

Mae'r adran hon yn nodi trosolwg o'r [Bil drafft].

#### **Adran 2 – Ffioedd ar gyfer darparu gwasanaethau**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC") i barhau i godi ffioedd am wasanaethau neu swyddogaethau sy'n cael eu harfer drwy gytundeb o dan adran 19 o Ddeddf 2013 wrth ei ryddhau o'r rhwymedigaeth i bennu ffioedd ar gyfer gwaith o'r fath yn unol â chynllun ffioedd (a baratoir o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013). Oherwydd bod adran 3 o'r [bil drafft] yn dileu o adran 23(3)(d) darpariaeth Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ar gyfer codi ffioedd am waith o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae darpariaeth newydd ar gyfer codi ffioedd yn angenrheidiol, a darperir hyn gan adran 2.

#### **Adran 3 – Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd**

Mae'r adran hon yn dileu'r gwaharddiad ar ffioedd a godir o dan y deddfiadau a restrir yn adran 23(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 rhag bod yn fwy na chost lawn y swyddogaeth y maent yn ymwneud â hi. Mae'r adran hon hefyd yn dileu'r gofyniad i ffioedd gael eu talu gan y corff penodol y mae'r swyddogaeth yn ymwneud ag ef.

Mae Adran 3 yn diddymu'r pŵer i godi ffioedd am waith o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 o adran 23 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Fodd bynnag, fel yr eglurwyd uchod, mae adran 2 yn cymryd lle'r ddarpariaeth hon gyda phŵer cyfatebol yn adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Effaith net y newidiadau hyn i ffioedd a godir o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yw y gallant gael eu pennu ar lefel sy'n fwy na'r gwariant cysylltiedig.

#### **Adran 4 – Cynllun ar gyfer codi ffioedd**

Mae Adran 4(2) yn adlewyrchu, yn dilyn diwygiadau a wneir gan adrannau 2 a 3, nad yw ffioedd am waith o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn destun y gofyniad nad yw ffioedd yn fwy na chost a gofynion y cynllun ffioedd a baratowyd o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae Adran 4(3) yn diwygio adran 24(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i gyflwyno gofyniad newydd i'r cynllun ffioedd a baratoir o dan adran 24 i gynnwys darpariaeth bod yn rhaid i SAC geisio sicrhau bod swm y ffioedd a godir am yr holl waith a wneir o dan y deddfiadau a restrir yn adran 24(1), o'u cymryd gyda'i gilydd a chymryd un flwyddyn gydag un arall, yn cyfateb yn fras i'w holl wariant mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw. Bydd y gofyniad newydd hwn yn cymryd lle'r gwaharddiad ar ffioedd sy'n fwy na chost lawn y swyddogaeth y maent yn ymwneud â hi, a gaiff ei ddileu gan adran 3.

#### **Adran 5 – Cworwm ar gyfer cyfarfodydd SAC**

Mae'r adran hon yn dileu'r gofyniad ym mharagraff 28(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ar gyfer rheolau gweithdrefnol SAC i ddarparu na ellir, ym mhob amgylchiad, fodloni cworwm oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol.

#### **Adran 6 – Adroddiadau interim**

Mae'r adran hon yn dileu'r gofynion i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC i baratoi adroddiadau interim ar y cyd ar arfer swyddogaethau, a gosod y rhain gerbron y Cynulliad, fel y darperir ar hyn o bryd gan is-baragraffau (3) i (5) o baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

#### **Adran 7 – Gosod adroddiadau ac ati gerbron y Cynulliad**

Mae'r adran hon yn diwygio paragraff 3(6) o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, i'w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC i ddarparu adroddiad blynyddol SAC, cyn gynted ag y bo'n ymarferol i'r archwilydd a benodir o dan baragraff 34 o Atodlen 1 a sut bynnag heb fod yn hwyrach na 5 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad blynyddol yn ymwneud â hi. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio paragraff 35 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 fel bod yn rhaid i archwilydd SAC osod yr adroddiad blynyddol, a ddarperir gan Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar yr un pryd â gosod y datganiad cyfrifon ac unrhyw adroddiad.

#### **Adran 8 ac Atodlen 1 – Diwygiadau canlyniadol**

Mae Adran 8 o'r [Bil drafft] yn rhoi effaith i'r diwygiadau canlyniadol a wneir yn Atodlen 1. Mae'r diwygiadau hynny'n ymwneud â phwerau codi ffioedd amrywiol i'w canfod mewn deddfiadau ac eithrio adran 23(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a gwaharddiadau cysylltiedig ar ffioedd sy'n fwy na chost lawn y swyddogaethau y maent yn ymwneud â hwy. Mae'r diwygiadau'n dileu'r gwaharddiadau hyn yn unol â'r newidiadau i adrannau 23 a 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a wneir gan y [Bil] hwn.

#### **Adran 9 – Enw byr a chychwyn**

Mae Adran 9 yn darparu ar gyfer holl darpariaethau'r [Bil drafft] i ddod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y bydd y [Bil drafft] yn cael Cydsyniad Brenhinol. Mae hefyd yn darparu mai enw byr y [Bil drafft] yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) Cymru 2018.



# **Public Audit (Amendment) (Wales) Bill**

**[DRAFT]**

## **CONTENTS**

**[TO INSERT]**

# Public Audit (Amendment) (Wales) Bill

[DRAFT]

1 An Act of the National Assembly for Wales to make provision in relation to the charging of  
2 fees by the Wales Audit Office; to make provision in relation to the quorum for meetings of  
3 the Wales Audit Office; to make provision in relation to the reporting requirements of the  
4 Auditor General and chair of the Wales Audit Office; and for connected purposes.

5 **Having been passed by the National Assembly for Wales and having received the assent**  
6 **of Her Majesty, it is enacted as follows:**

7

8

## *Introduction*

### 9 **1 Overview**

10 (1) The main provisions of this Act amend the Public Audit (Wales) Act 2013 so as  
11 to—

12

13 (a) remove the prohibition on the Wales Audit Office (the “WAO”) charging  
14 fees that exceed the full cost of exercising the function to which the fee  
15 relates;

16

17 (b) require the WAO to include in a fees scheme a provision that seeks to  
18 ensure that the sum of the fees charged for work undertaken under  
19 specified enactments, taken together and taking one year with another, is  
20 broadly equivalent to all of its expenditure in connection with that work;

21

22 (c) remove the requirement that the rules in relation to quoracy for WAO  
23 meetings cannot be met unless there is a majority of non-executive  
24 members;

25

26 (d) remove the requirement for the Auditor General and the chair of the  
27 WAO to jointly prepare and lay interim reports before the National  
28 Assembly on the exercise of their functions;

29

30 (e) co-ordinate the laying of the annual report on the exercise of functions of  
31 the Auditor General and the WAO with the laying of the audited accounts  
32 of the WAO.

33

### 34 *Amendments to the Public Audit (Wales) Act 2013*

### 35 **2 Fees for provision of services**

36 (1) Section 19 of the Public Audit (Wales) Act 2013 is amended as follows.

37 (2) After subsection (6) insert—

38 “(6A) The WAO may charge a fee in relation to any services provided or  
39 functions exercised under this section.”.

40 (3) Omit subsection (8).

41

42 **3 General provision relating to fees**

43 (1) Section 23 of the Public Audit (Wales) Act 2013 is amended as follows.

44 (2) Omit paragraph (d) of subsection (3).

45 (3) Omit paragraphs (b) and (c) of subsection (5).

46

47 **4 Scheme for charging of fees**

48 (1) Section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013 is amended as follows.

49 (2) In subsection (2)(a) at the end insert “and which may only be charged in  
50 accordance with this scheme”.

51 (3) In subsection (2) after paragraph (d) insert—

52 “(e) provision that the WAO must seek to ensure that the sum of the fees  
53 charged for all of the work undertaken under the enactments mentioned  
54 in subparagraph (a), taken together and taking one year with another, is  
55 broadly equivalent to all of its expenditure in connection with that  
56 work.”.

57

58 **5 Quorum for WAO meetings**

59 (1) Paragraph 28 of Schedule 1 of the Public Audit (Wales) Act 2013 is amended as  
60 follows.

61 (2) Omit sub-paragraph (3).

62

63 **6 Interim reports**

64 (1) Paragraph 3 of Schedule 2 of the Public Audit (Wales) Act 2013 is amended as  
65 follows.

66 (2) Omit sub-paragraphs (3) – (5) and 6(b).

67

68

69 **7 Laying of reports etc. before Assembly**

70 (1) The Public Audit (Wales) Act 2013 is amended as follows.

71 (2) In paragraph 35 of Schedule 1, in sub-paragraph (2)(b) after “report on it”  
72 insert—

73 “and the annual report provided by the Auditor General and the chair of the  
74 WAO in accordance with paragraph 3 of Schedule 2”.

- 75 (3) In paragraph 3(6) of Schedule 2, for sub-paragraph (a) substitute –  
76 “(a) provide the annual report as soon as practicable to the auditor appointed  
77 under paragraph 34 of Schedule 1 and in any event no later than 5 months  
78 after the end of the financial year to which the annual report relates.”.  
79

80 *General*

81 **8 Consequential amendments**

82 Schedule 1 (consequential amendments) has effect.  
83

84 **9 Short title and commencement**

- 85 (1) This Act comes into force on the day after the day on which this Act receives  
86 Royal Assent.  
87 (2) The short title of this Act is the Public Audit (Amendment) (Wales) Act 2018.



88 **SCHEDULE 1**89 *(Introduced by section 10)*90 **CONSEQUENTIAL AMENDMENTS**

91

92 *Education Act 1997 (c. 44)*

93 1 In subsection (6) of section 41A of the Education Act 1997 omit the words from  
94 “(which” to the end of that subsection.

95

96 *Government of Wales Act 1998 (c. 38)*

97 2 (1) The Government of Wales Act 1998 is amended as follows.

98 (2) In subsection 145C(3) omit the words “(which may not exceed the full cost  
99 incurred in undertaking the programme)”.

100 (3) In section 145D, omit subsection (2A).

101

102 *Public Audit (Wales) Act 2004 (c.23)*

103 3 (1) The Public Audit (Wales) Act 2004 is amended as follows.

104 (2) In section 20, omit subsection (5A).

105 (3) In subsection 45(8), omit the words from “(but” to the end of that subsection.

106 (4) In section 64F, omit subsection (10).

107 (5) In section 67A, omit subsection (3).

108

109 *Government of Wales Act 2006 (c. 32)*

110 4 In subsection 144(2) of the Government of Wales Act 2006, omit subparagraph (g).

111

112 *Local Government (Wales) Measure 2009 (nawm 2)*

113 5 In section 27 of the Local Government (Wales) Measure 2009, omit subsection (4A).

114

115 *Local Democracy, Economic Development and Construction Act 2009 (c. 20)*

116 6 In subsection (4A) of section 50 of the Local Democracy, Economic Development and  
117 Construction Act 2009, omit the words from “But” to the end of that subsection.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon